Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2023-24

Gorffennaf 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2023-24

Gorffennaf 2024

senedd.cymru

# Cynnwys

**Trosolwg** ........ **6**

Rhagair ........ 8

Cyflwyniad ........ 10

Datganiad o Ddiben ........ 12

Comisiynwyr ........ 14

Cynghorwyr Annibynnol ........ 16

Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn ........ 18

Strwythur llywodraethu ........ 20

Trefniadau Rheoli’r Comisiwn ........ 21

Crynodeb o’r gweithgareddau ........ 24

**Dadansoddi Perfformiad** ........ **32**

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ........ 34

Proffil risg ........ 46

Adolygiad ariannol ........ 49

Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf ........ 54

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn ........ 74

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy ........ 89

Cynaliadwyedd ........ 99

**Atebolrwydd** ........ **108**

Llywodraethu Corfforaethol ........ 110

Datganiad o gyfrifoldebau’r Comisiwn a’r Prif Swyddog Cyfrifyddu ........ 112

Datganiad Llywodraethu ........ 114

Taliadau a Staff ........ 135

Atebolrwydd ac archwilio ........ 153

Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd ........ 160

**Datganiadau ariannol ........ 169**

Nodiadau i gyd-fynd â’r Cyfrifon ........ 176

Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra ........ 205

**Lle i Ni: Dathlu Menywod yn Nemocratiaeth Cymru**
Hydref 2023



# Trosolwg

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.



# Rhagair



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
**Llywydd, Senedd Cymru**

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer fy wythfed flwyddyn fel Llywydd; sef trydydd adroddiad y Chweched Senedd.**

Mae newid wedi bod yn nodweddiadol o'r flwyddyn ddiwethaf mewn ystyr wleidyddol a seneddol.

Mae dwy raglen newid fawr – Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio – wedi dominyddu gwaith Comisiwn y Senedd wrth inni barhau i sicrhau bod ein senedd, ei strwythurau a'i gweithdrefnau yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Medi cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a fydd yn cynyddu nifer Aelodau o'r Senedd i 96, a chwblhaodd ei daith ddeddfwriaethol drwy'r Senedd ar 8 Mai, gan sicrhau uwch-fwyafrif o'i blaid. Drwy ein rhaglenni newid mawr ac mewn cydweithrediad agos â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, mae swyddogion y Comisiwn yn datblygu cynigion i sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r Seithfed Senedd.

Mae pwyllgorau wedi parhau i ddangos sut mae'r Senedd yn ychwanegu gwerth at y broses ddemocrataidd, gan ymgysylltu â'r cyhoedd a chlywed tystiolaeth uniongyrchol ar amrywiaeth o faterion sydd o bwys i bobl Cymru.

Gydag enwebiad Prif Weinidog newydd ym mis Mawrth a newidiadau dilynol i aelodaeth y pwyllgorau, mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi cefnogi Cadeiryddion ac aelodau newydd pwyllgorau i gyflawni eu dyletswyddau newydd a pharhau i wneud gwaith craffu cadarn ar y llywodraeth.

Mae'r Senedd a'i phwyllgorau wedi parhau â'u gwaith ar ffurf hybrid, lle mae arloesedd yn parhau i fod yn nodwedd o'r ffordd y mae ein senedd yn gweithredu. Mae Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru wedi dechrau ar ei waith o archwilio pob cam o Ymchwiliad Covid-19 y DU ac yn cynnig unrhyw feysydd o barodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill Cymru a ddylai gael eu harchwilio ymhellach. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu gyda model arloesol o gyd-gadeirio.

Eleni hefyd daeth ail Senedd Ieuenctid Cymru i ben. Mae'r ail garfan o Aelodau ifanc wedi adeiladu ar waith clodwiw y Senedd Ieuenctid Gyntaf a dangosodd bwysigrwydd rhoi llais i bobl ifanc Cymru. Roedd eu hymchwiliadau i iechyd meddwl, trafnidiaeth gyhoeddus a hyd y diwrnod ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau eu cyfoedion, ac yn dod â hwy at sylw'r Gweinidogion.

Wrth inni nodi chwarter canrif o ddatganoli eleni, mae'r holl Aelodau a minnau'n parhau i fod yn ddyledus i staff y Comisiwn am eu brwdfrydedd a'u hymrwymiad parhaus wrth ddarparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf, ac am ymdrechu i roi'r Senedd wrth wraidd bywyd Cymru.

# Cyflwyniad



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

**Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o newid mawr, o arloesi, ac yn flwyddyn lle'r ydym wedi gweld y Senedd yn dod yn fwy a mwy o ganolbwynt i fywyd cyhoeddus Cymru.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld cynigion, megis cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd a chyflwyno system etholiadol newydd, yn aeddfedu i Filiau. Mae Comisiwn y Senedd wedi chwarae ei rôl drwy gefnogi gwaith craffu cadarn ar y cynigion, llywio'r amcangyfrifon cost gofynnol, a pharatoi'n ddarbodus ar gyfer gweithredu'r diwygiadau yn y dyfodol.

Mae prosesau cynllunio corfforaethol y Comisiwn wedi'u datblygu ymhellach i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n gynaliadwy a bod y Comisiwn yn sicrhau gwerth am arian i'r cyhoedd. Rydym yn mireinio ein trefniadau o ran cynllunio'r gyllideb i sicrhau bod blaenoriaethau, adnoddau a threfniadau cyflawni wedi'u hanelu at y nodau tymor canolig, yn ogystal â thargedau'r flwyddyn gyfredol.

Ac ar ôl blynyddoedd o gyfyngiadau oherwydd y pandemig, rydym yn falch bod mwy a mwy o bobl yn ymweld â'r Senedd unwaith eto ac yn ymgysylltu â'i gwaith.

Gwnaethom groesawu 150,000 o ymwelwyr i'r Senedd a'r Pierhead yn 2023, gyda 70% o'r rhai y buom yn ymgysylltu â hwy yn dweud wrthym nad oeddent erioed wedi ymgysylltu

â'r Senedd o'r blaen. Cyfrannodd bron i 3,000 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru at waith Senedd Ieuenctid Cymru ar deithio cynaliadwy a hyd y diwrnod ysgol. A daeth Caffi'r Senedd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i ennill achrediad gan y 'Kids in Museums Family Café Standard' – meincnod sy'n cydnabod caffis sy'n rhoi croeso cynnes i bawb.

Y llynedd hefyd gwelwyd ein deiseb fwyaf poblogaidd erioed, gyda thros 460,000 o lofnodion. Mae grisiau'r Senedd wedi'u gweld fel lle i ddod ar gyfer protestiadau ar faterion cenedlaethol a rhyngwladol, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y sylw a roddir i'r Senedd a gwaith ei phwyllgorau yn y newyddion.

Mae ein hymrwymiad i gynhwysiant a chynrychiolaeth yn parhau drwy fonitro amrywiaeth y dystiolaeth a gyflwynir i bwyllgorau'r Senedd, gan ein galluogi i nodi lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol a deall y rhwystrau a'r cymhellion i gyfranogiad.

Drwy osod profiadau bywyd pobl wrth wraidd ein gwaith, rydym nid yn unig wedi cefnogi'r pwyllgorau i ddeall yn well effaith penderfyniadau ar fywydau pobl ond hefyd wedi gwneud ein cyfathrebiadau'n fwy perthnasol i wahanol gynulleidfaoedd.

Rydym yn benderfynol bod y Senedd yn rhywle lle mae pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi.

Mae'r flwyddyn o'n blaenau yn un lle byddwn yn edrych yn ôl ar 25 mlynedd o'r Senedd ac o ddatganoli yng Nghymru, ond hefyd yn un lle byddwn yn edrych ymlaen ac yn paratoi ar gyfer pan ddaw Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn gyfraith.

Ond bydd ein rôl fel staff y Comisiwn yn parhau fel y mae bob amser: cefnogi Aelodau o'r Senedd i wasanaethu pobl Cymru.

# Datganiad o Ddiben

### Senedd Cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

### Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

## Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i, a hwyluso newid cyfansoddiadol, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyng-sefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac yn wyneb yn wyneb.
- Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog.
- Sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn.
- Meithrin a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach i weithio ac ymgysylltu.

# Comisiynwyr

## Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol i bobl Cymru.

Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Senedd. Ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiynwyr fel 'bwrdd llywodraethu' mae gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol hynny eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau a bod yn atebol i'r Senedd o ran eu stiwardiaeth.

Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd. Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb ar y cyd dros benderfyniadau ac mae ganddynt statws cyfartal mewn trafodaethau, ac mae pob aelod o'r Comisiwn yn cael ei gynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae gan bob Comisiynydd bortffolio penodol o gyfrifoldebau.



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS (Plaid Cymru)**

Y Llywydd yw Cadeirydd y Comisiwn a hi hefyd yw'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am gyfathrebu.

Mynychodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Rhun ap Iorwerth AS (Plaid Cymru)**

Ymddiswyddodd ar 19 Mehefin 2023

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol.

Mynychodd Rhun ap Iorwerth 2 allan o 2 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Hefin David AS (Llafur Cymru)**

Penodwyd ar 17 Ebrill 2024

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y gyllideb a llywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Ni fynychodd Hefin David unrhyw gyfarfodydd gan ei fod wedi'i benodi ar ôl dyddiadau'r cyfarfodydd yr adroddir arnynt.



**Janet Finch-Saunders AS (Ceidwadwyr Cymreig)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Mynychodd Janet Finch-Saunders 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Adam Price AS (Plaid Cymru)**

Penodwyd ar 4 Gorffennaf 2023

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Mynychodd Joyce Watson 7 allan o 7 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Ken Skates AS (Llafur Cymru)**

Ymddiswyddodd ar 15 Ebrill 2024

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Mynychodd Ken Skates 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru)**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Mynychodd Joyce Watson 9 allan o 9 o gyfarfodydd y Comisiwn.

# Cynghorwyr Annibynnol

Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn gweithredu mewn capasiti cynghorol, anwleidyddol. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafell fwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n cyflwyno arbenigedd, sgiliau a dealltwriaeth amrywiol, er mwyn helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Gallant ddarparu mewnwelediad gwrthrychol a her adeiladol, a rhoi sicrwydd.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau'r Comisiwn, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau, drwy ryngweithio â meysydd gwasanaeth y Comisiwn, yn eu rolau ar bwyllgorau cynghorol i'r Comisiwn a thrwy gyfrannu safbwynt allanol ac annibyniaeth i'n llywodraethu corfforaethol.

## Tâl Cydnabyddiaeth

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 - Presennol)**

Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Mynychodd Bob Evans 4 o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Aled Eirug (Ebrill 2019 - Presennol)**

Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hyd at fis Gorffennaf 2023. Fe'i benodwyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ym mis Tachwedd 2023.

Mynychodd Aled Eirug 3 allan o 3 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, a 2 allan o 2 o gyfarfodydd yn ystod ei aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae Aled hefyd yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Mark Egan (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Mark ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Mark Egan wedi mynychu 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Yr Athro Uzo Iwobi (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Uzo ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Mae Uzo hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae'n un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Uzo Iwobi wedi mynychu 3 allan o 3 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, ac 1 allan o 1 o gyfarfodydd y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant.



**Menai Owen-Jones (Tachwedd 2022 – Presennol)**

Dechreuodd Menai ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Mae Menai hefyd yn aelod o Grŵp Llywio'r Gweithlu.

Mae Menai Owen-Jones wedi mynychu 4 allan o 4 o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, 3 allan o 3 o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau, ac 1 allan o 1 o gyfarfodydd Grŵp Llywio'r Gweithlu.

# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a Chlerc, yn unol â nifer o eithriadau ac amodau.

Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir isod.



**Siwan Davies**
**Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd**

Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r Byrddau corfforaethol a'r Comisiwn.

Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu cyfieithu a chofnodi, gan gynnwys y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a darparu TGCh a'r Swyddfa Rhaglenni.
Mae'n sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.



**Edward (Ed) Williams**
**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**


Darparu swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Caffael, yr Uned Cynllunio Strategol a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd.
Mae'r Prif Swyddog Ariannol, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i Ed Williams.



**Huw Williams**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Darparu cyngor cyfreithiol arbenigol a diduedd i'r Llywydd, y Comisiynwyr, Aelodau o'r Senedd, y Prif Weithredwr ac adrannau eraill Comisiwn y Senedd.

# Strwythur Llywodraethu




## Cyrff Cynghori Annibynnol

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg.

### Y Pwyllgor Taliadau

Yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â thaliadau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

# Trefniadau Rheoli'r Comisiwn

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol ac adnoddau staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa prosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystad, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol yw darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn[1]. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Prif Swyddog Cyllid, y Prif Swyddog Pobl, a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

## Cyfathrebu rhwng y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y Comisiwn ac Aelodau o'r Senedd yn bwysig er mwyn llywio'r ddarpariaeth o'r safonau uchaf posibl o wasanaeth. Mae'r Prif Weithredwr a'r Llywydd yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso'r cyfathrebu hwn, gyda'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn a'r Aelodau yn darparu cymorth wrth ymdrin â phryderon a materion a godwyd gan yr Aelodau.

Mae dulliau amrywiol ar waith ar gyfer cyfathrebu rhwng y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys adborth rheolaidd gan y Comisiynwyr i aelodau eu grŵp am waith y Comisiwn a darparu gwybodaeth drwy fewnrwyd yr Aelodau. Mae Grŵp Cyswllt Plaid y Senedd yn darparu cyfarfodydd strwythuredig, wedi'u cynllunio gyda grwpiau plaid i lywio syniadau a phenderfyniadau'r Comisiwn.

[1] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Y Swyddfa Rhaglenni sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd.

Mae'r Pennaeth Cyswllt â’r Aelodau yn gweithio gyda chydweithwyr i gynllunio camau ymgysylltu a chyfathrebu â’r Aelodau, gan gwmpasu amseru, cynnwys, arddull priodol a'r sianelau i'w defnyddio.

Cynhaliwyd yr ail Arolwg Aelodau a Staff Cymorth ar gyfer y Chweched Senedd yn ystod hydref 2023. Mae'r Comisiwn wedi cytuno i gynnal yr arolwg hwn dair gwaith yn ystod tymor y Senedd, er mwyn deall pa mor dda mae'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi perfformio, a sut y gellir eu gwella. Yn ogystal â'r cwestiynau safonol, gofynnwyd am wybodaeth o ran dewisiadau cyfathrebu er mwyn helpu i lunio’r ffordd y darperir gwybodaeth am wasanaethau'r Comisiwn i ddiwallu anghenion yr Aelodau.



The Chief Dock Manager's Office
Penarth Head
Yr Ardal Fasnachol
Commercial District
West Dock Basin

# Crynodeb o'r gweithgareddau

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2023-24 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau<br>❶ ❷ ❸ ❹ | Fframwaith Rheoleiddio Aelodau | Bwrw ymlaen â'r gwaith ar symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein fframwaith rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i'r Aelodau | Datblygodd deialog rhwng y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Chomisiwn y Senedd gyda'r nod o sefydlu dealltwriaeth a rennir o sut y caiff anghenion yr Aelodau eu cefnogi drwy wasanaethau'r Comisiwn a Phenderfyniad y Bwrdd, gan edrych i'r Seithfed Senedd a thu hwnt, a chan gynnwys trafodaethau ar symleiddio'r Penderfyniad.<br>Mae meysydd cynnydd pellach yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r Aelodau ar faterion cyfoes, ac adnewyddiad o'r ffordd y mae gwybodaeth ar gael i'r Aelodau. | Gwella a symleiddio'r cymorth i'r Aelodau |
| | | Diwygio'r Senedd | Diwygio'r Senedd | Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i reoli paratoadau ar gyfer y newid a gynigir yn sgil y diwygio hwn. Mae gwaith Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd wedi rhoi cymorth i gyfraniadau'r Comisiwn a'r Llywydd yn ystod cyfnod craffu proses y Bil, a'r goblygiadau i'r gyllideb ddrafft. Mae hyn wedi cynnwys ymarfer helaeth i ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru a'r pwyllgorau sy'n craffu ar gostau amcangyfrifedig Diwygio'r Senedd i Gomisiwn y Senedd. | Paratoi'n ddarbodus at ddiwygio'r Senedd |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2023-24 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau<br>❶ ❷ ❸ ❹ | Prosiectau Ystadau a yrrir gan Ddiwygio'r Senedd | | Paratoadau doeth wedi'u gwneud ar gyfer prosiectau ystadau Diwygio'r Senedd i ad-drefnu'r ystad i ddiwallu anghenion Senedd mwy o faint a'i dyletswyddau statudol, gan gynnwys gweithio'n agos gyda'r Aelodau, Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn, a chaffael gwasanaethau dylunio arbenigol i sicrhau bod y Siambr yn diwallu anghenion y Senedd. | Cynnal rhaglen buddsoddi digidol a'r ystad |
| | | Methiant Prosiect Bae Caerdydd 2032 | | Sefydlodd y Comisiwn brosiect Bae Caerdydd 2032 yn ffurfiol, ac mae wedi cymryd camau i roi trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a sicrhau gwerth am arian a'r buddion arfaethedig. Cymeradwyodd y Comisiwn yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect a'i awdurdodi i symud ymlaen i'r cam nesaf o gynllunio prosiect manwl. Gosododd hyn y weledigaeth, yr amcanion, y buddion a, thrwy gynnal gwerthusiad gwerth am arian cychwynnol, llywiodd y ffordd ymlaen a ffefrir. | Parhau i ddatblygu prosiect Bae Caerdydd 2032, a fydd yn darparu adeilad y Comisiwn yn y dyfodol y tu hwnt i ddiwedd prydles bresennol Tŷ Hywel. |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2023-24 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf** | Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu | Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU | Newid Cyfansoddiadol y DU | Ar hyn o bryd yn ystyried goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 i'r Senedd.<br>Ers i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023, mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u diwygio er mwyn galluogi pwyllgorau i allu craffu ar Offerynnau Statudol sy'n dod o'r Ddeddf.<br>Mae staff y Comisiwn yn parhau i fonitro effaith bosibl y Ddeddf. | |
| | Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy | Gallu a Chapasiti Corfforaethol | Ymgorffori'r fframwaith cynllunio gwasanaeth a chynllunio corfforaethol wedi'u diweddaru | Cynhaliodd y Comisiwn ail rownd o'i weithgarwch cynllunio gwasanaeth a chynllunio corfforaethol wedi'u diweddaru. Cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Gynllun Corfforaethol yn cwmpasu gorwel cynllunio o ddwy flynedd hyd at ddiwedd y Chweched Senedd, gyda chyfres o flaenoriaethau wedi'u hadnewyddu i ddarparu fframwaith gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a monitro cynnydd. Datblygwyd cynlluniau Meysydd Gwasanaeth i sicrhau bod y meysydd gwasanaeth y gellir eu cyflawni a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gwireddu wedi'u nodi mewn modd amserol. | |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn** | Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais 7 | | | Mae sesiynau casglu tystiolaeth yn sicrhau bod profiadau byw y rhai y mae polisïau a deddfwriaeth yn effeithio'n uniongyrchol arnynt wrth wraidd yr argymhellion a wneir i Lywodraeth Cymru. | Cyflawni yn erbyn ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd |
| | Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb 5 6 | | | Cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, gan gynnwys grŵp cynghori ar-lein a sesiynau grŵp ffocws wyneb yn wyneb. | |
| | Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog | | Cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg ynghylch cydymffurfio â'n Cynllun Ieithoedd Swyddogol | Mae canllawiau wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith i hwyluso'r broses o adnabod materion sy'n dod i'r amlwg a gwahaniaethu rhwng enghreifftiau o fethiant i gydymffurfio â'r cynllun a chwynion er mwyn cymryd y camau unioni priodol. | |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn 14 | | | Mae manteisio ar batrymau gwaith mwy cyson a defnydd o'r ystad wedi sicrhau bod y defnydd o gyfleustodau yn parhau i adlewyrchu lefel y ddeiliadaeth.<br>Mae ffocws wedi bod ar newid ymddygiad ac arbedion effeithlonrwydd i leihau defnydd. Mae teithio carbon isel yn cael ei wneud mor hawdd â phosibl i'r Aelodau a staff.<br>Mae blaengynllunio wedi cynnwys cefnogi gwaith gyda'r Rhwydwaith Gwres Ardal sy'n cael ei adeiladu o amgylch Caerdydd, a fydd yn y pen draw yn cyflenwi ein dau adeilad mwyaf â gwres carbon isel. | Sicrhau ein bod yn parhau i wireddu uchelgeisiau cynaliadwyedd y Comisiwn drwy'r strategaeth Carbon Niwtral |
| | Meithrin a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau 10 11 12 | Ymosodiadau seiber | | Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i liniaru'r risg hon, gyda gweithgarwch parhaus i wella ein gwytnwch. | |
| | | Gallu a Chapasiti Corfforaethol | Cwblhau a gweithredu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig | Cymeradwywyd Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig cyntaf y Comisiwn, sy'n cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd a Chynllun Gweithlu, a throswyd ei egwyddorion i gyllideb flynyddol 2024-25. | Meithrin gweithlu ymroddedig, medrus, amrywiol |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r Fframwaith wedi'i adnewyddu ar ddiwedd 2023-24, gyda'r fersiwn ddiweddaraf i'w chymeradwyo yn 2024-25, yn cwmpasu gorwel cynllunio o 2025-26 i 2027-28. | |
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd<br>8 | | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu prosiectau a rhaglenni yn parhau i fod yn effeithiol, a gweithredu'r fframwaith rheoli portffolio a chylchoedd adrodd ar y cyd ar gyfer rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio, a phrosiectau mawr eraill | Datblygodd y Comisiwn y gwaith o gyflawni'r rhaglenni newid Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd a chyflawni ei bortffolio o brosiectau newid ar gyfer 2023-24.<br>Rheolir y ddwy raglen drwy Fyrddau Rhaglen, a gadeirir gan Uwch-swyddogion Cyfrifol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol ac sy'n atebol iddo.<br>Er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol, mae'r Bwrdd Rhaglen Ffyrdd o Weithio yn gweithredu yn unol â disgwyliadau Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus, gan gyfarfod yn rheolaidd bob mis yn ystod 2023-24 a datblygu a chymeradwyo Cylch Gorchwyl a Strategaeth Rhaglenni wedi'u diweddaru. | |
| | Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian<br>9 15 | Diogelu Data (Comisiwn y Senedd) | | Mae'r rhaglen waith i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys gwaith gyda meysydd gwasanaeth a Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau bod Asesiadau Effaith Diogelu Data yn cael eu cynnal yn briodol, yn parhau. | Cynnal trefniadau llywodraethu cryf o ran gwybodaeth |

| Nod Strategol y Comisiwn | Blaenoriaethau'r Comisiwn | Risgiau Corfforaethol Dynodedig | Meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 | Cynnydd a wnaed yn ystod 2022-23 | Edrych ymlaen at 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy** | Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu 13 | | Cwblhau a gweithredu strategaeth a rhaglen waith Ffyrdd o Weithio | Symudodd y Rhaglen Ffyrdd o Weithio o gyfnod cychwynnol y Cynllun Gweithredu Interim i gyfres o brosiectau cyflawni. Cyflawnodd ei brosiect Sarn Mynach 2023, gan adleoli ei swyddfa yng ngogledd Cymru yn llwyddiannus i swyddfeydd canolog Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno.<br>Mae wedi cychwyn ar brosiectau Tŷ Hywel 2026 a Siambr 2026 i baratoi ar gyfer yr addasiadau i ystad y Senedd sydd eu hangen ar gyfer 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd a'u staff, a chyflawni'r addasiadau hyn. | Cyflawni'r Rhaglen Ffyrdd o Weithio a'i phrosiectau cyfansoddol. |
| | | Urddas a pharch | | Cymerwyd camau i wella ymwybyddiaeth yr Aelodau o'r gyfundrefn safonau. Mae sesiynau ymwybyddiaeth pellach wedi'u cyflwyno i grwpiau gwleidyddol gan y Comisiynydd Safonau, a darparwyd hyfforddiant ar urddas a pharch yn benodol. Bydd y rhain yn parhau i fod yn rhan o'r ddarpariaeth yn barhaus drwy gydol tymor y Senedd. | Cefnogi ein diwylliant o urddas a pharch |

Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol - Mae rhagor o wybodaeth am ein Dangosyddion ar gael ar dudalen 34.

1. Busnes seneddol wedi digwydd fel y cynlluniwyd
2. Cofnod y Trafodion wedi'i gyhoeddi o fewn y terfyn amser
3. Trawsgrifiad pwyllgor wedi'i gyhoeddi o fewn y terfyn amser
4. Darparu papurau dwyieithog
5. Ymgysylltu â dinasyddion
6. Dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Senedd
7. Ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu cyfryngau
8. Cyllideb weithredol
9. Cyfrifon diamod
10. Arolwg staff
11. Dysgwyr Cymraeg
12. Ceisiadau am swyddi gan unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
13. Cyfradd salwch staff
14. Ôl troed carbon blynyddol
15. Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru

Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad ar dudalen 32. Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r camau lliniaru o ran y risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2023-24 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 114.

**Mat chwarae ar ffurf map o Gymru yn y Senedd**
a ddyluniwyd gan dîm Brandio a Dylunio'r Comisiwn



# Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.



# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd. Caiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.

Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid a bu i rai o'n ffyrdd o weithio addasu o ganlyniad i hynny. Dylid cadw hyn mewn cof wrth wneud cymariaethau uniongyrchol flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn i'n harferion gwaith yn ddigonol, ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, cynhaliwyd adolygiad o'n dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Chweched Senedd. Dyma'r ail flwyddyn o adrodd ar y dangosyddion perfformiad allweddol ers yr adolygiad, ac felly nid yw data y flwyddyn flaenorol ar gael ar gyfer pob dangosydd.

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf


Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**


1 Parhaodd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau i gyfarfod ar ffurf hybrid




2 Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100% drwy gydol y flwyddyn





3 Dangosydd Perfformiad Allweddol yn ei ail flwyddyn adrodd yw cyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgor ar-lein (gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg) o fewn tri diwrnod gwaith. Cyrhaeddwyd cyfanswm o 247 o ddyddiadau cau ar gyfer trawsgrifiadau pwyllgor yn unol â'r targed. Methwyd pum dyddiad cau ar gyfer trawsgrifiadau pwyllgor oherwydd llwythi gwaith hynod o drwm, amser-sensitif



## Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf


❹ O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi'n fewnol yn ddwyieithog. O'r 1,182 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,148 yn ddwyieithog




## Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

❺ Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cryfhau ein dulliau casglu data yn unol â'n fframwaith gwerthuso, ac wedi cynyddu nifer y pwyntiau cyswllt cwsmeriaid i sicrhau ein bod yn casglu data cyson ar draws y gwahanol wasanaethau a ddarperir gennym. Mae hyn wedi golygu y gallwn bellach gymharu ein gwasanaethau yn erbyn llinellau sylfaen a'r effaith a gânt. Yna, gallwn adolygu ein dulliau ymgysylltu i wella ein cynnig gwasanaeth yn barhaus.



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn


❻ Mae ein cynulleidfa cyfryngau cymdeithasol net wedi cynyddu bron 20% eleni. Ein nod hirdymor yw cynyddu cynulleidfaoedd y tu allan i X i ddod yn llai dibynnol ar ein dilynwyr cyfryngau cymdeithasol mwyaf. Rydym wedi tyfu LinkedIn 17%, Instagram 14% a Facebook 5.3%, gydag X yn tyfu 1.1% yn unig. Gydag algorithmau rhwydwaith yn canolbwyntio mwy ar ymgysylltu â chynulleidfa, na nifer y dilynwyr, rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar ymgysylltu. Mae ein cyfradd ymgysylltu gyffredinol wedi cynyddu eleni i 3.7%, gyda LinkedIn (8.2%) a Facebook (7.2%) y sianeli yr ymgysylltir fwyaf â hwy. Er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, rydym hefyd yn gweithio gyda chrëwyr cynnwys i gyrraedd y rhai nad ydynt yn dilyn y Senedd, neu sy'n llai tebygol o ddilyn. Mewn chwe mis rydym wedi cael bron i 60,000 o wyliadau fideo, ac wedi cyrraedd bron i 30,000 o bobl ar Instagram yn unig



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

## Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

7 Mae niferoedd uchel yn adlewyrchu pan fo pwnc adroddiad wedi'i ddosbarthu drwy'r wifren newyddion Press Association, gan arwain at gyrhaeddiad uchel ledled Cymru a'r DU. Byddwn yn parhau i feithrin perthynas gyda gohebydd PA Cymru, ac yn archwilio ffyrdd eraill y gallwn fanteisio ar y wifren newydd. Roedd y cyfansymiau uchaf ym mis Mai o ganlyniad i bum adroddiad pwyllgor gydag astudiaethau achos cryf, sy'n dangos bod ein hymdrechion i ddod o hyd i bobl ar gyfer straeon yn y cyfryngau yn talu ar eu canfed



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

❽ Sicrhau bod lefel yr amrywiad rhwng gwariant gweithredol net y Comisiwn a'i gyllideb gweithredol blynyddol o fewn 1.5%.


Mae'r alldro gweithredol ar gyfer 2023-24 yn 0.52% yn is na'r gyllideb

*Nid oes tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

❾ Mae ein cyfrifon yn ddiamod ac wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru


*Nid oes tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

❿ Cyflwynwyd ein Harolwg Pobl Blynyddol drwy arbenigwr arolwg annibynnol am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, gan ddefnyddio'r ymgysylltiad Chwe Cham at y Gweithle unwaith eto: llesiant, gwobrwyo a chydnabod, rhannu gwybodaeth, grymuso, meithrin balchder a boddhad swydd. Y Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yw 75%; sef 7% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant a 6% yn uwch na'r cyfartaledd byd-eang



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


⓫ Mae toriad yr haf yn dangos bwlch wrth i lawer o'r Aelodau roi'r gorau i fynychu gwersi. Fodd bynnag, mae gwersi staff yn parhau. Wrth i staff adael y Comisiwn, gall gymryd hyd at dri mis i gael rhywun yn eu lle, sy'n egluro'r gostyngiad yn y niferoedd. Mae Gloywi yn llawer mwy ad hoc gan fod ei angen yn aml at ddiben penodol. Mae cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys gwella sgiliau llafar gan fod llawer o staff yn ddihyder yn y Gymraeg



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

⓬ Ein targed yw cynyddu - o un flwyddyn i'r llall - nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol. Ar 31 Mawrth 2024, mae nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol wedi parhau i gynyddu, ac mae'n 116 (16.2%) ar hyn o bryd, o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf lle cawsom 112 (13.0%) o geisiadau. Mae'r flwyddyn adrodd hon yn gweld gwelliant yn y gyfradd drosi rhwng cyfweliad a chynnig swydd ar gyfer ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol. Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfraddau trosi ar draws ein prosesau recriwtio ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, ac yn defnyddio mewnwelediadau data ac adborth ymgeiswyr i nodi unrhyw rwystrau posibl a/neu wirioneddol i addasu ein prosesau yn unol â hynny



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


⓭ Yn ystod 2023-24 nid ydym wedi cyflawni'r meincnod o ran absenoldeb oherwydd salwch o fod ar feincnod y Gwasanaeth Sifil o 7.9 diwrnod, neu'n is na hynny. Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer uchel o achosion o salwch hirdymor, a gyrhaeddodd uchafbwynt yn nhymor yr Hydref (mae nifer y diwrnodau fesul person yn cyfateb i hyn - ers uchafbwynt o 9.0 diwrnod fesul person ym mis Hydref, mae hyn wedi gostwng yn ôl). Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r achosion hyn ac mae gweithwyr a oedd â salwch hirdymor iawn wedi gadael y sefydliad, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai eraill a oedd ar gyfnod salwch hirdymor yn ystod y flwyddyn hon wedi dychwelyd i'r gwaith. Mae polisi Salwch Hirdymor newydd wedi'i ddatblygu, ac rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn ystod toriad yr haf. Mae hyfforddiant rheoli absenoldeb ar gyfer rheolwyr yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o'i lansio erbyn diwedd y flwyddyn galendr



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


⓮ Mae Dangosydd Perfformiad Allweddol newydd ar gyfer y cyfnod adrodd hwn yn cysylltu â Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn - i leihau ein hôl troed carbon yn flynyddol o 1150 tunnell ym mlwyddyn sylfaen 2019-20 i 500 tunnell erbyn 2030. Mae targed o <955 tunnell o garbon erbyn diwedd y flwyddyn wedi'i gyrraedd (817 tunnell). Mae mesurau effeithlonrwydd a gyflwynwyd wedi helpu i leihau'n sylweddol ein defnydd o nwy yn arbennig



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

⑮ Mae ein gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru wedi gostwng o 47% y llynedd i 44% eleni. Mae hyn yn rhannol oherwydd rhai contractau untro, sef Archifo Digidol, lle gwnaethom wario £125,000 drwy Bow Tie, ac ar y prosiect PaR gyda Midland HR, lle rydym wedi gwario £110,000 ar gostau sefydlu, (tra hefyd wedi talu Zellis am ein system bresennol ar gyfer yr adran Adnoddau Dynol/y Gyflogres). Mae'r ddau gontract hyn yn cyfrif am 2.5% o'n gwariant




α7 III
C3
MENU
AF-ON
AEL
1h51m
XAVC S HD 120p 60
71%
AF-C
AWB
D-R OFF
AF OFF
REC
22:30
PP2
1/125
F8.0
±0.0
ISO AUTO
SONY
Fn
DISP
ISO
C4

# Proffil risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol (y Gofrestr), sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion am y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau ar bob lefel[2] wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 114.

Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys y risgiau a ganlyn:

**Seiberddiogelwch**

Fel gyda phob sefydliad, mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd ac adroddiadau sicrwydd manwl yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd i'r tîm seiberddiogelwch, ynghyd â gweithgarwch lliniaru parhaus, wedi cryfhau rheolaethau a gwytnwch. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd oherwydd natur y dirwedd fygythiadau sy'n newid yn barhaus.

**Cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)**

Mae'r Comisiwn wedi parhau i ganolbwyntio ar liniaru risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae hyn wedi cynnwys datblygu deunydd hyfforddi wedi'i adnewyddu ar gyfer swyddogion. Mae swyddogion y Comisiwn hefyd yn darparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gydymffurfiaeth diogelu data i'r Aelodau, sy'n rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain, a'u staff. Mae ymarfer mapio data hefyd wedi'i gynnal i lywio datblygiad cytundeb prosesu data rhwng y Comisiwn a'r Aelodau. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

---

[2] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion alllweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad. Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth.

## Diwygio'r Senedd

Mae'r risg hon, yn ymwneud â darparu Rhaglen Diwygio'r Senedd, wedi aros ar y Gofrestr er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro'n agos y rheolaethau a'r mesurau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol wrth i'r rhaglen ddatblygu. Mae'r risgiau'n gymhleth o ystyried nifer y newidynnau a rhanddeiliaid, ac mae lliniaru yn hollbwysig er mwyn gallu darparu'r rhaglen yn effeithiol a diogelu enw da y sefydliad. Mae rhagor o fanylion am Ddiwygio'r Senedd ar gael yn yr adran ar *Ddadansoddi Perfformiad* ar dudalen 32. Mae manylion am y trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglen Diwygio'r Senedd, sydd hefyd â'i chofrestr risg fanwl ei hun, i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

## Newid cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU

Mae'r risg hon wedi parhau ar y Gofrestr er mwyn sicrhau gwelededd y broses o reoli risgiau sy'n ymwneud â'r cymorth a ddarperir i'r Senedd mewn ymateb i dirwedd gyfansoddiadol bresennol ac esblygol Cymru a'r DU. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddigwydd.

## Fframwaith Rheoleiddio

Mae'r risg hon wedi parhau ar y Gofrestr wrth i waith fynd rhagddo i symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein Fframwaith Rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i'r Aelodau. Mae rhagor o fanylion am y cynnydd a wnaed ar liniaru ar gyfer y risg hon ar gael yn y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

## Gallu a Chapasiti Corfforaethol

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr i hwyluso'r gwaith o fonitro cynnydd yn erbyn camau lliniaru sy'n ymwneud â chapasiti a gallu y Comisiwn i gyflawni yn sgil galwadau cynyddol a newidiol, yn arbennig mewn perthynas â sicrhau newid trawsffurfiol arwyddocaol. Mae hyn wedi cynnwys datblygu a chynnwys mecanweithiau cynllunio cadarn er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl iawn, gyda'r sgiliau cywir, ar gael i gefnogi'r gweithlu gwydn ac addasadwy, yn arbennig wrth gyflawni newidiadau trawsnewidiol sylweddol. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael yn yr adran ar *Ddadansoddi Perfformiad* o dan Cynllunio Corfforaethol ac yn yr adrannau ar *Gynllunio a rheoli perfformiad*, a *Chynnydd a pherfformiad* o'r Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

## Urddas a pharch

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr wrth inni barhau i weithredu argymhellion o adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau urddas a pharch y Comisiwn. Byddwn hefyd yn monitro cynnydd, ac unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r Comisiwn, o ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i urddas a pharch yn y Senedd. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

## System yr adran Adnoddau Dynol/y Gyflogres

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cynnydd yn amlwg yn erbyn y camau lliniaru sy'n ymwneud â phrofi a gweithredu system newydd yr adran Adnoddau Dynol/y Gyflogres. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol canolig o ddigwydd.

## Methiant Prosiect Bae Caerdydd 2032

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn wrth i Brosiect cymhleth Bae Caerdydd 2032 gael ei gychwyn yn ffurfiol. Nod y prosiect yw sicrhau bod anghenion llety'r Comisiwn a'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Mae cofrestr risg prosiect hefyd ar waith. Mae rhagor o fanylion am y prosiect, a Rhaglen Ffyrdd o Weithio ehangach y Comisiwn ar gael o dan Ffyrdd o Weithio yn yr adran ar *Ddadansoddi Perfformiad* (tudalen 32) ac yn y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddigwydd.

## Prosiectau ystadau a yrrir gan Ddiwygio'r Senedd

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn wrth i'r Comisiwn wneud paratoadau doeth ar gyfer Diwygio'r Senedd. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch i ddatblygu dau brosiect a fyddai'n ad-drefnu'r ystad i ddiwallu anghenion Senedd mwy o faint. Mae risg y bydd y prosiectau hyn yn methu â diwallu'r anghenion hynny a/neu ddyletswyddau statudol perthnasol eraill y Comisiwn. Mae lliniaru'r risg hon wedi golygu gweithio'n agos iawn gyda'r Aelodau, Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn, a chaffael gwasanaethau dylunio arbenigol i sicrhau bod y Siambr yn diwallu anghenion y Senedd. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod gan y risg hon debygolrwydd gweddilliol isel o ddigwydd.

# Adolygiad ariannol

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, rhaid i'r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid. Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o'r Senedd, fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Bob pum mlynedd mae pennawd gwariant ychwanegol yn cael ei gynnwys ar gyfer etholiadau'r Senedd.

| Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** |
| **Cyllideb weithredol (Nodyn 1)** | 40 | 42 | 41 | 45 | 47 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 16 | 16 | 16 | 17 | 18 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (Nodyn 2)** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiadau** | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 |
| | **58** | **61** | **61** | **64** | **67** |

Nodyn 1 - Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir).

Nodyn 2 - Mae'r term 'Gwariant a reolir yn flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EM ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

| Dadansoddiad o'r Gyllideb Weithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol:** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff (Nodyn 3)** | 25 | 26 | 26 | 27 | 28 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 12 | 13 | 13 | 10 | 12 |
| **Cronfa brosiectau (Nodyn 4)** | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod) (Nodyn 5)** | 2 | 2 | 2 | 6 | 6 |
| | **40** | **42** | **41** | **45** | **47** |

Nodyn 3 - Mae'r newid rhwng 2018-19 a 2019-20 mewn costau sy'n gysylltiedig â staff yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gyfradd cyfraniadau pensiwn cyflogwr a osodwyd gan Drysorlys EM.

Nodyn 4 - Ers 2019-20 mae'r gyllideb wedi cynnwys Cronfa Prosiectau ddynodedig.

Nodyn 5 – Mae 'dibrisiant' yn cynnwys effaith IFRS16 a'r gofyniad i gydnabod prydlesi fel 'Asedau Hawl i Ddefnyddio' a dibrisiant tâl. Mae hefyd yn cynnwys y taliadau llog sy'n gysylltiedig ag Asedau Hawl i Ddefnyddio.

| Cyfanswm Gwariant y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** |
| **Gwariant gweithredol** | 40 | 42 | 41 | 44 | 46 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 15 | 16 | 15 | 17 | 17 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 |
| **Gwariant sy’n gysylltiedig ag etholiadau** | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| | **56** | **60** | **60** | **62** | **63** |
| **Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan/(drosodd) (Nodyn 6)** | **2.0** | **1.0** | **1.0** | **2.0** | **3.0** |

Nodyn 6 - Mae'r Comisiwn yn rheoli ei gyllideb ariannol yn agos. Mae’r tanwariant uwch yn 2019-20 yn rhannol oherwydd y pandemig COVID-19, a oedd yn golygu nad aeth nifer o brosiectau a gynlluniwyd ar gyfer pedwerydd chwarter y flwyddyn honno yn eu blaenau.

| Dadansoddiad o'r Gwariant Gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o wariant gweithredol:** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff** | 24 | 25 | 25 | 27 | 29 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 13 | 14 | 14 | 10 | 11 |
| **Cronfa brosiectau** | 1 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 2 | 2 | 2 | 5 | 5 |
| | **40** | **42** | **41** | **44** | **46** |
| **Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol – o dan/(drosodd)** | **-** | **-** | **1.0** | **0** | **1.0** |

Cyn 2019-20 nid oedd gan y Comisiwn Gronfa Brosiectau bwrpasol. Yn lle hynny, defnyddiwyd tanwariant a gynhyrchwyd o benawdau eraill y gyllideb i ychwanegu at y gyllideb weithredol.

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0% i 1.5% o'r gyllideb weithredol.

| Alldro 2023-24 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff** | 28.4 | 28.6 | 0.2 | 0.8% |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 12.0 | 11.0 | 1.0 | 7.85% |
| **Cronfa brosiectau** | 0.5 | 0.9 | 0.4 | 86.6% |
| **Costau etholiadau** | 0 | 0 | 0 | - |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 6.2 | 5.3 | 0.9 | 15.6% |
| **Cyfanswm y gweithgaredd gweithredol** | **46.9** | **45.7** | **1.1** | **2.53%** |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 17.8 | 17.3 | 0.4 | 2.64% |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 1.8 | 0.1 | 1.7 | 92.4% |
| | **67.2** | **63.9** | **3.3** | **4.98%** |

Mae'r alldro gweithredol (ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod) ar gyfer 2023-24 yn 0.52% yn is na'r gyllideb. Mae'r Comisiwn yn rhagweithiol yn rheoli'r gyllideb a sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ar gael. Mae rheolaeth ofalus yn ystod y flwyddyn a rhagolygon cywir wedi hwyluso safle alldro ar ddiwedd y flwyddyn sydd o fewn ystod y targed.

▼ **Cyfarfod Llawn, 19 Mawrth 2024**



# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd




## CEFNOGI'R CYFARFOD LLAWN



**68 Cyfarfod Llawn**

## CEFNOGI'R PWYLLGORAU



**322 o gyfarfodydd pwyllgor**



**309 o adroddiadau pwyllgor**

## DEDDFWRIAETH ATEGOL

**Cyflwynwyd 6 Fil newydd**

**Pasiwyd 5 Bil i ddod yn Ddeddfau**

## CWESTIYNAU A OFYNNWYD YN Y CYFARFOD LLAWN

**49 o Gwestiynau Amserol**

**894 o Gwestiynau Llafar**

**4,294 o Gwestiynau Ysgrifenedig**

**2 Chwestiwn Brys**

**7** Dadl **Aelodau unigol**

## Diwygio'r Senedd

Ar 30 Mai 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ei adroddiad – Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru[3]. Amlinellodd y newidiadau y gellid eu cyflwyno i gryfhau rôl y Senedd a rhoi llais cryfach i bobl Cymru.

Yn dilyn trafodaeth a chytuno ar gynnig gan y Senedd ar 8 Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb ffurfiol i'r adroddiad[4], gan fynegi ei bwriad i baratoi a chyflwyno deddfwriaeth i fwrw ymlaen ag argymhellion y Pwyllgor.

Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwygio'r Senedd wedi symud ymlaen yn sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a gyflwynwyd ym mis Medi yn cadarnhau'r dull a ffefrir gan Lywodraeth Cymru o ddiwygio'r Senedd.

Mae'r cynigion yn cynnwys cynyddu nifer Aelodau o'r Senedd o 60 i 96, a chyflwyno system etholiadol newydd – i gyd mewn pryd ar gyfer Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.

Cytunodd y Senedd ar egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ym mis Ionawr, yn dilyn cyhoeddi adroddiadau pwyllgor y Senedd ar y ddeddfwriaeth.

Cafodd y Bil ei basio gan y Senedd ar 8 Mai 2024. Yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol, bydd y Comisiwn nawr yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r gweithgareddau angenrheidiol i baratoi ar gyfer Seithfed Senedd diwygiedig.

Ym mis Mawrth, cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) Llywodraeth Cymru. Mae'r Bil yn ceisio cyflwyno cwotâu rhywedd statudol i'r system a ddefnyddir i ethol Aelodau o'r Senedd.

Galwyd ar Gomisiwn y Senedd i gefnogi proses Diwygio'r Senedd mewn nifer o wahanol ffyrdd:

- **wrth gefnogi'r gwaith o graffu** ar y ddeddfwriaeth;

[3] https://senedd.cymru/media/nekjfv3a/cr-ld15130-w.pdf
[4] https://senedd.cymru/media/m0dlbdrm/gen-ld15253-w.pdf

- **fel rhanddeiliad blaenllaw** drwy ddarparu gwybodaeth i gefnogi'r broses ddeddfwriaethol; a
- **drwy baratoi'n ddarbodus** am y posibilrwydd o newid.

Yn dilyn penderfyniad y Senedd i greu pwyllgor penodol i graffu ar ddeddfwriaeth Diwygio'r Senedd (y Pwyllgor Biliau Diwygio), defnyddiodd Comisiwn y Senedd ei gyllideb Diwygio'r Senedd wedi'i chlustnodi i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith y pwyllgor ychwanegol hwn.

Fel rhanddeiliad blaenllaw, darparodd Comisiwn y Senedd amcangyfrifon cost i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru a oedd yn cyd-fynd â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), a'r gwaith craffu cysylltiedig ar y Bil, drwy ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i bwyllgorau. Mae gwaith i ymateb i argymhellion y pwyllgor yn parhau lle nodwyd bod angen archwilio materion pellach.

O ystyried maint y diwygiadau arfaethedig, mae gwaith i baratoi ar gyfer y newid wedi gorfod dechrau cyn i Filiau Llywodraeth Cymru ddod yn gyfraith.

Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Rhaglen Diwygio'r Senedd, yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod y Senedd yn cael cymorth i baratoi o safbwynt ei busnes seneddol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Rhaglen Diwygio'r Senedd wedi cefnogi'r ymateb sefydliadol i'r ddeddfwriaeth arfaethedig o ran Diwygio'r Senedd, a'r Pwyllgor Busnes i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer ei adolygiad gweithdrefnol arfaethedig.

Ar wahân, mae Rhaglen Ffyrdd o Weithio y Comisiwn[5] wedi cychwyn prosiectau Tŷ Hywel 2026 a Siambr 2026 i baratoi ar gyfer ac i gyflawni'r addasiadau y mae eu hangen ar ystad y Senedd ar gyfer 36 o Aelodau ychwanegol o'r Senedd a'u staff. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus i sicrhau mai dim ond ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol dderbyn Cydsyniad Brenhinol y caiff unrhyw waith ei wneud.

[5] Mae gan y Rhaglen Ffyrdd o Weithio gylch gwaith ehangach na pharodrwydd yn ymwneud â Diwygio'r Senedd yn unig, ond mae'n cynnwys prosiectau i baratoi'r ystad a chynllunio adnoddau.

## Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

Dechreuodd Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru ar ei waith yn ystod 2023-24, a sefydlwyd y Pwyllgor ar 16 Mai 2023.

Cytunodd y Senedd mai cylch gwaith y Pwyllgor oedd bod yn gyfrifol am nodi unrhyw fylchau sy'n codi ar ôl cyhoeddi adroddiadau modiwl Ymchwiliad COVID-19 y DU. Bydd y Pwyllgor yn cynnig i'r Senedd, drwy gynnig, unrhyw fylchau y mae'n ystyried eu bod yn haeddu archwiliad pellach sy'n gysylltiedig â pharodrwydd ac ymateb Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff cyhoeddus arall yng Nghymru yn ystod y pandemig. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiadau ac yn gwneud argymhellion, fel y bo'n briodol. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ddim hwyrach na deufis ar ôl eu cyhoeddi.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn nodi na fydd yn ailedrych ar gasgliadau unrhyw ymchwiliadau a gynhelir gan bwyllgorau eraill y Senedd, er mwyn osgoi dyblygu. Fodd bynnag, cytunwyd hefyd na fydd yn cael ei wahardd rhag ystyried materion a ystyriwyd gan bwyllgorau eraill y Senedd lle mae rhagor o wybodaeth a budd amlwg o graffu ymhellach.

Gweithredir y Pwyllgor ar sail trefniant cyd-gadeirio newydd, gyda Joyce Watson AS a Tom Giffard AS yn cyflawni'r rôl ar y cyd. Mae'r trefniant hwn yn cynrychioli dull unigryw ar gyfer pwyllgorau'r Senedd a seneddau eraill ledled y byd. Yn ymuno â'r Cyd-Gadeiryddion mae Vicki Howells AS, Jack Sargeant AS, Altaf Hussain AS ac Adam Price AS.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weithredu'n llwyddiannus, cytunodd y Senedd ar Reol Sefydlog 35 Dros Dro ar 12 Gorffennaf 2023, a gytunodd ar y cynnig cyd-gadeirio ac a nododd ganllawiau ar gyfer gweithredu'r trefniadau'n llwyddiannus. O ganlyniad i hynny, cytunodd y Cyd-Gadeiryddion a'r Pwyllgor ehangach ar Brotocol Cyd-gadeirio yn yr un mis, a oedd yn nodi canllaw mwy ymarferol ar gyfer llywio'r trefniadau cadeirio newydd.

Tra bod y Pwyllgor yn aros i adroddiad modiwl cyntaf Ymchwiliad COVID-19 y DU gael ei gyhoeddi, mae wedi gwneud gwaith paratoi fel ei fod yn barod ar gyfer ei waith sylweddol, yn unol â'i gylch gwaith. Mae hyn wedi cynnwys derbyn adroddiadau monitro rheolaidd yn olrhain cynnydd Ymchwiliad y DU, a baratowyd gan gydweithwyr arbenigol o Ymchwil y Senedd.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trafod ystyriaethau ymarferol eraill, gan gynnwys ei Gynllun Cyfathrebu. Arweiniodd hyn wedyn at ddigwyddiad briffio i randdeiliaid y Pwyllgor, a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024 ar sail hybrid, gyda'r bwriad o friffio'r

rhanddeiliaid sydd â diddordeb a'r cyhoedd yn gyffredinol am waith y Pwyllgor hyd yma, yn ogystal â graddau ei gylch gwaith. Bydd y Pwyllgor yn parhau i archwilio dulliau eraill o gyfleu ei waith, yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor wedi cael sesiynau briffio gan gyfres o arbenigwyr perthnasol o feysydd sy'n ymwneud â gwaith Modiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU, ar wytnwch a pharodrwydd. Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan yr Athro Rowena Hill a Richard Pickford o Brifysgol Nottingham Trent, a'r Athro Ben Anderson o Brifysgol Durham, sy'n arbenigwyr enwog ym maes argyfyngau sifil posibl. Helpodd y sesiynau paratoadol hyn i adeiladu gwybodaeth Aelodau'r Pwyllgor cyn i waith sylweddol y Pwyllgor ddechrau ar ôl i'r adroddiad modiwl cyntaf gael ei gyhoeddi.

Bydd gwaith y Pwyllgor yn dechrau o ddifrif yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf hwn. Fodd bynnag, tan hynny, bydd y Pwyllgor yn parhau i wneud paratoadau i fod mor barod â phosibl i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd â diddordeb a'r cyhoedd.


Krystal Lowe

## Monitro amrywiaeth tystiolaeth pwyllgorau

Ers mis Medi 2023, mae pwyllgorau'r Senedd wedi bod yn monitro amrywiaeth y dystiolaeth a gânt fel mater o drefn. Mae casglu data gwell ar bwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i bwy sy'n rhoi tystiolaeth, ac yn helpu i nodi unrhyw batrymau, tueddiadau neu anghysondebau yn y dull o ymdrin â gweithgareddau. Mae'n galluogi pwyllgorau i gymharu lefelau cyfranogiad yn erbyn meincnodau, nodi lleisiau coll ac archwilio beth allai'r rhwystrau a'r cymhellion i gymryd rhan fod.

Cynhaliwyd y prosiect uchelgeisiol hwn ar ôl i Fforwm y Cadeiryddion (y corff sy'n dod â chadeiryddion etholedig pwyllgorau'r Senedd ynghyd) ystyried dau gynllun peilot blaenorol a chytuno i'w wneud yn rhan o waith o ddydd i ddydd y pwyllgorau.

Bydd canlyniadau'r gwaith monitro yn cael eu bwydo'n ôl i Fforwm y Cadeiryddion yn flynyddol, ac yn llywio'r ddadl barhaus ynghylch sut y gall y Senedd alluogi pobl Cymru i fynegi eu barn yn well yn eu senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am ganlyniadau'r ail beilot ar gael yn y blog hwn gan Ymchwil y Senedd: **Cyhoeddi data newydd am y rhai sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd**

Darllenwch ein **tudalen cwestiynau cyffredin** i gael gwybod mwy am fonitro amrywiaeth.

## Strategaeth Cyfnewid Gwybodaeth

Mae meithrin perthnasoedd rhwng y Senedd a'r gymuned ymchwil yn allweddol i ehangu, dyfnhau ac amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd ar gyfer craffu a deddfu.

Mae'r broses ddwy ffordd o gyfnewid gwybodaeth yn dod ag ymchwilwyr, Aelodau o'r Senedd, a swyddogion y Senedd ynghyd i rannu arbenigedd, datblygu perthnasoedd, a dysgu oddi wrth ei gilydd er budd gwaith seneddol ac ymchwil.

Mae ein Huned Cyfnewid Gwybodaeth yn gweithio i gryfhau cysylltiadau, cefnogi academyddion i ymgysylltu â'r Senedd, cynyddu effaith ymchwil, ychwanegu at ein capasiti ymchwil ein hunain, a gosod y Senedd fel lleoliad allweddol ar gyfer effaith ymchwil.

Ers ei sefydlu, mae ein rhaglen Cyfnewid Gwybodaeth wedi adeiladu ar y sylfaen gref o ymgysylltiad academaidd, ac mae wedi mynd o nerth i nerth, gyda llwyddiannau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Tyfu'r **Rhwydwaith Cyfnewid Gwybodaeth** i fwy na 350 o aelodau o dros 135 o brifysgolion a sefydliadau ymchwil ledled Cymru, y DU, a thu hwnt;
- Darparu **hyfforddiant** i dros 450 o ymchwilwyr ar sut i ymgysylltu'n effeithiol â'r Senedd, a chyfieithu a threfnu eu hymchwil ar gyfer cynulleidfa seneddol;
- Sicrhau cyllid sylweddol gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ar gyfer **swydd Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth dwy flynedd newydd**, gan gynyddu ein capasiti;
- Tyfu a datblygu ein rhaglen **Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil.** Lansiwyd dau Faes o Ddiddordeb Ymchwil newydd gennym yn ddiweddar, gan ddod â'r cyfanswm i chwech, gyda chyfanswm o 148 o arbenigwyr academaidd wedi cofrestru. Gwnaethom hefyd gefnogi digwyddiad Maes o Ddiddordeb Ymchwil pwyllgor, gan ddod ag academyddion o gadwrfa'r meysydd ynghyd â'r Aelodau, grwpiau trawsbleidiol ac ymchwilwyr i rannu gwaith ymchwil ac arbenigedd;
- Defnyddio ein cyrhaeddiad a'n rhwydweithiau i gefnogi pwyllgorau i **ddod o hyd i academyddion a chynghorwyr arbenigol ac ymgysylltu â hwy**;

- Cynnal y **gynhadledd flynyddol** deuddydd ar gyfer Ymchwil a Gwybodaeth Rhyngseneddol, gan groesawu dros 50 o gydweithwyr ymchwil a llyfrgelloedd seneddol i'r Senedd i rannu arfer gorau ac arloesedd;

- Comisiynu **gwaith ymchwil newydd** i lenwi bylchau tystiolaeth mewn meysydd o ddiddordeb i'r Aelodau a phwyllgorau, gan gynnyws gwaith ar lythrennedd iechyd a modelau cyllido bysiau;

- **Trosoli cyllid Cyflymydd Effaith prifysgolion**, i wneud y mwyaf o allbynnau o'n buddsoddiad mewn prosiectau ymchwil a gomisiynwyd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Phrifysgol Lerpwl i gael cyllid gan UK in a Changing Europe, i archwilio effeithiau Deddf Marchnad Fewnol y DU;

- Cynnal saith intern yn ystod y flwyddyn drwy **gynllun interniaeth polisi Ymchwil ac Arloesedd y DU**;

- Datblygu cysylltiadau newydd a chynnal y rhai sydd eisoes yn bodoli â sefydliadau ymchwil, cynghorau ymchwil a rhwydweithiau ymchwil ledled Cymru, a thu hwnt;

- Cyfnewid profiadau, cyngor a gwybodaeth â **seneddau ledled y byd**.

## Gweithgarwch rhyngwladol

### Cawcws Menywod y Senedd – lansiad swyddogol

Lansiwyd Cawcws Menywod y Senedd ar 7 Mehefin 2023 fel fforwm trawsbleidiol i'r Aelodau, sy'n dod â seneddwragedd o bob plaid at ei gilydd i ddarparu cymorth gan gymheiriaid ac i hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau.

Mae'r Cawcws yn cynnwys pob menyw sy'n Aelod o'r Senedd, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AS, a Grŵp Llywio o gynrychiolwyr o bob plaid.

Roedd y digwyddiad lansio yn archwilio rôl seneddau wrth annog cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn cymdeithas, profiadau seneddwragedd, a sut mae dinasyddion benywaidd yn ymgysylltu â gwaith seneddau.

Traddododd y Seneddwr Fiona O'Loughlin, Cadeirydd Cawcws Menywod Iwerddon yn yr Oireachtas, araith allweddol ysbrydoledig a rhannodd brofiadau o Gawcws Seneddol Menywod Iwerddon.

Siaradodd Joyce Watson AS, Cadeirydd y Cawcws a'r Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd, hefyd am eu profiadau fel menywod mewn bywyd cyhoeddus ac Aelodau etholedig o'r Senedd.

I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2024, cymerodd aelodau'r Cawcws ran mewn trafodaethau bord gron gyda myfyrwyr o ysgolion lleol i feithrin cysylltiadau rhwng pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gwaith y Senedd a chynrychiolaeth ddemocrataidd ehangach.

### Digwyddiad 'Elect Her' yn y Senedd

Cynhaliodd y Senedd, mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ac 'Elect Her', ddigwyddiad meddiannu rhyfeddol ar 21 Hydref 2023. Gan ddod â menywod ynghyd i hyrwyddo'r achos dros arweinyddiaeth amrywiol a chyfartal mewn gwleidyddiaeth, roedd y diwrnod yn cynnwys gweithdai, siaradwyr, a pherfformiadau.

### Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Croesawodd y Llywydd y Fonesig Amanda Blanc i'r Senedd i gymryd rhan mewn digwyddiad 'Mewn Sgwrs' i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni. Yn wreiddiol o Gwm Rhondda, Amanda yw Prif Swyddog Gweithredol grŵp cwmni yswiriant Aviva, ac mae'n un o ddim ond naw arweinydd benywaidd o gwmnïau FTSE 100 y DU.

Daeth y digwyddiad â dros 100 o westeion o wahanol gefndiroedd a sectorau yng Nghymru ynghyd, gan gynnwys nifer o fenywod ifanc ar ddechrau eu gyrfaoedd proffesiynol, a rhoddodd gyfle i rwydweithio a meithrin cysylltiadau.

## Ymgysylltiad rhyngwladol a rhwydweithiau Aelodau

Mae ffocws gweithredu Fframwaith Rhyngwladol Comisiwn y Senedd eleni wedi bod ar ymweliadau mewnol a gwella ymgysylltiad yr Aelodau mewn rhwydweithiau rhyngwladol.

Roedd ymweliadau mewnol yn cynnwys Pennaeth Comhairle Dáil Éireann, Llefarydd tŷ isaf Senedd Iwerddon (Oireachtas). Roedd y rhaglen hon yn cynnwys digwyddiad bord gron gyda chynrychiolwyr y Senedd ar Gynulliad Senedd Prydain ac Iwerddon, yn ogystal â dau o bwyllgorau'r Senedd.

O ymhellach i ffwrdd, roedd y Llywydd yn falch iawn o groesawu Llefarydd Cynulliad Cenedlaethol Namibia, yn ogystal â Llefarydd a Chlerc Tŷ'r Cynulliad Tasmania.

### Seminar San Steffan

Croesawodd y Senedd ddirprwyaeth o ryw 30 o Aelodau etholedig a Chlercod o ddeddfwrfeydd ar draws y Gymanwlad am ddiwrnod, fel rhan o ddigwyddiad Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad wythnos o hyd yn y DU. Roedd yn gyfle i arddangos y Senedd a Chymru. Roedd y materion a drafodwyd ar y diwrnod yn cynnwys datblygiad datganoli, gwaith Senedd Ieuenctid Cymru a phroses ddeddfwriaethol y Senedd a'r ffyrdd y mae'r Aelodau'n cael eu cefnogi.

### Ymweliadau diplomyddol

Mae'r Senedd wedi cynnal nifer o ymweliadau diplomyddol proffil uchel, gan gynnwys rhai Llysgennad yr Unol Daleithiau a dirprwyaeth o Lysgenhadon Ewropeaidd dan arweiniad Llysgennad yr UE.

### Cyfarfod cyntaf Cynhadledd Llefarwyr yr Ynysoedd

Daeth y cyfarfod hwn o gynhadledd Llefarwyr yr Ynysoedd siaradwyr a chlercod seneddau a chynulliadau'r ynysoedd cyfagos ynghyd i drafod materion o ddiddordeb a pherthnasedd a rennir.

Roedd Elin Jones AS, y Llywydd a Manon Antoniazzi, y Prif Weithredwr a Chlerc, yn cynrychioli'r Senedd yn y gynhadledd gyntaf hon, a gynhaliwyd gan y Ceann

Comhiarle yn Kildare, Iwerddon ym mis Gorffennaf 2023. Nod y gynhadledd oedd annog trafodaethau a deialog agored ar faterion o bwys a chyd-ddiddordeb gyda chydweithwyr ar draws rhwydweithiau seneddol, a gwella perthnasoedd gwaith.

### Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA)

Mae Aelodau o'r Senedd wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol â BIPA, nid yn unig drwy gymryd rhan yn y Cyfarfod Llawn yn Jersey a Kildare ond hefyd ar nifer o bwyllgorau, er enghraifft gweithio ar ymchwiliadau i ieithoedd brodorol ac effeithiau Brexit ar fasnach rhwng y DU ac Iwerddon. At hynny, bu pwyllgorau'r Senedd yn archwilio sut y gall ymgysylltiad y Senedd â BIPA gyfrannu at greu cysylltiadau agosach ag Iwerddon. Cynhaliodd y Senedd hefyd gyfarfod o Bwyllgor Llywio BIPA.

### Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA)

Yn ogystal â seminar San Steffan, bu cryn weithgarwch gan yr Aelodau yn ymwneud ag aelodaeth y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Etholwyd dau Aelod i gynrychioli'r Senedd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Ghana.

Croesawodd cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y Senedd ddirprwyaeth o Senedd Ffederal Canada i drafod pynciau o bwys (megis rhywedd) o fewn y seneddau dan sylw.

### Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR)

Cynhaliwyd Cynhadledd Ranbarthol 2023 yn Senedd y DU ac roedd dirprwyaeth lawn o Aelodau o'r Senedd yn bresennol. Roedd y gynhadledd yn ymdrin â sawl thema amserol, gan gynnwys pwysigrwydd seneddau amrywiol a chynhwysol, safonau ymddygiad, yn ogystal â'r Argyfwng Hinsawdd.

### Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad (CWP)

Cynrychiolwyd y Senedd gan ddau Aelod yng Nghynhadledd Flynyddol Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad, a gynhaliwyd eleni gan Senedd Malta. Roedd y themâu a drafodwyd yn y gynhadledd yn cynnwys heriau sy'n wynebu seneddwragedd a thlodi mislif.

## Cymru a'r UE

Mae ymgysylltiad y Senedd â strwythurau newydd y DU a'r UE wedi parhau i esblygu. I'w groesawu eleni bu cryfhau rôl Aelodau o'r Senedd yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, sydd wedi galluogi'r Aelodau i gymryd rhan lawnach yng ngwaith y corff.

Mae Aelodau o'r Senedd yn parhau i ymgysylltu â gwaith Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau y DU a'r UE. Mae'r Aelodau wedi cynnig gwaith i gryfhau rôl y grŵp o ran monitro cysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

Mae swyddfa'r Senedd ym Mrwsel yn parhau i gefnogi a hwyluso ymgysylltiad pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd â sefydliadau'r UE. Cynhaliwyd dau ymweliad gan bwyllgor y Senedd â Brwsel yn ystod 2023-24 i wneud gwaith yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y DU a'r UE.

Gwahoddwyd y Senedd hefyd am y tro cyntaf i gymryd rhan yn Rhaglen Ymwelwyr fawreddog yr Undeb Ewropeaidd; rhaglen hyfforddi ar gyfer gweithwyr proffesiynol ifanc sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol.

### Busnes y Senedd yn cymryd ffocws rhyngwladol

Mae craffu ar faterion rhyngwladol ac ymgysylltu â hwy yn parhau i fod yn faes â blaenoriaeth i bwyllgorau'r Senedd. Cyhoeddodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd adroddiad ar Lywodraethu'r DU a'r UE, a oedd yn cynnwys argymhellion ar ymgysylltiad y Senedd â'r UE. Mae gwaith craffu y Pwyllgor ar effaith cytundebau a rhwymedigaethau rhyngwladol ar ddatganoli yn parhau i ddatblygu.

Gorffennodd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ei waith ar gysylltiadau Cymru ac Iwerddon, a wnaeth ymrwymiadau i feithrin perthynas â'r Oireachtas a chymerodd dystiolaeth gan gyd-Gadeiryddion y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (BIPA). Cynhaliwyd dadl gyntaf ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol ym mis Chwefror 2024 a nododd waith craffu'r Pwyllgor ar gysylltiadau rhyngwladol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys llwyddiannau'r Pwyllgor o ran gwella tryloywder y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd wedi monitro'n agos y trefniadau masnach yn dilyn Brexit rhwng Cymru ac ynys Iwerddon, gan gynnwys paratoadau ar gyfer rheolaethau ffiniau newydd y DU, gan ymweld â

Phorthladd Caergybi fel rhan o'i waith. Mae'r Pwyllgor yn parhau i ystyried goblygiadau cytundebau masnach ryngwladol i Gymru.

Mae gwaith monitro Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd o'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a hawliau dinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru wedi parhau. Rhennir y gwaith pwysig hwn â chorff gwarchod annibynnol y DU, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol.

Yn y Cyfarfod Llawn, mae'r Senedd wedi adlewyrchu ac ymateb yn aml i ddigwyddiadau allweddol sydd wedi ffurfio'r byd eleni, megis uwchgynadleddau newid hinsawdd a bioamrywiaeth Cynhadledd y Partïon, y rhyfel yn Wcráin a'r gwrthdaro rhwng Israel a Gaza. Ym mis Tachwedd 2023, daeth y Senedd yn un o'r seneddau cyntaf yn y byd i bleidleisio dros gadoediad ar unwaith. Mae'r Senedd hefyd wedi rhoi neu wrthod caniatâd i nifer o Filiau San Steffan sydd â dimensiwn rhyngwladol.

**Isod:**
1. Cyfarfod agoriadol Cynhadledd Llefarwyr yr Ynysoedd, dan arweiniad Comhairle Ceann, yn Kildare, Iwerddon (Gorffennaf 2023)



## GWEITHGARWCH RHYNGWLADOL








**Uchod:**
2. Ymweliad swyddogol gan Ceann Comhairle (Llefarydd Senedd Iwerddon) (Mawrth 2024)
3. Carolyn Thomas AS a Adam Price AS yn cynrychioli'r Senedd yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Accra, Ghana (Hydref 2023)

4. Lansio Cawcws Merched y Senedd (Mehefin 2023)

**Isod:**
5. Ymweliad gan Lysgennad UDA i'r DU, Jane D. Hartley



## Gwasanaethau dwyieithog

Eleni, mae'r tîm Ieithoedd Swyddogol wedi canolbwyntio ar gynllunio capasiti drwy ddechrau'r broses o adolygu cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a Chydgysylltwyr. Yn dilyn gweithredu argymhellion yr archwiliad mewnol diwethaf, mae adolygu a diweddaru cynlluniau iaith gwasanaethau wedi dod yn rhan o broses sicrwydd Comisiwn y Senedd. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn nodi yn eu datganiad sicrwydd blynyddol eu bod yn adolygu ac yn diweddaru eu cynlluniau yn ôl yr angen, ac yn eu defnyddio wrth gynllunio capasiti. Adlewyrchir lefelau'r sicrwydd a ddarperir yn natganiadau sicrwydd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw argymhellion neu wendidau a nodir yn ystod y broses yn cael eu cofnodi, a chamau gweithredu yn cael eu nodi.

Mae'r arolwg sgiliau iaith Cymraeg hefyd yn rhan annatod o waith cynllunio capasiti meysydd gwasanaeth. Eleni, cynhaliwyd yr arolwg gan y tîm Ieithoedd Swyddogol, a bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi'n fuan. Gofynnir i holl staff Comisiwn y Senedd ddarparu hunanasesiad o'u sgiliau yn seiliedig ar y Matrics Sgiliau ar gyfer Sgiliau Gwrando, Siarad, Darllen ac Ysgrifennu. Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn defnyddio canlyniadau'r arolwg i fwydo i mewn i gynllun iaith y gwasanaeth, sy'n rhoi trosolwg o sgiliau ar draws y gwasanaeth.

Mae'r arolwg sgiliau hefyd wedi darparu cyfle i dreialu newidiadau i'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer y lefelau sgiliau Cymraeg a nodir yn y matrics sgiliau iaith. Mae adborth wedi'i roi ar sawl lefel bod unigolion yn ei chael yn anodd pennu lefel eu sgiliau gan ddefnyddio'r diffiniadau yn y matrics. Felly, mae'r tîm wedi mynd ati i symleiddio'r disgrifiadau ac wedi ychwanegu adran er mwyn helpu siaradwyr newydd a rhugl i adnabod eu lefel gan ddefnyddio teitlau cyrsiau Dysgu Cymraeg, a'r rhai a ddefnyddir ym myd addysg yng Nghymru. Bydd y tîm yn trafod y diffiniadau ymhellach gydag eraill i sicrhau eu bod yn briodol cyn cyflwyno'r newidiadau terfynol.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd y mae pobl sy'n gwneud cais am swyddi lefel cwrteisi yn cael eu hasesu. Roedd teimlad cryf nad oedd asesu ar-lein yn gweithio ar lefel cwrteisi, ac felly penderfynwyd mai dim ond yr ymgeiswyr llwyddiannus fyddai'n cael eu hasesu fel rhan o'u cyfnod prawf. Mae ffyrdd o weithio hefyd wedi newid, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn gweithio'n hyblyg rhwng eu cartrefi a swyddfeydd y Senedd. Er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r newidiadau hyn, mae modiwl cwrteisi newydd wedi'i ddatblygu a chafodd ei dreialu'n ddiweddar. Mae'r modiwl ar gael i unrhyw aelod o staff y Comisiwn, ond bydd yn orfodol i'r rhai a benodir i swydd ar lefel cwrteisi. Bu'r cynllun peilot yn

llwyddiannus, gyda nifer o’r unigolion a gafodd hyfforddiant yn dewis parhau i ddatblygu eu sgiliau drwy ymuno â dosbarth Cymraeg yn y Senedd. Mae’r hyfforddiant hefyd ar gael i Aelodau o’r Senedd a staff cymorth, ond nid yw’n ofynnol iddynt gwblhau’r modiwl fel rhan o’u cyfnod prawf.

Un o themâu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd yw rhannu arbenigedd. Eleni, roedd y tîm Ieithoedd Swyddogol yn falch o chwarae rhan flaenllaw mewn Colocwiwm ar Seneddau Dwyieithog ym mis Gorffennaf 2023 a drefnwyd gan Wasanaethau Dwyieithog a Chyfieithu yr Oireachtas, Rannóg ân Aistriúcháin. Rhoddodd y tîm gyflwyniadau ar ddeddfwriaeth, gwasanaethau Aelodau, recriwtio, hyfforddiant, ymgysylltu â'r cyhoedd, ac ymwybyddiaeth a normaleiddio. Mae'r berthynas rhwng y tîm Ieithoedd Swyddogol a’r tîm Rannóg ân Aistriúcháin yn parhau.

Rydym bob amser yn croesawu adborth ar ein gwaith. Arolygwyd yr Aelodau a'u staff cymorth i gasglu eu barn ar wasanaethau'r Comisiwn. Roedd y gallu i weithio yn eu dewis iaith yn un o'r meysydd a gafodd sylw yn yr arolwg. Unwaith eto, cawsom adborth cadarnhaol iawn, gyda sgôr uchel gan yr Aelodau a staff cymorth. Aeth y tîm ati i fynd i'r afael ag unrhyw bwyntiau a godwyd neu argymhellion a wnaed. Derbyniodd y tîm hefyd nifer o enwebiadau eleni, gydag un o’r Tiwtoriaid Cymraeg wedi’i enwebu ar gyfer gwobr ‘Tlws y Tiwtor’ y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer 2023. Derbyniodd dau o’n Tiwtoriaid Cymraeg enwebiadau ar gyfer gwobr Cynllun Cydnabod Angerdd Comisiwn y Senedd - enillwyd y wobr gan ddau ddysgwr am eu hymroddiad i ddysgu Cymraeg.

▼ **Eisteddfod,** Mehefin 2023




# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn


Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru



## ALLGYMORTH AC YMGYSYLLTU



**Croesawyd dros 150,000 o ymwelwyr i'r Senedd a'r Pierhead yn 2023**



**12,800**

**y nifer a ymunodd â ni ar gyfer 535 o deithiau, naill ai yn yr adeilad neu ar-lein**



**224**

**nifer y digwyddiadau ar ystâd y Senedd**

## YMGYSYLLTU DIGIDOL

**Ym mis Ionawr 2024, gwelwyd twf net o 56.5% yn ein cynulleidfa ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd**

## PLANT A PHOBL IFANC

**23,000**

**Nifer y bobl ifanc y gwnaethom ymgysylltu â nhw'n bersonol, mewn 577 education o sesiynau addysg a digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru**

## Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu

Rydym bellach hanner ffordd drwy ein Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y Chweched Senedd, a'i hamcanion yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Senedd a chynyddu cyfranogiad a chynnwys pobl yn ein gwaith.

### Casglu profiadau byw

Mae'r strategaeth yn rhoi profiadau bywyd pobl wrth ei gwraidd. Y thema gyffredinol yw 'Eich Llais', a'i nod yw sefydlu'r Senedd fel rhywle y gellir clywed lleisiau o bob cefndir.

Mae ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn chwarae rhan allweddol yn hyn drwy helpu pwyllgorau i gasglu tystiolaeth gan grwpiau amrywiol o bobl ledled Cymru. Ymgysylltodd y tîm â 3,140 o unigolion yn 2023, yr oedd 19% ohonynt yn cynrychioli pobl ag anableddau a 19% yn cynrychioli amrywiol agweddau ar hil ac ethnigrwydd.

Mae'r tîm wedi cyflwyno grwpiau cynghori yn ddiweddar, sy'n cynnwys unigolion â phrofiadau bywyd amrywiol yn ymwneud â'r mater penodol sy'n cael ei archwilio gan y pwyllgor. Eleni, ffurfiwyd grwpiau cynghori ar gyfer ymchwiliadau i fynediad plant anabl at ofal plant ac addysg, ac anghydraddoldebau iechyd meddwl.

Mae'r grŵp yn rhoi tystiolaeth a chyngor i bwyllgor drwy gydol ei ymchwiliad, sydd wedi cyflwyno dull newydd o ymgysylltu ac wedi cefnogi pwyllgorau i ddeall yn well yr effaith y mae penderfyniadau'r Llywodraeth yn ei chael ar fywydau pobl.

Mae profiad byw hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan y tîm cyfathrebu i greu cynnwys am waith y Senedd y gall cynulleidfaoedd uniaethu ag ef yn haws. Cyflawnwyd hyn drwy roi mwy o bwyslais ar ddefnyddio astudiaethau achos.

Ym mis Rhagfyr, bu'r tîm yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion a Tenovus Cymru er mwyn helpu i adrodd straeon tair menyw ddewr y mae canser gynaecolegol wedi effeithio arnynt.

Drwy ddewrder y menywod i rannu eu profiadau ac ymdrechion y tîm i osod eu straeon wrth wraidd ein gwaith i godi ymwybyddiaeth o ganfyddiadau'r Pwyllgor, cafodd yr adroddiad sylw ledled Cymru, yn ogystal â diddordeb cenedlaethol gan Sky News a The Mirror.

Mae'r tîm cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn meithrin perthnasoedd cryfach gyda lleisiau amlwg ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol fel TikTok ac Instagram

yng Nghymru er mwyn helpu i ymestyn ein cyrhaeddiad. Drwy gael lleisiau dibynadwy ar y cyfryngau cymdeithasol i siarad am y Senedd, rydym wedi gallu ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

Er enghraifft, arweiniodd gwaith gyda dylanwadwr TikTok dros yr haf i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd fel atyniad i ymwelwyr at dros 42,000 o wylwyr, 1,200 o bobl yn hoffi'r cynnwys a dros 50 o sylwadau, a mynegodd llawer ohonynt syndod a diddordeb y gallent ymweld â'r Senedd. Nododd y Tîm Ymgysylltu ag Ymwelwyr y bu ymwelwyr am y tro cyntaf o ganlyniad i amlygiad TikTok.

Roedd twf net ein cynulleidfa ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i fyny bron 20% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

## Y Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru

Gwnaethom groesawu dros 150,000 o ymwelwyr i'r Senedd a'r Pierhead, a chynhaliwyd 535 o deithiau tywys a sesiynau ar-lein, gyda 12,800 o gyfranogwyr yn bresennol. Gwnaethom hefyd gynnal dros 224 o ddigwyddiadau ar yr ystad.

Dywedodd dros 75% o'r rhai y gwnaethom ymgysylltu â hwy bod lefel eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth wedi cynyddu yn dilyn y gweithgarwch yr oeddent yn bresennol ynddo, ac nid oedd oddeutu 70% ohonynt erioed wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen.

Yr haf diwethaf, defnyddiwyd y Senedd fel llwyfan ar gyfer Carnifal Butetown, a helpodd ni i arddangos y Senedd fel rhan o'r gymuned leol. Ategwyd y carnifal gan arddangosfa a guradwyd mewn cydweithrediad â'r gymuned, yn dathlu hanes y carnifal. Fe'i cefnogwyd gan weithdy gyda *Theatr Byd Bach* a gweithgaredd rhyngweithiol i greu cerflun celf anferth yn y Neuadd.

Arweiniodd y cydweithrediad hwn â'r gymuned leol at fwy na dwbl nifer yr ymwelwyr o Gaerdydd yn ymweld â'r Senedd yr haf diwethaf o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a chynyddodd nifer yr ymwelwyr â'r Pierhead 17% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn bwysicaf oll, roedd 79% o'r rhai a ymwelodd â'r Senedd ym mis Awst 2023 wedi gwneud hynny am y tro cyntaf.

## Ymgysylltu â phobl ifanc

Yn ystod 2023, gwnaethom ymgysylltu â dros 23,000 o bobl ifanc mewn 577 o sesiynau addysg a digwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru. O'r grwpiau hyn roedd tua 28% o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, roedd 19% yn bobl ag

anabledd, roedd 13% o gefndir economaidd-gymdeithasol isel ac roedd 10% yn nodi eu bod yn LHDTC+.

Adroddodd 98% o'r bobl ifanc a gymerodd ran mewn sesiynau addysg neu ddigwyddiadau Senedd Ieuenctid Cymru lefel uwch o ddealltwriaeth o ganlyniad i'w sesiwn.

Rydym yn parhau i adeiladu ar ein hymdrechion i ymgysylltu â chynulleidfaoedd iau drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Instagram yw ein prif sianel ar gyfer cyrraedd pobl ifanc, gyda 76% o Genhedlaeth Z yn ei ddefnyddio'n fyd-eang.

Yn gynnar yn 2024, roedd pobl ifanc 18-24 oed yn cyfrif am dros chwarter (27%) o'r bobl a gyrhaeddwyd drwy ein sianel Instagram. Dyma ein hail gynulleidfa fwyaf poblogaidd ar ôl pobl 25-34 oed (28%).

Ym mis Tachwedd, gwahoddwyd unigolyn dwyieithog sydd ar TikTok (sydd â 100,000 o ddilynwyr a 3.9 miliwn o bobl yn hoffi ei chynnwys) i benwythnos preswyl Senedd Ieuenctid Cymru. Wrth sôn am y digwyddiad ar ei sianeli, cyrhaeddodd bron i 17,000 o bobl, gyda 1,300 yn hoffi'r fideos a 45 o sylwadau. Roedd y sylwadau'n cynnwys pobl ifanc yn dweud nad oeddent wedi bod yn ymwybodol o Senedd Ieuenctid Cymru o'r blaen, a bod eu hathrawon bellach yn eu hannog i sefyll yn yr etholiad eleni.

Dyma ddulliau y byddwn yn parhau i'w harchwilio a'u datblygu yn y flwyddyn i ddod, gydag etholiad Senedd Ieuenctid Cymru yn gyfle i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn ein gwaith.

## Data a mewnwelediad

Yn ein strategaeth rydym yn ymrwymo i gryfhau ein mewnwelediad a gwerthusiad cynulleidfa, er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'n cynulleidfa a'u hanghenion.

Rydym wedi cyflwyno ffyrdd newydd o gasglu adborth gan gynulleidfaoedd i gefnogi ein dealltwriaeth o sut mae ein gweithgareddau yn ein helpu i gyflawni amcanion ein strategaeth.

Mae hyn yn cynnwys arolygon cwsmeriaid ar gyfer ymwelwyr a mynychwyr ein digwyddiadau. Yn 2023, dywedodd 70% o'r ymwelwyr a lenwodd yr arolwg nad oeddent wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. O'r ymwelwyr a lenwodd yr arolwg, dywedodd 73% fod eu dealltwriaeth o'r Senedd wedi cynyddu ar ôl eu hymweliad, a dywedodd 54% eu bod yn fwy tebygol o gymryd rhan yng ngwaith y Senedd yn dilyn eu hymweliad.

Rydym yn datblygu dangosfyrddau sy'n olrhain y mewnwelediad hwn ochr yn ochr â data eraill, megis metrigau cyfryngau cymdeithasol a sylw yn y newyddion, yn erbyn ein hamcanion. Mae hyn yn ein helpu i ddeall pa gynnydd sydd wedi'i wneud a nodi bylchau a meysydd i'w gwella.

Mae hyn, ochr yn ochr â threfniadau monitro gwell ar y cyfryngau cymdeithasol a phleidleisio gan gynulleidfaoedd, yn rhoi darlun llawer gwell inni o anghenion ein cynulleidfa.

Rydym yn defnyddio’r holl ddata a’r mewnwelediad hwn i lywio ein cynlluniau ar gyfer 2024-25, gan roi anghenion y gynulleidfa wrth wraidd ein penderfyniadau, fel y gallwn barhau i gyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt wedi ymgysylltu â ni yn draddodiadol a chodi ymwybyddiaeth o’r Senedd fel senedd gynhwysol, lle mae pob llais yn cael ei glywed a'i werthfawrogi.




# SENEDD IEUENCTID CYMRU

Eleni gwelwyd penllanw ail dymor Senedd Ieuenctid Cymru, gyda dau ymgynghoriad yn cael eu cynnal ar bynciau llosg i lawer o bobl ifanc yng Nghymru: teithio cynaliadwy a hyd y diwrnod ysgol.

Cyfrannodd bron i 3,000 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru at y gwaith hwn, gan lywio canfyddiadau ac argymhellion y ddau adroddiad. Fel rhan o bob ymgynghoriad, bu Senedd Ieuenctid Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i hwyluso trafodaethau gyda phobl ifanc ledled Cymru i ddeall eu profiadau ar y materion hyn ymhellach.




Cafodd y ddau adroddiad hyn, ac adroddiad blaenorol Senedd Ieuenctid Cymru ar iechyd meddwl, eu trafod gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ystod Cyfarfod Llawn terfynol Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Tachwedd 2023. Roedd Comisiynydd Plant Cymru, a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg hefyd yn bresennol, a chawsant y cyfle i fynegi eu barn ar waith Senedd Ieuenctid Cymru.

## Sesiwn ar y cyd

Ar 21 Mehefin 2023, ymunodd Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ag Aelodau o'r Senedd mewn sesiwn ar y cyd yn y Siambr. Darparwyd diweddariadau allweddol ar raglen waith Senedd Ieuenctid Cymru ac atebwyd cwestiynau gan Weinidogion Llywodraeth Cymru..

Dim ond yr ail sesiwn o'i math yw hon ac mae'n arwydd o ymrwymiad parhaus y Senedd i ymgysylltu â phobl ifanc a gwaith Senedd Ieuenctid Cymru.

## Cyfraniadau Busnes y Senedd

Yn ogystal â gwneud gwaith ar faterion a nodwyd gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru eu hunain, maent hefyd wedi bod yn weithgar wrth leisio eu barn ar faterion a drafodwyd gan bwyllgorau'r Senedd. Mae hyn wedi gweld Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau ag Aelodau o'r Senedd ar Fil Diwygio'r Senedd, craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a mynediad pobl anabl at addysg. Cyflwynodd aelodau Pwyllgor Hinsawdd ac Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru hefyd ganfyddiadau eu hadroddiad ar deithio cynaliadwy i Aelodau'r Pwyllgor Deisebau.

## Arddangosfa

Daeth ail dymor Senedd Ieuenctid Cymru i ben yn ffurfiol gyda digwyddiad i lansio arddangosfa yn y Senedd, a oedd yn adrodd hanes Senedd Ieuenctid Cymru hyd yma ac yn amlygu ei gwaith ar faterion o bwys. Roedd yr arddangosfa hefyd yn anelu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc i sefyll fel ymgeiswyr ar gyfer trydydd Etholiad Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Tachwedd 2024.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys areithiau gan y Llywydd, y Prif Weinidog ac Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru o'r tymor cyntaf a'r ail dymor, yn manylu ar yr uchafbwyntiau o'u gwaith ac yn galw ar Aelodau o'r Senedd i barhau i weithio ar roi canfyddiadau eu hadroddiadau ar waith. Roedd y digwyddiad yn dathlu cyfraniadau rhieni, gwarcheidwaid, gweithwyr ieuenctid, athrawon a llawer o rai eraill sydd wedi cefnogi'r bobl ifanc yn ystod eu tymor.

Dyma rai dyfyniadau gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ar ddiwedd eu tymor fel Aelodau:

> *'Diolch am fy helpu i dyfu i fyny ac aeddfedu. Rydych chi fel teulu arall imi ac wedi fy helpu bob cam o'r ffordd. Diolch am yr holl gyfleoedd ac am roi llwyfan imi adael i'm llais gael ei glywed a'm helpu i wneud y newid oedd ei angen.'*

> *'Diolch yn fawr iawn am y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi newid fy mywyd mewn cymaint o ffyrdd ac rydw i mor ddiolchgar fy mod i wedi bod yn ddigon ffodus i gael y profiad.'*




**Uchod:** Arddangosfa Senedd Ieuenctid Cymru yn y Senedd
**Isod:** Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a'r Senedd yn ystod sesiwn ar y cyd yn y Siambr, 23 Mehefin 2023



## Urddas a pharch

Mae’r Senedd wedi ymrwymo i ddarparu diwylliant cynhwysol sy’n rhydd rhag aflonyddu. Rydym yn disgwyl i’r rhai sy'n gweithio gydag Aelodau o’r Senedd, neu sy'n dod i gysylltiad â hwy, y staff y maent yn eu cyflogi neu weithwyr Comisiwn y Senedd gael eu trin ag urddas a pharch.

Cymeradwyodd y Senedd ei pholisi urddas a pharch yn 2018 ac mae’r Comisiwn wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i sicrhau gweithle diogel, heb unrhyw fygythiad ac aflonyddwch. Mae'r Comisiwn hefyd yn rhoi cyngor i’r Aelodau i'w galluogi i ddarparu gweithleoedd diogel i'w cyflogeion.

Ym mis Mehefin 2023, trafododd y Comisiwn adolygiad o'r fframwaith urddas a pharch. Nododd yr adolygiad fod y polisi yn cael ei weithredu’n effeithiol. Fodd bynnag, mae gwaith i’w wneud hefyd i atgyfnerthu’r diwylliant hwn, i symleiddio prosesau, i wella’r cymorth sydd ar gael ac i amlygu’r polisi.

Gwnaeth y Comisiwn nifer o argymhellion, a gydlynir gan swyddogion ar draws y Comisiwn ac, ers mis Mehefin 2023, mae’r gweithgareddau a ganlyn wedi digwydd:

- Mae Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd wedi cael ei ddiweddaru, o ran urddas a pharch, i alinio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer yr Aelodau.
- Mae polisi cwynion y Comisiwn wedi'i ddiweddaru i symleiddio'r broses a darparu gwybodaeth well am y cymorth sydd ar gael, yn ogystal ag opsiynau anffurfiol i ddatrys cwynion.
- Cynigir hyfforddiant urddas a pharch i'r holl Aelodau a'u staff, ac mae'n orfodol i staff y Comisiwn. Mae sesiynau pellach yn cael eu cynnig a'u hyrwyddo.

  Ym mis Mawrth 2024, mynychwyd yr hyfforddiant gan:

  - 95% o staff y Comisiwn;
  - 92% o Aelodau o’r Senedd;
  - Dros 29% o Staff Cymorth yr Aelodau.
- Mae rhagor o swyddogion y Comisiwn wedi cael eu hyfforddi fel swyddogion cyswllt urddas a pharch. Mae gennym bellach 12 o

swyddogion cyswllt hyfforddedig, sy'n adlewyrchu amrywiaeth sy'n ymwneud ag ystod o nodweddion gwarchodedig yn well.

- Mae swyddogion y Comisiwn yn parhau i weithio gyda'r rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle ac undebau llafur cydnabyddedig i sicrhau eu bod yn gallu cyfeirio staff at y cymorth priodol.
- Mae tudalennau rhyngrwyd urddas a pharch y Senedd wedi'u symleiddio a'u gwella'n gyffredinol.
- Mae posteri newydd yn codi ymwybyddiaeth wedi cael eu harddangos ar draws ystad y Senedd.
- Mae'r Comisiwn yn cynnal arolygon urddas a pharch o'r Aelodau, staff cymorth yr Aelodau a staff y Comisiwn. Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf yn hydref 2023. Cafodd y canlyniadau llawn eu rhannu â'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'u cyhoeddi ar-lein.
- Mae'r Comisiwn yn bwrw ymlaen â gwaith i ymgysylltu â defnyddwyr adeiladau trydydd parti i geisio sicrwydd a barn ar eu profiad o weithio ar yr ystad.

Mae'r **Pwyllgor Safonau Ymddygiad** wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i urddas a pharch i adolygu'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn ymgynghori ar y prosesau sydd ar waith i fynegi pryderon ynghylch Aelodau o'r Senedd neu eu staff sy'n gweithio ar ystad y Senedd. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i lansio ymchwiliad cynhwysfawr i sicrhau bod y Senedd yn weithle cynhwysol, sy'n rhydd rhag aflonyddwch a bygythiad. Bydd yn edrych ar bob agwedd ar ein polisïau a'n gweithdrefnau fel eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben a bydd yn gweithio gyda'r Comisiynydd Safonau, pleidiau gwleidyddol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu opsiynau ar gyfer cryfhau atebolrwydd yr Aelodau unigol. Mae hyn yn cynnwys ystod o faterion, gan gynnwys adalw Aelodau, trefniadau anghymhwyso a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad pan gaiff cwyn yn erbyn Aelod ei chynnal.

▼ **Blodau gwyllt ar ystâd y Senedd**



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.



## Cynllunio corfforaethol

Drwy gydol 2023-24 mae prosesau a systemau cynllunio corfforaethol y Comisiwn wedi'u datblygu ymhellach i sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio'n gynaliadwy a bod y Comisiwn yn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus.

Un datblygiad allweddol fu cymeradwyaeth y Comisiwn i Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, a nodwyd yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol fel nod ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys:

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd yn seiliedig ar ragdybiaeth ddarbodus o anghenion ariannu'r dyfodol sy'n gweld costau busnes fel arfer yn cael eu cynnwys wrth roi adnoddau i flaenoriaethau'r Senedd, a
- Cynllun Gweithlu, sy'n cydnabod y gyfran o gyllideb y Comisiwn a ddyrennir i'n sefydliad staffio.

Diben y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig yw:

- nodi sail glir, tryloyw a rhesymol ar gyfer seilio twf ceisiadau am adnoddau dros y tymor canolig; a
- galluogi'r Comisiwn i gynllunio a rheoli unrhyw fwlch canlyniadol rhwng yr adnoddau sydd ei angen a'r adnoddau sydd ar gael mewn modd cynlluniedig.

O ganlyniad i gymeradwyo'r Fframwaith, roedd cais cyllideb 2024-25 y Comisiwn wedi cyfyngu twf ei gyllideb weithredol graidd (h.y. heb gynnwys cyflogau'r Aelodau, paratoadau ar gyfer Diwygio'r Senedd na chyllid rhaglen Ffyrdd o Weithio) i 2.5%.

Mae datblygiadau eraill o bwys yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- cymeradwyo Cynllun Cyflawni Corfforaethol ar ei newydd wedd ar gyfer 2023-24, sy'n trosi Strategaeth y Comisiwn yn gamau gweithredu diffiniedig sydd â therfyn amser i wella sicrwydd y bydd gweithgarwch allweddol yn cael ei gyflawni;
- cymeradwyo Strategaeth Portffolio Prosiect, a lywiodd y broses o flaenoriaethu portffolio prosiectau newid y Comisiwn mewn modd tryloyw a thraws-sefydliad;

- ymgorfffori'r Grŵp Rheoli Portffolio. Mae’r Grŵp yn argymell i'r Bwrdd Gweithredol y portffolio prosiectau yn seiliedig ar y cyfeiriad o'r Strategaeth Bortffolio ac yn ei reoli yn ystod y flwyddyn ar ran y Bwrdd i sicrhau'r gwerth gorau am arian; a
- phroses cynllunio gwasanaeth newydd sy'n rhoi mwy o gyfle i nodi rhyng-ddibyniaethau ac ymateb iddynt ar draws cynlluniau gwasanaeth. Mae’r broses hefyd yn gosod her gadarn i geisiadau twf adnoddau craidd, yn unol â diben y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig.

## Ffyrdd o weithio

Yn 2023-24, symudodd rhaglen Ffyrdd o Weithio y Comisiwn o'i gyfnod Cynllun Gweithredu Interim cychwynnol i gyfres o brosiectau cyflawni.

Mae’r rhaglen wedi’i strwythuro o amgylch tair ffrwd waith o hyd:

- **Bae Caerdydd:** darparu ystad o ansawdd uchel, hyblyg a chynhwysol ym Mae Caerdydd sy’n rhoi gwerth am arian cyhoeddus ac a fydd yn diwallu anghenion y Senedd, ei Haelodau a Chomisiwn y Senedd yn yr hirdymor. Mae'r ffrwd waith hon yn cynnwys prosiect Bae Caerdydd 2032 y Comisiwn, prosiect Siambr 2026 a phrosiect Tŷ Hywel 2026, a drafodir ymhellach isod.

- **Gweithio Rhanbarthol:** o dan y ffrwd waith hon, cyflawnodd y Comisiwn ei brosiect Sarn Mynach 2023, gan adleoli ei swyddfa yng ngogledd Cymru yn llwyddiannus o leoliad blaenorol Bae Colwyn i swyddfeydd canolog Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Bydd y gofod swyddfa hwn yn sicrhau sylfaen ranbarthol effeithiol ar gyfer gwasanaethau allgymorth, gwybodaeth gyhoeddus, addysg a chyfieithu yng ngogledd Cymru ar sail gwerth am arian cryfach. Mae’r opsiwn o archwilio cyfleoedd posibl pellach ar gyfer datblygu ôl troed rhanbarthol Comisiwn y Senedd dros amser yn bodoli o dan y ffrwd waith hon, yn seiliedig ar unrhyw angen Aelod sy’n dod i’r amlwg.

- **Fframwaith Ffyrdd o Weithio:** gosod gweledigaeth ac yn dylunio fframwaith ar gyfer sut a ble rydym yn gweithio yn y dyfodol. Bydd y Strategaeth yn datblygu offer cynllunio corfforaethol newydd ac yn gwella’r offer sy’n bodoli eisoes i sicrhau bod adnoddau’n parhau i gael eu defnyddio’n gynaliadwy ac yn ddoeth mewn cyfnod o bwysau ariannol sylweddol ar draws y sector cyhoeddus ac ar gyfer dinasyddion Cymru.

### Bae Caerdydd 2032

Daw prydles bresennol Tŷ Hywel i ben yn 2032, fodd bynnag, bydd angen i'r Comisiwn benderfynu pa gamau i'w cymryd ymhell cyn y dyddiad hwnnw. Mae’r terfyniad prydles presennol yn rhoi cyfle i’r Comisiwn ystyried yr hyn sydd ei angen o’i swyddfeydd yn yr hirdymor, a sicrhau penderfyniad sy’n rhoi’r gwerth gorau am arian cyhoeddus.

O ganlyniad i hyn, mae’r Comisiwn yn ystyried ei lety ar ôl 2032, gan weithio’n agos gyda chynghorwyr eiddo a chynghorwyr cyfreithiol proffesiynol, gan gynnwys cynnal ymarfer ymgysylltu â’r farchnad i ddechrau deall pa opsiynau dichonadwy sydd ar gael y tu hwnt i 2032. Nid yw terfynu prydles bresennol Tŷ Hywel yn effeithio ar naill ai’r Senedd na’r Pierhead – mae’r prosiect hwn yn ymwneud â Thŷ Hywel yn unig.

Mae'r prosiect yn ei gamau cynnar iawn. Fodd bynnag, mae carreg filltir allweddol wedi'i chyflawni yn 2023-24 gyda chymeradwyaeth Achos Amlinellol Strategol. Mae'r ddogfen yn rhoi cyfiawnhad a rhesymeg dros y prosiect, yn ogystal â chytuno ar weledigaeth ac amcanion cyffredinol. Mae'r ddogfen hefyd yn dechrau archwilio pa opsiynau ac atebion a allai fod yn ddichonadwy. Mae cymeradwyaeth yr Achos Amlinellol Strategol yn caniatáu i’r prosiect symud ymlaen i’w gam nesaf, sef yr achos busnes amlinellol a’r ymgysylltiad cychwynnol â’r farchnad.

Mae llwyddiannau nodedig eraill yn cynnwys sefydlu prosiectau Siambr 2026, Tŷ Hywel 2026 a Bae Caerdydd 2032 yn ffurfiol, gyda llywodraethu cadarn a byrddau prosiect ar waith. Bydd y prosiectau hyn yn cyflawni ein gofynion gofod a chyfleusterau craidd wrth i Fil Diwygio’r Senedd gael ei basio, ac anghenion llety tymor hwy ar ôl 2032 pan ddaw prydles bresennol Tŷ Hywel i ben. Mae'r prosiectau hyn yn cynrychioli'r gyfres fwyaf cymhleth a mwyaf o ran maint o brosiectau y mae'r Comisiwn wedi ymgymryd â hwy erioed, sy'n cael eu cyflawni ar yr un pryd â busnes fel arfer a gweithgarwch cynnal a chadw cylch bywyd.

Wrth symud ymlaen, bydd Ffyrdd o Weithio yn parhau â’i ddull strategol o ganolbwyntio ar y penderfyniadau tymor canolig i hirdymor a fydd yn cefnogi anghenion a gofynion y Senedd a’r Comisiwn o ran adnoddau a seilwaith dros y blynyddoedd i ddod.


WE'RE IN THIS
TOGET

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'r Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2023-2024, a gyhoeddwyd ar wefan y Senedd, yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwaith y mae Comisiwn y Senedd wedi'i wneud i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant fel senedd ac fel cyflogwr. Ategir hyn gan adroddiad cysylltiedig ar gyfer data amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, archwiliad cyflog cyfartal, a data am y bwlch cyflog o ran ethnigrwydd, rhywedd ac anabledd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi:

- Sefydlu ein Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant i ddarparu trosolwg strategol o'n blaenoriaethau a helpu i gadw ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y trywydd iawn.
- Cael ein cydnabod fel un o'r Deg Cyflogwyr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio, fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, a'n caffi ni oedd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i gyrraedd safon y Caffi Teuluol.
- Cyflwyno cyfres o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant. Drwy gydol ein Mis Cynhwysiant blynyddol, buom yn gweithio gyda'n cydweithwyr o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, a'r Oireachtas i gynnig cyfres rithwir o gyflwyniadau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu i ddathlu cynhwysiant, Roedd y rhain yn cynnwys darllen yn amrywiol er mwyn ehangu safbwyntiau; recriwtio cynhwysol i sicrhau cyfleoedd cyfartal; Fighting with Pride i hyrwyddo hawliau LHDTC+; a sesiwn gan Race Equality First ar arferion gorau ar gyfer meithrin diwylliant cynhwysol yn y gweithle.
- Darparu hyfforddiant gorfodol ar barch a chynhwysiant i holl staff Comisiwn y Senedd i'w helpu i nodi, herio a rhoi gwybod am unrhyw ymddygiad amhriodol. Mae hyfforddiant tebyg wedi'i gynllunio a'i gynnig i'r Aelodau a'u staff.
- Sefydlu ein rhwydwaith gweithle ENGAGE i gysylltu ein staff yn well. Fel rhan o'n hymrwymiad i wella ymgysylltiad ac ymdeimlad o berthyn i'r holl staff, mae ein rhwydwaith ymgysylltu â staff sydd newydd ei adnewyddu a'i ail-lansio yn caniatáu i'n holl staff fod yn rhan o'r gwaith o lunio eu profiad gwaith, ac i rannu a dathlu syniadau i ysgogi newid cadarnhaol.

- Cyflwyno Hyrwyddwr Symudedd Cymdeithasol. Eleni, fel rhan o'n hymrwymiad i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau mewn perthynas â symudedd cymdeithasol a chefndir economaidd-gymdeithasol, rydym wedi cyflwyno Uwch-hyrwyddwr Symudedd Cymdeithasol.

- Parhau i ddarparu cymorth cymheiriaid a chyngor ar gynhwysiant drwy ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle. Mae'r rhwydweithiau yn helpu'r Comisiwn i sicrhau diwylliant gwaith cynhwysol sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth y rhai sy'n gweithio ar yr ystad a lle mae pobl yn teimlo'n gyfforddus, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

- Croesawu ein hail garfan o interniaid YMLAEN. Mae ein rhaglen YMLAEN wedi bod yn gydweithrediad arall gyda Chymrodoriaeth Windsor, sydd wedi ein galluogi i estyn allan, hysbysebu ac ymgysylltu'n effeithiol ag amrywiaeth eang o ymgeiswyr talentog ledled Cymru. Unwaith eto, roedd yr ymateb yn rhyfeddol, gyda chronfa o ymgeiswyr rhagorol yn gwneud cais am swyddi. Mae'r cynllun yn darparu cyfleoedd interniaeth â thâl i bedwar unigolyn i weithio mewn timau ar draws Comisiwn y Senedd.

- Datblygu pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer y perimenopos/menopos i gynnig arweiniad ymarferol i'r rhai sy'n gweithio neu sy'n byw gyda phobl sy'n profi symptomau mislif, cyflyrau iechyd mislif a'r perimenopos/menopos. Mae'r pecyn cymorth yn cydnabod y gall mabwysiadu ychydig o newidiadau syml i'r amgylchedd gwaith wneud byd o wahaniaeth i'r rhai sy'n profi'r perimenopos/menopos, ac i'r rhai sy'n cefnogi cydweithwyr sy'n profi'r perimenopos/menopos.

- Adolygu ein cynnydd drwy arolygon staff, gan gynnwys ein harolygon Iechyd a Llesiant bob chwe mis.

- Adrodd ar amrywiaeth tystion pwyllgorau ac ymgysylltu â grwpiau amrywiol ledled Cymru fel rhan o ymchwiliadau'r pwyllgorau.

- Dod ag ail Senedd Ieuenctid Cymru i ben, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o Gymru ac o ystod amrywiol o sefydliadau cynhwysol. Gwnaeth Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru ymrwymiad ar ddechrau eu tymor i sicrhau bod pobl ifanc o gefndiroedd amrywiol yn cyfrannu'n helaeth at weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu sy'n gysylltiedig â gwaith y Senedd Ieuenctid.

- Cynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymru, gan gynnwys arddangosfeydd yn dathlu carnifal Butetown, y rhai sy'n rhoi gofal, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, a digwyddiadau i nodi Dydd Gŵyl Dewi, Pride Cymru, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Mis Hanes Pobl Dduon.
- Sicrhau recriwtio cynhwysol. Mae'r Tîm Recriwtio wedi parhau i fonitro prosesau recriwtio ac wedi gwella dyluniad asesiadau, creu strategaethau hysbysebu pwrpasol ar gyfer ymgyrchoedd, gwella amrywiaeth paneli, disgrifiadau swyddi a dyluniad pecynnau ymgeiswyr, a'r cyfan er mwyn denu'r ystod ehangaf o dalent.
- Cefnogi iechyd a llesiant ein staff drwy weithrediad parhaus ein Strategaeth Llesiant, drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth, diweddaru ein polisi Offer Sgrin Arddangos, caffael darparwr Rhaglen Cynorthwywyr Gweithwyr a gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol newydd, llunio cylchlythyr llesiant rheolaidd a datblygu Cynlluniau Gweithredu Llesiant ar gyfer gwahanol feysydd gwasanaeth ar draws Comisiwn y Senedd.

## DYFARNIADAU AC ACHREDIADAU



# Cynaliadwyedd

Yn adroddiad y llynedd buom yn sôn am y cynnydd yn y defnydd o’r ystad yn dilyn y pandemig, a dod i arfer â ffyrdd newydd o weithio. Mae’r rhain wedi’u sefydlu’n dda erbyn hyn, yn ogystal â’r mesurau arbed ynni yr ydym wedi bod yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod patrymau gwaith newydd yn cael eu mabwysiadu mor effeithlon â phosibl.

Gwelwn yn y tablau data ar ddiwedd yr adran hon fod metrigau cynaliadwyedd wedi bod yn gymharol sefydlog ers dwy flynedd, gan atgyfnerthu pa mor sefydledig y mae patrymau gwaith ar ôl y pandemig a’r defnydd o’r ystad erbyn hyn. Rydym wedi bod yn manteisio ar y cysondeb hwn i sicrhau bod y defnydd o gyfleustodau yn parhau i adlewyrchu lefelau deiliadaeth yn well.

Gydag adnoddau ychydig yn fwy cyfyngedig eleni, bydd rhywfaint o'r gwaith cyfalaf sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cyfnod canol tymor ein Strategaeth Carbon Niwtral nawr yn aros am argaeledd cyllid. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar newid ymddygiad ac arbedion effeithlonrwydd wrth inni barhau i leihau defnydd.

Rydym yn parhau i gynllunio ymlaen llaw, gan gynnwys cefnogi gwaith gyda'r Rhwydwaith Gwres Ardal sy'n cael ei adeiladu o amgylch Caerdydd, a fydd yn y pen draw yn cyflenwi gwres carbon isel i'n dau adeilad mwyaf. Rydym hefyd wedi bod yn gwneud teithio carbon isel mor hawdd â phosibl i’n Haelodau a’n staff.

Mae cyhoeddi data sy'n cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd ar garbon am y tro cyntaf y llynedd wedi golygu ehangu ein hôl troed carbon, ac wedi rhoi maes ffocws newydd inni weithio arno gyda chyflenwyr. Byddwn yn parhau i adrodd ar ein hôl troed carbon craidd yn yr adroddiad hwn er cysondeb, ynghyd ag amrywiaeth o fetrigau cynaliadwyedd eraill, sydd i gyd wedi'u cynnwys yn y tablau data a ganlyn.

Mae ein gwaith yn parhau o dan faner system reoli wedi'i hardystio'n amgylcheddol sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001. Roeddem yn falch o basio ein hymweliad adnewyddu tystysgrif gan ein corff archwilio eto eleni, gan ein galluogi i barhau i arddangos y logo 14001.

Mae’r crynodeb a ganlyn yn dangos uchafbwyntiau a data ystadegol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth yn y prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd, sydd ar gael ar wahân ar ein gwefan.

## Carbon

Mae ein hôl troed carbon wedi bod yn weddol gyson dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan adlewyrchu cysondeb patrymau gwaith, ond mae wedi gostwng ychydig mewn ymateb i'n hymdrechion i leihau'r defnydd o ynni. Mae allyriadau Cwmpas 1 yn dangos gostyngiad amlwg mewn ymateb i fesurau arbed nwy, tra bod allyriadau Cwmpas 2 yn dangos cynnydd bach, er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o drydan, oherwydd y cynnydd yn ffactor trosi carbon Llywodraeth y DU ar gyfer trydan. (D.S. mae'r holl drydan a brynir gennym yn dod o dariff cwbl adnewyddadwy, ond rydym yn parhau i ddefnyddio ffactor trosi grid y DU ar gyfer adrodd.) Mae allyriadau Cwmpas 3 ychydig yn is na'r llynedd, ond gydag oedi wrth adrodd ar hawliadau rydym yn disgwyl y gallent godi ychydig wrth i fwy o ddata teithio gael eu cwblhau cyn yr adroddiad nesaf.

Roedd ein gwaith y llynedd i gyfrifo ein hallyriadau Cwmpas 3 ehangach - effaith nwyddau a gwasanaethau a brynwyd - yn golygu ein bod yn gallu adrodd ar ffigurau a aliniwyd â Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn ein prif Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd. Gyda data deiliadaeth helaeth, etifeddiaeth yn rhannol o'r pandemig, rydym wedi gallu cyfrifo ffigur carbon ar gyfer *gweithio gartref* fel rhan o hyn. Mae ein harolwg teithio bob dwy flynedd yn ein galluogi i gynhyrchu ôl troed ar gyfer *cymudo gweithwyr*, cydran arall, a ffactorau trosi ar gyfer gwariant ar *nwyddau a gwasanaethau* sy'n caniatáu i ffigurau carbon pellach gael eu cynhyrchu. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gyfrifo'n eang yn y lefel hon o fanylder eto, ond mae'n ein paratoi'n dda ar gyfer dod yn sefydliad sero net. Mae gweld y data hyn yn rhoi'r man cychwyn inni ar gyfer mynd i'r afael â'r allyriadau hyn, gyda'n hymdrechion nesaf i ganolbwyntio ar weithio gyda chyflenwyr i wneud yr ôl troed yn fwy cywir cyn ceisio ei leihau.

## Ynni

Y llynedd, gwnaethom adrodd ar ostyngiad sylweddol yn y defnydd o nwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar fewnforion tramor a'n paratoi ar gyfer effaith prisiau uwch. Mae'r prisiau hynny bellach wedi'u gwireddu, wedi'u gohirio oherwydd y newidiadau yn y farchnad ehangach oherwydd y contractau hirdymor y caiff ein hynni ei brynu oddi tanynt. Fodd bynnag, mae hyn wedi golygu, er gwaethaf ymdrechion i leihau defnydd ar draws ein cyfleustodau, bod costau ynni wedi mwy na dyblu eleni. Nid yw hyn, yn anffodus, yn syndod, o ystyried inni weld y gost uned ar gyfer trydan yn mwy na dyblu, a hyd yn oed treblu, ar gyfer nwy.

Yn unol â chais y Comisiwn, rydym wedi parhau i weithredu mesurau arbed ynni ac addasiadau i'r galw am wres yn yr adeiladau, a darpariaeth aerdymheru yn yr

haf. Er bod yr haf yn fwynach ac felly roedd y galw am y system aerdymheru yn llai, roedd gostyngiad o 5% yn y defnydd o drydan. Yn yr un modd, gostyngodd ein mesurau arbed gwres y defnydd o nwy 7%. O fewn cyd-destun gostyngiad yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus, mae ein mesurau arbed wedi ein helpu i wireddu arbedion o £50,000.

Mae'r mesurau yr ydym wedi'u gweithredu yn y blynyddoedd diwethaf wedi cynnwys gostwng pwyntiau gosod, a diffodd y gwres i ardaloedd o'r adeilad lle mae llai o bobl ynddynt; annog staff i weithio mewn meysydd gweithio hyblyg sydd â gwres. Mae hyn wedi helpu i leihau defnydd, allyriadau a biliau, a sicrhau bod yr adeiladau'n ymateb yn well i newidiadau yn y ddeiliadaeth. Roeddem yn cydnabod ar y pryd bod y newidiadau wedi cael effaith ar ein staff pan oeddent yn yr adeilad. Buom yn gweithio'n gyflym i gyhoeddi cyfathrebiadau a lliniaru unrhyw faterion, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

### Dŵr, gwastraff ac adnoddau eraill

Mae ffigurau cynhyrchu gwastraff bron yn union yr un fath â'r llynedd. Mae rhai costau wedi gostwng ychydig mewn gwirionedd, gan leihau ein gwariant cyffredinol. Rydym yn parhau i ddargyfeirio'r holl wastraff o safleoedd tirlenwi; naill ai'n ei ailgylchu'n uniongyrchol neu'n ei anfon i'r safle ynni-o-wastraff gerllaw. Un cam gweithredu inni yn y flwyddyn i ddod fydd cydymffurfio â deddfwriaeth newydd o ran ailgylchu yn y gweithle. Ers blynyddoedd lawer rydym wedi bod yn ailgylchu'r holl ffrydiau gwastraff sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith newydd, sy'n golygu y bydd rhai newidiadau bach i'r ffordd y caiff y gwastraff hwnnw ei wahanu ar y safle yn ddigon.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi gostwng ychydig eleni - arbediad cost bychan dros y flwyddyn ddiwethaf, gan arwain at ostyngiad o 15% yn y defnydd. Mae hyn yn dilyn cynnydd y llynedd wrth i'r ystad ddod yn fwy llawn. Unwaith eto, mae'r defnydd o ddŵr yn tueddu i amrywio yn unol â nifer y staff a phresenoldeb ymwelwyr, a'r cyhoedd yn ymweld â'n hadeiladau. Mae unrhyw osodiadau a ffitiadau y mae angen eu hadnewyddu bellach yn cael eu disodli gydag opsiynau lleihau dŵr yn flaenoriaeth.

Rydym yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu a'n cyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydgysylltir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â datblygu manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr, gan sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo'n berthnasol. Rydym hefyd wedi bod yn parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon

nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy cywir.

## Teithio

Mae'r gostyngiad mawr mewn ffigurau teithio yn ystod y pandemig wirioneddol y tu ôl inni. Eleni gwelwyd lefelau tebyg i'r llynedd; yn dal i fod yn tua dwy ran o dair o’r lefelau cyn y pandemig.

Mae cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi rhithwir a hybrid bellach yn gyffredin. Mae gan ein hystad gyfleusterau hybrid helaeth ac mae’r Aelodau'n parhau i ymuno â chyfarfodydd pwyllgor a’r sesiynau Cyfarfod Llawn o’u hetholaethau pan fo’n fwy priodol gwneud hynny. Mae'r hyblygrwydd hwn i’r Aelodau yn helpu i leihau effeithiau teithio.

Mae'r cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbydau trydan a lansiwyd gennym ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf bellach wedi'i gwblhau'n llawn. O ystyried bod amodau'r farchnad wedi codi prisiau ers inni ddechrau gweithredu, nid yw'r cynllun eto wedi gweld y nifer o gyfranogwyr a ragwelwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, rydym yn fodlon ei fod yn un opsiwn ymhlith llawer yr ydym yn ei gynnig ar gyfer teithio iachach a charbon is.

Un opsiwn ar gyfer teithio busnes yw car y Senedd sydd at ddefnydd pawb. Ychydig flynyddoedd yn ôl gwnaethom newid hwn i gerbyd a oedd yn rhedeg ar drydan yn bennaf ond gyda generadur petrol wrth gefn. Eleni, o ystyried gwelliannau i dechnoleg sy’n ein galluogi i deithio un hyd o Gymru heb wefru, rydym wedi newid hwn i gar cwbl drydan.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol ac wedi cyflawni nod siarter y Cyflogwr Teithio Iach. Mae hyn yn adlewyrchu ein cyfleusterau helaeth ar gyfer y rhai sy'n cerdded ac yn beicio i'r gwaith, yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan a hyd yn oed defnyddwyr e-feiciau. Mae bod yn rhan o’r grŵp hwn hefyd yn helpu i gynnal momentwm wrth inni rannu arfer gorau yn y maes hwn gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

## Bioamrywiaeth

Gyda'n hystad fach drefol, rydym wedi ein cyfyngu gan yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bynnag y bo modd. Rydym yn parhau i gynnal llain gardd newydd fwy ym maes parcio Tŷ Hywel, gan gynnwys dau bwll bach a choed sy’n blodeuo.

Rydym yn cynnal y tir wrth ymyl adeilad y Senedd; mae lleihau toriadau o'r ardal laswelltir hon i ymyriadau blynyddol wedi caniatáu iddi gynhyrchu ystod eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau. O ganlyniad i hyn, mae'r stribed blodau gwyllt hefyd bellach yn denu amrywiaeth o bryfed, gan gynnwys pryfed mursen a gloÿnnod byw.

Mae ein hardal Gwesty Trychfilod yn parhau i fod yn llwyddiant. Roedd tua 75% o feddiannaeth yn y gwestai sy'n wynebu'r de yr haf diwethaf, gyda chymysgedd o wenyn a phryfed cop yn bresennol. Mae gweddillion coeden Nadolig y Senedd yn parhau i gael eu hychwanegu o flaen y gwestai mwy ffurfiol bob mis Ionawr, gan ganiatáu ar gyfer amrywiaeth pellach ac ail ddefnydd i'r goeden.

Mae prosiect Gwenyn y Pierhead yn parhau i redeg yn dda, ac mae wedi bod yn gatalydd ar gyfer rhai o'r mesurau bioamrywiaeth ar ystad ehangach Bae Caerdydd. Rydym wedi mynd ati i blannu planhigion sy'n gyfeillgar i beillwyr yn ein gardd, ac mae'r prosiect wedi helpu i ysbrydoli rhai o'r grwpiau ysgol sydd wedi ymweld â'r wenynfa ac wedi mynd â pheth brwdfrydedd yn ôl i'w gerddi eu hunain.

Fel Comisiwn, ychydig o effaith a gawn ar fioamrywiaeth y tu hwnt i'n hystad, ond lle gallwn wneud dewisiadau cadarnhaol, megis prynu pren a ardystir gan y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd, mae hyn bob amser yn cael ei flaenoriaethu fel rhan o'n hofferyn asesu'r effaith ar gynaliadwyedd.

## Effeithiau eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys pob rhan o fywydau pobl yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig, yn bennaf i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru. Nid yw'r safleoedd hyn yn cael eu hystyried mewn perygl uniongyrchol oherwydd effeithiau newid hinsawdd, gyda'r Bae, er enghraifft, yn cael ei warchod i ryw raddau gan Forglawdd Bae Caerdydd. Fodd bynnag, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn cynnwys mesurau megis systemau solar ffotofoltäig sy'n darparu amddiffyniad pellach rhag dyfodol ansicr.

Ar nodyn cynaliadwyedd ehangach, cyflawnodd Caffi'r Senedd y Safon Caffi Teuluol eleni, a ddyfarnwyd gan Kids in Museums. Mae'r wobr hon yn cydnabod nodweddion y lleoliad sy'n gyfeillgar i deuluoedd, ond sydd hefyd yn ecogyfeillgar. Cynhaliwyd y broses i ennill y wobr mewn partneriaeth â'n contractwr arlwyo, sydd eu hunain yn awyddus i leihau ein heffaith ar gynaliadwyedd. Lle bo modd, mae'r holl fwydydd, ar gyfer y caffi a'r gwasanaeth arlwyo ehangach, yn cael eu

caffael o Gymru. Er nad ydym yn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau gwledig o'n hystad, mae hwn yn un maes lle gallwn gael effaith gadarnhaol fach ar y sector hwn. I'r perwyl hwn, enillodd y gwasanaeth arlwyo wobr efydd 'Food for Life' Cymdeithas y Pridd eleni hefyd; gan ddangos ei ymrwymiad i ddarparu bwydydd ffres ac iach o ffynonellau cynaliadwy.

| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr [6], [7], [8]** | | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO^2e$) | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 1 | 236 | 234 | 252 | 211 | 183 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 2 | 643 | 438 | 465 | 431 | 435 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 3 | 272 | 96 | 156 | 217 | 199 |
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 6 | 4.8 | 4.3 | 4.1 | 5.6 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros | 1156 | 752 | 858 | 836 | 820 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 1150 | 748 | 849 | 837 | 815 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant gros yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |

[6] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon-i'r-tanc lle bo hynny'n berthnasol.
[7] Mae'r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon-i'r-tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.
[8] Eithriwyd teithio Aelodau o'r Senedd a'r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2022 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

| **Y Defnydd o Ynni** [6] | | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 2,596,810 | 1,944,436 | 2,179,254 | 2,209,985 | 2,109,437 |
| | Nwy | 1,289,334 | 1,282,969 | 1,352,857 | 1,083,181 | 1,020,916 |
| | Biomas (adnewyddadwy | 404,690 | 285,215 | 275,885 | 391,500 | 522,000 |
| | Galw am wres cyfun | 1,694,024 | 1,568,184 | 1,628,742 | 1,200,812 | 1,548,040 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tCO2e) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 962 | 734 | 800 | 701 | 686 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 521,093 | 406,650 | 424,857 | 437,974 | 1,195,034 |

| **Y defnydd o ddŵr** | | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3) | Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol) | 6,281 | 1,642 | 2,326 | 4,408 | 3,684 |
| | Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol) | 515 | 141 | 231 | 469 | 761 |
| | Tynnu dŵr (anuniongyrchol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar gyflenwad a charthffosiaeth | 18,065 | 10,499 | 11,387 | 16,832 | 15,705 |

| **Gwastraff** | | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | 103 | 59 | 50 | 63 | 63 |
| | Wedi'i ailgylchu/ adfer | 104 | 59 | 49 | 63 | 62 |
| | Adfer ynni | 43 | 41 | 23 | 27 | 21 |
| | Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 17.5 | 2.4 | 1.9 | 6.1 | 7.3 |
| | Gwastraff peryglus | 0.2 | 0.02 | 0.14 | 0.37 | 0.18 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i filiwn o dudalennau A4) | 2.33 | 0.86 | 0.65 | 1.97 | 2.05 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar waredu gwastraff | 27,025 | 5,445 | 15,206 | 25,199 | 19,961 |

| **Teithio swyddogol** [7, 8] | | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd) | Teithio ar gyfer busnes | 754,431 | 70,112 | 184,005[4] | 503,784 | 457,825 |
| | Cerbydau y mae'r Senedd yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | 13,003 | 913 | 4,153 | 5,138 | 5,869 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | 300,920 | 31,999 | 88,140 | 202,878 | 188,922 |

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2023 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid ($CO_2e$). Mae $CO_2e$ yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i'r ystad weinyddol graidd yn unig.

Mae crynodeb llawn o'n perfformiad amgylcheddol ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

▼ **Arddangosfa Cynhadledd yr Adar**, 2023



# Atebolrwydd



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr i'w chael ar dudalennau 14-15.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i'w chael ar dudalennau 16-17.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i'w chael ar dudalennau 18-19.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

### Digwyddiadau yn ymwneud â data personol

Roedd pedwar achos o golli data personol lle roedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Nid oedd y Swyddfa yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gymryd unrhyw gamau o ganlyniad i'r achosion hyn. Roedd pum achos arall o dorri rheolau data personol wedi'u hadrodd yn fewnol, a gafodd eu hymchwilio a'u rheoli'n fewnol. Barnwyd fod y tebygolrwydd o niwed neu ofid i destun y data ym mhob achos yn isel, felly nid oedd angen cymryd camau pellach.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn yn ymwneud ag amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalennau 135-151).

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio i'w chael ar dudalen 153. Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £71,627 (2022-23, £67,295). Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2023-24 (2022-23, dim).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir rhwng tudalennau 169 a 175 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a gyhoeddwyd o dan Adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.wales** a **www.senedd.cymru**.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, drwy rinwedd Adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth.  Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- Cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol; a hefyd
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i bod wedi cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a chysondeb cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnod priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi ar ba sail y sefydlwyd Comisiwn, sut y caiff ei lywodraethu a'i reoli, a sut y mae'n atebol am yr hyn y mae'n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, dirprwyir swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau. Mae'r ddirprwyaeth hon yn cynnwys y trefniadau llywodraethu i alluogi'r Comisiwn i weithredu'n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau a blaenoriaethau strategol.

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y strwythurau, systemau, prosesau, a'r diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo a rheoli'r Comisiwn. Mae'n diffinio perthnasoedd, atebolrwydd, a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy'n gweithio yn y sefydliad a gydag ef, yn penderfynu ar y rheolau a'r gweithdrefnau a ddefnyddir i bennu nodau, blaenoriaethau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu'r dull o gyflawni'r amcanion hynny ac o fonitro perfformiad. Mae'r fframwaith yn ymdrin â meysydd fel: egwyddorion llywodraethu, cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; rheolau a gweithdrefnau caffael; rheolaeth ariannol; archwilio; a sicrwydd. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy'n sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda'r sefydliad, yn ymwybodol o'r angen i weithredu'n unol â'r safonau llywodraethu uchaf. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar urddas a pharch, twyll, llygredd a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol[9] sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellir yng nghodau ymarfer Trysorlys EF a'r Cyngor Adrodd Ariannol a'r Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus. Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i’n dulliau gweithredu, fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran *Sicrwydd* y datganiad hwn yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o'r gydymffurfiaeth hon, ac effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu, drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn, sy'n cynnwys datganiadau sicrwydd gan uwch reolwyr.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforaethol sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i’r Senedd weithredu’n effeithiol.  Mae’n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Llywydd a’r Comisiynwyr wedi'i chynnwys yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon (yr Adroddiad Blynyddol).

Prif Swyddog Cyfrifyddu’r Comisiwn yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, sy’n atebol i’r Comisiynwyr am gyflawni ei nodau strategol a blaenoriaethau, ac mae’n atebol yn bersonol i’r Senedd am drefn ac ansawdd y gwaith rheoli yn y Comisiwn, gan gynnwys ei ddefnydd o arian cyhoeddus a sut y mae’n gwarchod ei asedau. Gweithwyr y Comisiwn yw staff y Senedd.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o’r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Taliadau. Mae manylion am eu haelodaeth ar gael yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol. Mae’r rhain yn gyrff cynghori annibynnol heb unrhyw bwerau gweithredol ac sy’n llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'n bodloni anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar: adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

[9] https://senedd.cymru/comisiwn/egwyddorion-llywodraethu-a-darpariaethau-ategol/

y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg, rheolaeth ariannol a phrosiectau mawr; a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd[10].

Mae’r Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a’r Clerc a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo’r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn bodloni’r safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn, newidiodd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ychydig gydag un aelod nad oedd bellach yn aelod ffurfiol ond yn parhau i gael ei wahodd yn sefydlog i gyfarfodydd. Nid oedd aelodaeth y Pwyllgor Taliadau a Chadeirydd ac aelodaeth eraill o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi newid.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cwrdd yn rheolaidd i roi cyfeiriad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau, blaenoriaethau, ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a’r Clerc. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[11] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae'n rhaid i'r Prif Weithredwr a’r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn arnynt. Mae hefyd system o awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau adnoddau eraill, megis caffael.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu, ac mae eu Cyfarwyddwyr yn atebol i'r Prif Weithredwr a’r Clerc. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau, ac mae’n atebol yn uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu ac yn aelod o’r Bwrdd Gweithredol. Mae'r cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu yn feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur llywodraethu, gan gynnwys siart strwythur, yn adran Trefniadau Rheoli'r Comisiwn yn yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 18).

Ym mis Mehefin 2023, dechreuodd Prif Swyddog Cyllid newydd yn lle’r Cyfarwyddwr Cyllid blaenorol a adawodd y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2022. Gwnaed trefniadau dros dro i sicrhau trosglwyddiad esmwyth.

[10] https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[11] https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a'r Clerc, yw'r corff penderfynu strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arweinyddiaeth, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 6).

## Cynllunio a mesur perfformiad

Mae nodau strategol a blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd wedi'u nodi yn Strategaeth y Comisiwn. Mae'r rhain wedi rhoi cyfeiriad a llywio gwaith cynllunio ar lefel weithredol o fewn y Comisiwn. Amlinellir y nodau a blaenoriaethau strategol yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol.

Ers 2022-23 ac yn ystod 2023-24 mae'r Comisiwn wedi canolbwyntio ar wella ei fframwaith cynllunio strategol, sefydlu'r Uned Cynllunio Strategol i wneud hynny, a chyflwyno ac adolygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol.

Cafodd y Cynllun Cyflawni Corfforaethol ei ddatblygu ar y cyd â Thîm Arwain y Comisiwn a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol.

Cafodd Cynllun Strategaeth y Comisiwn ei drosi yn gyfeiriad clir, gweithredol ar gyfer swyddogion y Comisiwn drwy nodi nifer fach o flaenoriaethau gwella. Adlewyrchwyd y blaenoriaethau hyn yn eu tro mewn cynlluniau busnes lefel gweithredol allweddol eraill, ac o fewn cynllun pob gwasanaeth. Sicrhaodd hyn fod gweithgarwch ac adnoddau yn cyd-fynd â Strategaeth y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cymeradwyo ei Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig cyntaf, a cheir manylion amdano yn adran *Cynnydd yn erbyn meysydd penodol a nodwyd i ganolbwyntio arnynt* o'r datganiad hwn.

Ymysg y cynlluniau busnes lefel gweithredol allweddol eraill yn 2023-24 roedd:

- Strategaeth Carbon Niwtral: 2021 - 2030
- Strategaeth Pobl
- Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol: Y Chweched Senedd
- Strategaeth Llesiant

- Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Strategaeth Portffolio

Ceir rhagor o fanylion am sut rydym wedi datblygu a chynnwys cynllunio corfforaethol, ynghyd â'r fframweithiau adnoddau a chynllunio ariannol, yn adran *Cynnydd yn erbyn meysydd penodol a nodwyd i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2023-24* o'r datganiad hwn ac yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 32).

Roedd gweithgarwch mesur perfformiad y Comisiwn yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

- Adroddiad chwarterol i'r Bwrdd Gweithredol ar gynnydd yn erbyn cyflawni cerrig milltir y Cynllun Cyflawni Corfforaethol, gydag adroddiad alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn;
- Diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol ar y cynnydd o ran cyflawni portffolio'r Comisiwn o brosiectau newid;
- Diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol a'r Comisiwn ar gynnydd o ran cyflawni cerrig milltir y rhaglen Ffyrdd o Weithio;
- Adolygiad ddwywaith y flwyddyn gan y Comisiwn o'i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol ac adolygiad blynyddol o'r dangosyddion eu hunain i sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'n harferion gwaith ac yn parhau i fod yn addas i'r diben. Ceir gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad allweddol y Comisiwn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 32).

## Cynnydd a pherfformiad

Rydym wedi gwneud cynnydd ar rai meysydd gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn fel yr amlinellir isod. Mae rhagor o fanylion am y trefniadau llywodraethu ynghylch Diwygio'r Senedd a Rhaglenni Ffyrdd o Weithio wedi'u hamlinellu yn adran *Cynnydd yn erbyn meysydd penodol a nodwyd i ganolbwyntio arnynt* o'r datganiad hwn.

## Diwygio'r Senedd

Cafodd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) Llywodraeth Cymru ei basio gan y Senedd ar 08 Mai 2024. Yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol, bydd y Comisiwn nawr yn dechrau rhaglen o weithgarwch i baratoi ar gyfer Seithfed Senedd ar ei newydd wedd.

Mae rhaglen Diwygio'r Senedd yn cydgysylltu cymorth a chyngor a gaiff eu darparu i alluogi Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Busnes, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, Fforwm y Cadeiryddion, a'r Llywydd i gyflawni'r gwaith y mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar gyfer busnes seneddol yn y Seithfed Senedd, gan sicrhau eu bod i gyd yn deall gwaith ei gilydd tra'n parchu annibyniaeth pob corff.

Mae Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd hefyd wedi rhoi cymorth ar gyfer cyfraniadau Comisiwn y Senedd a'r Llywydd yn ystod cyfnod craffu proses y Bil, a'r goblygiadau i'r gyllideb ddrafft. Roedd hyn yn cynnwys ymarfer helaeth i ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru a'r pwyllgorau sy'n craffu ar gostau amcangyfrifedig Diwygio'r Senedd i Gomisiwn y Senedd. Roedd y rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau cyffredin y cytunwyd arnynt gan Gomisiwn y Senedd, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Busnes a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Cyfarfu'r Bwrdd Sicrwydd ar y Cyd, sy'n cael ei gyd-gadeirio gan Gyfarwyddwr Busnes y Senedd a Chyfarwyddwr Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru, yn rheolaidd drwy gydol 2023-24. Bwriad y Bwrdd yw rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Swyddogion Cyfrifyddu a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ryngddibyniaethau rhwng Comisiwn y Senedd a rhaglenni Diwygio'r Senedd/rhaglenni newid perthnasol Llywodraeth Cymru. Adolygodd y Bwrdd y rhagdybiaethau cyffredin sylfaenol y mae gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd eu priod gyfrifoldeb drostynt i sicrhau bod cynllunio'n mynd rhagddo ar sail cyd-ddealltwriaeth.

Drwy gydol 2023-24, mae swyddogion y Comisiwn wedi cefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i fwrw ymlaen â'i raglen waith strategol sy'n cynnwys sawl adolygiad thematig a fydd yn llywio'r Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd: gan gynnwys Symleiddio, yr adolygiad o'r cymorth staffio i Aelodau a'r adolygiad o Daliadau a Lwfansau Aelodau. Mae cadeirydd y Bwrdd wedi cynnal sawl cyfarfod gyda'r prif weithredwr a'r Llywydd yn ystod 2023-24 ac archwiliwyd rhaglen o ddeialog a chydweithio ar feysydd o ddiddordeb a rennir gan y Bwrdd/Comisiwn ar gyfer 2024-25.

### Rhaglen Ffyrdd o Weithio

Yn ystod 2023-24, cychwynnodd y Comisiwn brosiect Bae Caerdydd 2032 yn ffurfiol. Bydd y prosiect hwn yn sicrhau bod anghenion adeiladau'r Comisiwn a'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu diwallu ar ôl i brydles gyfredol Tŷ Hywel ddod i ben yn 2032. Dyma'r prosiect mwyaf arwyddocaol a chymhleth y mae'r Comisiwn wedi'i gyflawni.

### Newid cyfansoddiadol y DU

Rydym wedi rheoli ein hymateb i newidiadau cyfansoddiadol yn y DU drwy dargedu adnoddau ar lefelau priodol, datblygu gweithio rhyng-seneddol a rhannu gwybodaeth â swyddogion perthnasol y Comisiwn a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwleidyddol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau amlygrwydd a rheolaeth ar faterion cyfansoddiadol cyfredol a newydd. Rydym wrthi'n ymgysylltu â'r Pwyllgor Busnes i ystyried goblygiadau *Deddf Marchnad Fewnol 2020 y DU* ar gyfer y Senedd. Yn ogystal, ers i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2023, mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u diwygio i roi swyddogaeth i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu ar Offerynnau Statudol sy'n llifo o'r Ddeddf. Er na ragwelir unrhyw newidiadau pellach i'r Rheolau Sefydlog o ganlyniad i'r Ddeddf honno, mae staff allweddol ar draws y Gyfarwyddiaeth Fusnes yn parhau i fonitro effaith bosibl y Ddeddf. Cafodd y gwaith paratoadol hwn ei arwain gan Gyfarwyddwr Busnes y Senedd a chafodd y risgiau cysylltiedig eu monitro gan y Bwrdd Gweithredol drwy Gofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn.

## Cynnydd yn erbyn meysydd penodol a nodwyd i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2023-24

Yn Natganiad Llywodraethu'r llynedd, gwnaethom gyfeirio at nifer o feysydd ffocws a datblygiad penodol ar gyfer 2023-24 ac mae manylion y cynnydd yn erbyn y rhain wedi'u nodi yn yr is-benawdau isod.

### Cwblhau a gweithredu'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Yn ystod 2023-24 cymeradwyodd y Comisiwn ei Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (y Fframwaith Adnoddau) cyntaf.

Mae'r Fframwaith Adnoddau yn nodi gorwel ariannol y Comisiwn ar gyfnod treigl o dair blynedd, i gynorthwyo a llywio dyraniadau adnoddau'r Comisiwn dros amser, gan gyfeirio'n benodol at ei gyllidebau blynyddol a chynllunio'r gweithlu.

Mae'r Fframwaith Adnoddau hefyd yn gosod cyd-destun ar gyfer penderfyniadau'r Comisiwn ar geisiadau adnoddau gan Grant Bloc Cymru, gan geisio sicrhau bod y ceisiadau hyn yn ddarbodus, yn dynn, ac yn unol â'r cyd-destun gwariant cyhoeddus cyffredinol yng Nghymru.  Yn olaf, mae'r fframwaith hefyd yn sicrhau aliniad rhwng anghenion yr adnoddau a'r adnoddau sydd ar gael dros amser.

Troswyd egwyddorion y Fframwaith Adnoddau i gyllideb flynyddol y Comisiwn 2024-25, a osodwyd yn ystod 2023-24, drwy gapio'r cynnydd yn ei gostau craidd busnes fel arfer ar 2.5%, i sicrhau nad oedd y cynnydd hwnnw mewn costau yn fwy na'r cynnydd yn y Grant Bloc Cymreig cyffredinol.

Mae fersiwn wreiddiol y Fframwaith Adnoddau (sy'n cwmpasu 2023-24 i 2026-27) bellach wedi'i hadnewyddu fel y cynlluniwyd ar ddiwedd 2023-24, gyda'r fersiwn ddiweddaraf i'w chymeradwyo yn 2024-25 sy'n cwmpasu gorwel cynllunio o 2025-26 i 2027-28.

Mae Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wedi craffu ar y Fframwaith Adnoddau a nododd y canlynol yn ei adroddiad ar adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2022-23:

> *Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a'r Cynllun Gweithlu sy'n cael eu datblygu, gan fod heriau sylweddol yn gysylltiedig â chefnogi mwy o Aelodau, tra hefyd yn cynnal lefel y gwasanaeth a ddarparwyd hyd yma*

### Sicrhau bod trefniadau llywodraethu prosiectau a rhaglenni'n parhau i fod yn effeithiol, a gweithredu'r fframwaith rheoli portffolio a chylchoedd adrodd ar y cyd ar gyfer rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a phrosiectau mawr eraill

Symudodd y Comisiwn ymlaen â'r gwaith o gyflawni dwy raglen newid sylweddol yn 2023-24 – Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio – mae manylion y cyflawni wedi'u hamlinellu yn adran *Cynnydd yn erbyn meysydd penodol anodwyd i ganolbwyntio arnynt* o'r datganiad hwn; mae'r adran hon yn canolbwyntio ar lywodraethu'r rhaglenni.

Cyflwynwyd portffolio o brosiectau newid ehangach hefyd yn 2023-24. Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio wedi cyfarfod yn aml yn ystod y flwyddyn, ac wedi gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ar bortffolio'r prosiect. Roedd y rhain yn seiliedig ar y cyfeiriad o'r Strategaeth Bortffolio y mae'r Grŵp Rheoli Portffolio wedi'i rheoli ar ran y Bwrdd Gweithredol er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Pennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ymarfer cynghori gyda'r nod o asesu a oedd fframwaith llywodraethu addas wedi'i sefydlu ar gyfer y ddwy raglen newid. Gwnaed nifer fach o argymhellion cynghorol ar ddechrau 2024-25 (a oedd felly y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn). Bydd y ddwy raglen newid yn adolygu'r argymhellion hyn yn ystod 2024-25.

Yn ystod 2023-24 cafodd y ddwy raglen newid eu rheoli drwy Fyrddau Rhaglen, a'u cadeirio gan Uwch Berchnogion Cyfrifol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Gweithredol ac sy'n atebol iddo.

Cyflwynir dangosfyrddau ac adroddiadau cynnydd manwl yn rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol ar y portffolio ehangach o brosiectau newid.

**Diwygio'r Senedd**

Cyfarfu Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd yn ôl y gofyn yn ystod 2023-24, ar ôl sefydlu strwythur llywodraethu ar gyfer y rhaglen. Mae aelodaeth y Bwrdd, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr o bob rhan o'r Comisiwn, wedi'i diweddaru i gynnwys cynrychiolwyr o Adnoddau Dynol ac undebau llafur.

Ochr yn ochr ag argymhellion yr archwiliad cynghori, bu Bwrdd Rhaglen Diwygio'r Senedd hefyd yn ystyried a chytuno ar gwmpas rhaglen Diwygio'r Senedd a sut y gallai reoli newid yn llwyddiannus a sicrhau canlyniadau i gefnogi amcanion y Comisiwn.

O fewn fframwaith Bwrdd Sicrwydd ar y Cyd Llywodraeth Cymru/Comisiwn y Senedd, mae set ffurfiol o ragdybiaethau cynllunio cyffredin yn cael eu cynnal rhwng y partïon er mwyn sicrhau cysondeb o ran y ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd a hwyluso cynllunio.

Cynrychiolir Comisiwn y Senedd hefyd ar Fwrdd Cyflawni Diwygio Etholiadol y Senedd Llywodraeth Cymru, sydd wedi cyfarfod yn ôl yr angen yn ystod 2023-24. Mae'n dwyn ynghyd partneriaid allweddol sy'n ymwneud â gweithredu Diwygio'r Senedd i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r gwaith gweithredu sydd ei angen i'w gyflawni a rheoli risgiau a chyd-ddibyniaethau cysylltiedig.

Y Bwrdd Gweithredol, fel corff gwneud penderfyniadau'r Comisiwn, sydd â throsolwg strategol o'r rhaglen, a chaiff adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd. Mae'r Bwrdd Gweithredol hefyd yn adolygu'n rheolaidd y risg gorfforaethol ar Ddiwygio'r Senedd a risgiau cysylltiedig ynghylch capasiti a gallu'r Comisiwn i ymateb a pharatoi ar gyfer y newid trawsnewidiol hwn, ochr yn ochr â blaenoriaethau busnes fel arfer a chyflawni'r rhaglen Ffyrdd o Weithio. Mae Bwrdd Rhaglen

Diwygio'r Senedd wedi datblygu ac yn cynnal cofrestr risg a materion ar lefel rhaglen.

### Rhaglen Ffyrdd o Weithio

Er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol, mae Bwrdd y Rhaglen Ffyrdd o Weithio yn gweithredu yn unol â disgwyliadau *Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus*. Cyfarfu'r Bwrdd hwn yn fisol yn ystod 2023-24. Gwnaeth ddatblygu a chymeradwyo Cylch Gorchwyl diwygiedig a Strategaeth Rhaglen ac mae'n cynnal cofrestrau risg a chyhoeddi gweithredol a chofnodion penderfyniadau a fydd yn cael eu datblygu yn unol ag argymhellion yr archwiliad cynghorol.

### Prosiect Bae Caerdydd 2032

Ar gyfer prosiect Bae Caerdydd 2032, a gychwynnwyd yn ffurfiol yn ystod 2023-24, mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i sicrhau bod prosiect mor gymhleth yn cael ei lywodraethu'n effeithiol, ac i sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian a'r buddion arfaethedig.

Fel rhan o hyn, mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ac mae'n gweithredu ar egwyddorion arfer gorau'r sector cyhoeddus ac yn unol â Llyfr Gwyrdd Llywodraeth Cymru/Trysorlys EM. I'r perwyl hwnnw comisiynwyd Achos Amlinellol Strategol. Roedd yn nodi gweledigaeth, amcanion, buddion y prosiect a chynhaliwyd gwerthusiad gwerth am arian cychwynnol i lywio'r ffordd ymlaen a ffefrir. Cafodd ei gymeradwyo gan y Comisiwn a roddodd yr awdurdod i symud ymlaen i'r cam nesaf, sef cynllunio prosiect manwl. Ar yr un pryd, cymeradwyodd y Bwrdd Prosiect i uwchgyfeirio risg benodol Bae Caerdydd 2032 i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn sicrhau bod y risg sylweddol hon yn cael ei harchwilio'n agos gan y Comisiwn.

Bydd y prosiect yn parhau i weithredu yn ystod 2024-25 yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r Llyfr Gwyrdd. Bydd hyn yn cynnwys comisiynu Achos Busnes Amlinellol a'r gwasanaethau technegol a phroffesiynol a'r arbenigedd perthnasol i sicrhau ei fod yn sylfaen gadarn ar gyfer lansio ymarfer caffael.

### Ymgorffori'r fframwaith cynllunio gwasanaeth a chorfforaethol wedi'u diweddaru

Cynhaliodd y Comisiwn ail rownd o'i weithgarwch cynllunio corfforaethol a gwasanaeth wedi'i ddiweddaru yn ystod 2023-24, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'r rownd gyntaf yn 2022-23.

Fel rhan o hyn, cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol Gynllun Corfforaethol, a ddisodlodd y Cynllun Cyflawni Corfforaethol (amlinellir y manylion yn adran *Cynllunio a mesur perfformiad* o'r datganiad hwn). Mae’r Cynllun Corfforaethol hwn yn cwmpasu gorwel cynllunio o ddwy flynedd, hyd at ddiwedd y Chweched Senedd, yn hytrach na blwyddyn unigol y Cynllun Cyflawni Corfforaethol. Mae hefyd yn cynnwys set newydd o flaenoriaethau i ddarparu fframwaith gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau, dyrannu adnoddau a monitro cynnydd.

Ar y cyd â gwaith drafftio'r Cynllun Corfforaethol, roedd yn ofynnol i wasanaethau ddatblygu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer yr un cyfnod cynllunio gan ddefnyddio templed gwell i sicrhau cyflawniadau yn y gwasanaethau, a nodwyd yr adnoddau sydd eu hangen i'w cyflawni mewn modd amserol.

Er mwyn cynnig mwy o sicrwydd bod cynlluniau gwasanaeth yn adlewyrchu gofynion yn gywir, cynhaliwyd proses dau gam a oedd yn caniatáu i wasanaethau galluogi megis TGCh (lle mae anghenion adnoddau’n cael eu llywio’n gryf gan weithgarwch meysydd gwasanaeth eraill), amser a gwybodaeth ddigonol i sicrhau bod eu cynlluniau eu hunain yn cyd-fynd â'r patrwm arfaethedig o weithgarwch a gwasanaethau yn y Comisiwn ehangach.

Gyda Chynllun Corfforaethol wedi'i adnewyddu a chylch cynllunio gwasanaethau wedi'i adnewyddu a'i wella, gwnaed cynnydd sylweddol yn y maes datblygu hwn yn ystod 2023-24.

### Bwrw ymlaen â’r gwaith ar symleiddio a chyfleu rheolau a gweithdrefnau yn ein fframwaith rheoleiddio fel y mae’n berthnasol i Aelodau

Mae cynlluniau i ddatblygu deialog rhwng y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Chomisiwn y Senedd wedi symud ymlaen. Nod y ddeialog hon yw sefydlu cyd-ddealltwriaeth o sut y caiff anghenion yr Aelodau eu cefnogi drwy wasanaethau’r Comisiwn a Phenderfyniad y Bwrdd, gan edrych tua’r Seithfed Senedd ac ar ôl hynny, ac mae’n cynnwys trafodaethau ar symleiddio’r Penderfyniad. Mae hyn yn golygu symud ymlaen i symleiddio'r fframwaith rheoleiddio, gyda chymorth yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad, y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Rhannwyd yr adolygiad o'r polisi Urddas a Pharch gan y Comisiwn gyda'r Comisiynydd Safonau, y Bwrdd Taliadau a’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Yn dilyn ei ymgynghoriad ar bolisi Urddas a Pharch y Senedd a’r gweithdrefnau cysylltiedig, mae’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi ymrwymo i ymchwiliad cynhwysfawr, gan edrych ar bob agwedd ar ein polisïau a’n gweithdrefnau fel eu

bod yn gyfredol ac yn addas i’r diben. Cymerwyd camau i wella ymwybyddiaeth yr Aelodau o’r gyfundrefn Safonau. Mae sesiynau ymwybyddiaeth pellach wedi'u cyflwyno i grwpiau gwleidyddol gan y Comisiynydd Safonau, a darparwyd hyfforddiant ar urddas a pharch yn benodol. Bydd y rhain yn parhau i fod yn rhan o’r ddarpariaeth yn barhaus drwy gydol tymor y Senedd.

Mae'r Comisiwn wedi bod yn cynnal rhaglen “Hyfforddiant Cyflym” i ddarparu ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ffurf gryno, sy'n ategu'r rhaglen hyfforddi fanylach. Mae’r sesiynau hyn ar gael i Aelodau a’u staff cymorth ac maent yn ymdrin â materion cyfoes neu eitemau y mae Aelodau a’u staff cymorth wedi gofyn amdanynt, er enghraifft yn ymwneud â’r rheolau a’r prosesau sy’n ymwneud â chyflwyno hawliadau yn erbyn y Penderfyniad a chefnogi Aelodau yn eu rolau fel cyflogwr. Rhoddir cyhoeddusrwydd rheolaidd i fanylion y sesiynau trwy fwletinau staff cymorth misol a chânt eu nodi yn y Calendr Dysgu ar y Fewnrwyd.

Mae'r Comisiwn wedi dechrau adnewyddu Mewnrwyd yr Aelodau er mwyn gwella'r ffordd y mae gwybodaeth ar gael i'r Aelodau, gan symleiddio'r cynnwys a'r cyflwyniad.

Mae risgiau sy'n ymwneud â'r Fframwaith Rheoleiddiol ac Urddas a Pharch wedi'u cynnwys ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn. Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd o ran lliniaru'r risgiau hyn i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### Cymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg ynghylch cydymffurfio â’n Cynllun Ieithoedd Swyddogol.

Mae gwaith ar sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg ynghylch cydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn cael eu nodi'n gynnar wedi mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn. Mae’r tîm wedi datblygu a gweithredu canllawiau ar gyfer Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol i’w galluogi i adnabod materion sy’n dod i’r amlwg ac i wahaniaethu rhwng enghreifftiau o fethiant i gydymffurfio â’r cynllun a chwynion er mwyn cymryd y camau unioni priodol. Mae’n bwysig bod gan Gomisiwn y Senedd weithdrefn ar waith i gofnodi a dysgu o achlysuron pan fyddwn yn methu â chydymffurfio â’r safonau gwasanaeth a nodir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Mae’r weithdrefn yn cynnwys y gofyniad i gofnodi a rhannu'r camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd fel y gallwn osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio dro ar ôl tro. Mae nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar yn golygu y gellir eu hunioni'n gyflym ac osgoi cwynion gan Aelodau neu'r cyhoedd.

## Rheolaeth ariannol a pherfformiad

Rydym yn gweithio o fewn system o reolaeth gref ac effeithiol i sicrhau cywirdeb a defnydd priodol o arian.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reoli'r cyllid sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ac mae'n cymryd cyngor gan y 'Grŵp Rheoli Prosiect', a gadeirir gan y Prif Swyddog Cyllid ac mae'n gyfrifol am ystyried achosion busnes ar gyfer ariannu a blaenoriaethu gwariant i gyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnal digon o hyblygrwydd i ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r broses newydd hon wedi caniatáu gwneud y mwyaf o adnoddau yn ystod y flwyddyn ariannol.

Caiff swyddi cyllideb gwasanaeth eu hadolygu'n fisol gan y tîm Cyllid, yn chwarterol gyda rheolwyr y gyllideb ac yn adrodd pob cyfnod i'r Bwrdd Gweithredol.

Mae costau ynni yn parhau i fod yn bwysau cost sydd wedi'i reoli gan fesurau arbed costau ar yr ystad ac yn y dyfodol bydd yn cael ei liniaru'n rhannol trwy symud i'r Rhwydwaith Gwresogi Ardal.

Roedd yr Adroddiad Archwilio ar gyfer 2022-23 yn ddiamod, ac mae dyfyniad o adroddiad Craffu ar Gyfrifon 2022-23 gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ym mis Rhagfyr 2023 yn nodi'r canlynol:

> *Mae'r Pwyllgor wedi'i galonogi gan y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig COVID-19 a bod y datblygiadau arloesol o'r cyfnod heriol hwn bellach yn cael eu cynnal er budd staff ac Aelodau. Mae effaith y ffordd newydd hon o weithio ar gynllunio'r ystâd yn y dyfodol yn arbennig o nodedig, o ystyried effaith diwygio'r Senedd ar y sefydliad yn fuan.*
>
> *Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr heriau a achosir gan gostau cynyddol wrth gyflawni prosiectau allweddol y Strategaeth Garbon Niwtral, a hoffai gael y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r Comisiwn yn y maes hwn, er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i fod o fewn ei wariant amcangyfrifedig ac yn gallu cyflawni'r prosiectau sydd eu hangen i gyrraedd y targedau tymor canolig a thymor hir a nodir yn y Strategaeth.*

Rydym wedi parhau i gael ein herio gan y Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch lefel adnoddau'r Comisiwn a defnydd ohonynt.

Rydym wedi cyflwyno’n llawn yn 2023-24 y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig sy’n ystyried darpariaeth tymor canolig y sefydliad ar sail dreigl tair blynedd. Drwy gynllunio gwasanaethau, bydd yn nodi gofynion adnoddau posibl, anghenion ariannu a staffio ac yn galluogi cynllunio mwy effeithlon yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i’r Comisiwn ddechrau cyflawni prosiectau amlflwyddyn megis Ffyrdd o Weithio a Diwygio’r Senedd i sicrhau dealltwriaeth glir o ofynion ariannol y rhaglenni a’r prosiectau a ddarperir ynddynt. Bydd y gwaith hwn yn llywio rhagdybiaethau cyllidebol a gofynion ariannu ar sail dreigl.

Mae'r tîm Cyllid wedi bod, a bydd yn parhau i fod, yn allweddol o ran datblygu opsiynau ar gyfer strategaeth cyllideb a’i chyflwyno yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth inni geisio cyflawni’r newidiadau sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd ac ystyried ystâd y Comisiwn drwy'r rhaglen waith Ffyrdd o Weithio. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn a'r Pwyllgor Cyllid i wella tryloywder wrth osod cyllideb ac adrodd ar wariant, gan sicrhau ein bod yn dangos ein hymrwymiad i Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor Cyllid a ddisgwylir gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Mae dyfyniad o'r adroddiad craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25 gan y Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2023 yn nodi:

> *Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed y bydd Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig treigl newydd y Comisiwn yn mynd ati i ganfod arbedion. Mae hyn yn dangos bod y Comisiwn yn cadw at y Datganiad o Egwyddorion wrth barhau i geisio gwella prosesau a chronni effeithlonrwydd, o ran lleihau costau a chynyddu incwm*

Mae'r Comisiwn wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau ariannol anodd yn ystod y flwyddyn. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd yn ofynnol i'r Comisiwn nodi a dychwelyd arbedion gwerth cyfanswm o £435,000 i Gronfa Gyfunol Cymru fel rhan o'r cytundeb cymeradwyo cyllideb; cafodd £800,000 pellach ar gyfer taliad costau byw heb ei gyllidebu yn ystod y flwyddyn y gofynnwyd amdano gan y TUS ar gyfer staff hefyd ei ystyried a'i gytuno gan y Comisiwn. Nodwyd arbedion a gweithredwyd rheolaeth gyllidebol dynn i sicrhau bod y Comisiwn yn darparu gwasanaethau o fewn yr arian a ddyrannwyd, wedi'i fonitro'n agos gan y Bwrdd Gweithredol bob mis i sicrhau bod yr arbedion angenrheidiol yn cael eu crisialu a’u haddasu os oedd angen. Er bod hwn yn gyfnod gweithredol anodd i’r sefydliad, roedd rhai o'r rheolaethau a roddwyd ar waith yn galluogi rheolaeth weithredol ac ariannol well ar rai meysydd o'r sefydliad. Mae'r prosesau hyn bellach wedi'u hymgorffori yn y broses Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Un

o rolau allweddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yw adolygu cyfrifon y Comisiwn ac argymell y dylid eu cymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael gwybodaeth am ein sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod gan y Prif Swyddog Cyllid a chaiff gwybodaeth megis adroddiadau ar waith craffu gan Bwyllgorau'r Senedd (fel y cyfeiriwyd ato'n flaenorol yn yr adran hon) ac ymatebion y Comisiwn eu rhannu ag aelodau'r Pwyllgor mewn amser real.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau i gyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn, ynghyd â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau.

Mae risgiau mwyaf sylweddol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn berchen ar y cyd ar y risgiau corfforaethol hyn, ac maent yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwr perthnasol a'i Benaethiaid Gwasanaeth. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych i'r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal â hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaeth, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau a phenderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw rai a'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r adroddiadau'n rhoi'r sail ar gyfer yr adolygiad risg chwarterol gan y Bwrdd Gweithredol. Adroddir ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd Cofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn ei diweddaru i adlewyrchu risgiau canfyddedig. Mae risgiau newydd sy'n ymwneud â phrosiectau ystadau Bae Caerdydd 2032 a Diwygio'r Senedd wedi'u hychwanegu i adlewyrchu eu pwysigrwydd i ddarparu adeiladau ar gyfer y Comisiwn a'r Senedd yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi bod yn monitro risgiau sy'n ymwneud â chapasiti a gallu corfforaethol yn agos, yn enwedig wrth inni gynllunio ar gyfer newid trawsnewidiol mawr o ran Diwygio'r Senedd a ffyrdd newydd o weithio. Gellir dod o hyd i fanylion yr holl risgiau a gofnodwyd yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Comisiwn,

gan gynnwys symudiadau yn ystod y flwyddyn, o dan y Proffil Risg yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 32).

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu'r asesu parhaus ac amlygrwydd risg, natur ddeinamig y gofrestr risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl. Yn 2023-24 roedd ymchwil trylwyr yn cynnwys risgiau yn ymwneud â:

- Fframwaith rheoleiddio'r Aelodau;
- Newid cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU; a
- Urddas a Pharch.

Un maes y mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol ar gyfer y gwaith a wnawn i ddiogelu'r Senedd rhag seiberymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risg gorfforaethol ym mhob cyfarfod a chynnal adolygiadau manwl rheolaidd, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch. At hynny, mae uwch swyddogion TGCh yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau pellach, gan gynnwys cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch manwl, ac ymateb i waith craffu. Rhoddir sicrwydd pellach gan adroddiad ar gynnydd yn erbyn holl argymhellion archwilio mewnol yn ymwneud â seiberddiogelwch.

Maes arall y bu'r Pwyllgor yn canolbwyntio arno oedd datblygu ein cynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd, gyda diweddariadau corfforaethol yn ategu'r wybodaeth fanwl am y risgiau ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor yn cael diweddariad corfforaethol ym mhob cyfarfod yn erbyn yr hyn a gyflawnir yn y rhaglen Ffyrdd o Weithio.

## Sicrwydd

### Fframwaith Sicrwydd

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn wedi parhau i gynnig dull effeithiol o gasglu tystiolaeth ar lefelau sicrwydd. Yn seiliedig ar y model tair llinell amddiffyn sydd wedi cael ei fabwysiadu'n eang, mae'r fframwaith yn cynnig dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'n helpu i asesu cryfder ein rheolaethau

mewnol, gyda phob maes gwasanaeth yn mapio eu lefelau sicrwydd. Caiff y mapiau hyn, ynghyd â dulliau i brofi ymwybyddiaeth staff, eu defnyddio i lywio datganiadau sicrwydd ar lefel gwasanaethau, sy'n cael eu hadolygu gan Gyfarwyddwyr. Mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn cynhyrchu datganiad sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu lywio'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Eleni, yn unol ag arfer gorau sy'n dod i'r amlwg yn y sector cyhoeddus ar fapio sicrwydd, cyflwynwyd cam pellach lle’r oedd y Cyfarwyddwr yn gwneud gwaith mapio sicrwydd strwythuredig ar y lefel ail linell/arolygiaeth gorfforaethol i lywio eu datganiadau. Bydd hyn yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn addas i'r diben cyn proses casglu sicrwydd y flwyddyn nesaf.

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn (gan gynnwys Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn) yn craffu'n fanwl ac yn herio datganiadau sicrwydd a’r broses ar gyfer casglu tystiolaeth i gefnogi’r sicrwydd a ddarperir. Mae hyn yn ychwanegu haen arall o sicrwydd.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng y tîm Llywodraethu a Sicrwydd a Phenaethiaid Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac, ochr yn ochr â'r broses datganiad sicrwydd, maent yn helpu i nodi unrhyw feysydd lle mae angen ffocws, gwaith codi ymwybyddiaeth, neu hyfforddiant pellach. Rhoddir sylw i hyn wedyn drwy sesiynau briffio neu hyfforddiant pellach wedi'u targedu, a ddarperir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd. Mae hyn i gyd yn rhoi hyder bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu deall yn dda a'u cymhwyso ar draws y Comisiwn a bod unrhyw feysydd o wendid cymharol yn cael sylw.

Ceir rhagor o fanylion am y lefelau sicrwydd yn adran *Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol* y datganiad hwn.

## Archwilio mewnol

Roedd rôl Pennaeth Archwilio Mewnol yn 2023-24 yn dod o dan gyfrifoldebau Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y Comisiwn, gan roi sicrwydd ar draws ystod o wasanaethau ac yn mynd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Gadawodd y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd y sefydliad ym mis Gorffennaf 2023 gyda chyfrifoldeb Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cael ei wneud ar sail interim gan ein Cyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Mewnol allanol, gyda’r Prif Swyddog Cyllid yn cymryd rôl yr Uwch Noddwr Dynodedig yn ogystal â darparu parhad a chyswllt ar draws y sefydliad. Gwnaed y strwythur hwn yn barhaol ar ôl diwedd y flwyddyn.

Mae Archwilio Mewnol wedi cyflawni rhaglen o archwiliadau yn ystod 2023-24. Mae adolygiadau archwilio wedi'u cwblhau ar Benodiadau Cyhoeddus, y defnydd o Gardiau Caffael, a'r strwythur llywodraethu ar gyfer prosiectau a rhaglenni o fewn y Comisiwn. Yn ogystal, cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol o dreuliau Aelodau, ac mae'r archwiliad o seiberddiogelwch a gwaith dilynol ar argymhellion yr archwiliad yn parhau.

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer fach o feysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau i'r amgylchedd rheoli, ac yn amlygu meysydd lle mae'r Comisiwn yn defnyddio arferion da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn yr adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn.

Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn (ag adnoddau mewnol ac allanol) ac Archwilio Cymru (fel archwilwyr allanol y Comisiwn) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Fel rhan o'i asesiad risg, mae Archwilio Cymru yn ystyried y gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn gan Archwilio Mewnol.

Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn dod i'r casgliad "...y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol[12] bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'i gynllunio a'i gyflawni'n effeithiol". Roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd canlyniad adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol ochr yn ochr ag adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol a gyflwynodd adroddiad ym mis Mehefin 2023.

### Meysydd llywodraethu eraill

Lluniodd y Prif Swyddog Cyllid Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2023-24.

Lluniodd a chyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol ei Adroddiad Blynyddol a'i Farn ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

[12] Sicrwydd cymedrol - mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio fframweithiau allanol a fframweithiau a safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol i arwain ein gwaith llywodraethu, gwaith rheoli risg, a sicrwydd ynghylch meysydd fel seiberddiogelwch a chynaliadwyedd.

Mae'r Comisiwn yn monitro cydymffurfiaeth ffurfiol yn erbyn rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol, a chyhoeddir adroddiadau arnynt ar wefan y Comisiwn. Enghreifftiau o hyn yw'r Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. Mae Adroddiad Blynyddol Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth hefyd yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Sicrwydd annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn[13] yn rhoi cefnogaeth a her adeiladol i'r Comisiwn a'i waith. Ar wahân i'w rolau cynghori pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau, maent wedi helpu mewn nifer o gynlluniau recriwtio, wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd staff a'n gwobrau cydnabod staff, wedi cefnogi ein gwaith i wneud ein sefydliad yn fwy cynhwysol, wedi helpu drwy gyflwyno eu harbenigedd ar faterion penodol a darparu her i uwch reolwyr fel rhan o'r broses datganiad sicrwydd.

Fel rhan o'i rôl yn adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Hefyd, mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn rhaglen waith y Pwyllgor, sy'n rhoi cyfle pellach i drafod y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod y cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr o Archwilio Cymru a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiwn gael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn gwersi a ddysgwyd flynyddol a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Mae canlyniadau'r gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn ac maent yn adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio ynddo. Mae rhagor o wybodaeth

[13] https://senedd.cymru/comisiwn/cynghorwyr-annibynnol/?CId=386&Year=2015

am hyn wedi'i chynnwys o dan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol (tudalen 32).

## Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol

Mae'r broses ar gyfer casglu ac adolygu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol a llywodraethu wedi bod ar waith ers nifer o flynyddoedd ac wedi esblygu dros amser.

Yn ganolog i'r adolygiad hwn oedd proses hunan-adolygu a herio a gynhaliwyd o fewn ac ar draws cyfarwyddiaethau. Dilynwyd hyn gan Gynghorwyr Annibynnol yn cynnal y sesiwn her sicrwydd blynyddol rheolaidd gydag aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Pwrpas yr ymarfer herio sicrwydd blynyddol yw trafod ac adolygu:

- ymwybyddiaeth o egwyddorion, rheolau a gweithdrefnau llywodraethu, a chydymffurfio â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu;
- rheoli risgiau;
- y cynnydd o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd; a
- meysydd i ganolbwyntio arnynt neu eu cryfhau.

Daeth adolygiad 2023-24 i'r casgliad bod y broses ar gyfer casglu ac adrodd ar sicrwydd yn parhau i fod yn effeithiol ac yn dangos aeddfedrwydd.  Argymhellodd yr adolygiad i'r Bwrdd Gweithredol y dylid addasu strwythur datganiadau sicrwydd y Cyfarwyddwyr i sicrhau eu bod yn cynnwys materion sicrwydd trawsbynciol.

## Meysydd ffocws a datblygu ar gyfer 2024-25

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau fel y'u hamlinellir yn Strategaeth a Chynllun Corfforaethol y Comisiwn, tra'n ymateb i dirwedd cyllid cyhoeddus a chyfansoddiadol deinamig.

Bydd y meysydd ffocws a datblygu penodol ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- sicrhau bod newid yn cael ei reoli'n effeithiol yn ystod y cyfnod pontio i'r Seithfed Senedd;
- parhau i esblygu'r fframwaith cynllunio strategol; a
- cynnal trefniadau llywodraethu cryf o ran gwybodaeth.

## Datganiad i gloi

Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein hamcanion wrth weithio tuag at ein nodau strategol wedi bod yn effeithiol.

Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu yn y broses o gael sylw. Rwy'n hyderus ein bod, yn ystod y flwyddyn, wedi cynnal safonau llywodraethu uchel a bod ein rheolaethau, systemau a phrosesau mewnol yn ein fframwaith llywodraethu wedi gweithredu'n effeithiol.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

# Taliadau a Staff

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

## Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Mesur), sy'n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau.  Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, a hynny am dymor o bum mlynedd.

Mae'r Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae pedwar aelod arall y Bwrdd (y Fonesig Jane Roberts, Michael Redhouse, Hugh Widdis a Syr David Hanson) yn gymwys i gael cyfradd diwrnod o £310[14].

Fel bwrdd annibynnol, mae'n cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi'u nodi yn y Mesur.

Pennwyd cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 ar £69,958 (2022-23, £67,920).  Caiff cyflogau'r Aelodau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion), ar yr amod nad yw'r addasiad yn is na 0% ac nad yw'n uwch na 3%.  Y cynnydd a gymhwyswyd i 2023-24 oedd 3%.

Yn sgil yr amgylchiadau eithriadol parhaus a'r pwysau ariannol o ddigwyddiadau byd-eang, penderfynodd y Bwrdd Taliadau ym mis Tachwedd 2023 i wneud taliad costau byw pellach o £600 (pro rata) i Staff Cymorth sydd wedi'i gyfuno â graddfeydd cyflog 2024-25.

[14] Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Safle | O 1 Ebrill 2023 ymlaen | O 1 Ebrill 2022 |
|---|---:|---:|
| Y Llywydd | £44,816 | £43,511 |
| Y Dirprwy Lywydd | £22,955 | £22,286 |
| Comisiynwyr y Senedd | £14,210 | £13,796 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (uwch)[15] | £14,210 | £13,796 |
| Cadeiryddion Pwyllgorau (is) | £9,467 | £9,191 |
| Y Pwyllgor Busnes | £9,467 | £9,191 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2023, cafodd arweinydd grŵp gwleidyddol nad oes ganddo swyddogaeth weithredol lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £14,210 (2022-23, £13,796) a £1,093 (2022-23, £1,061) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog o £39,350 (2021-22, £38,204).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae'r Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd[16].

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

[15] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Deisebau; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Safonau Ymddygiad; Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru
Nid yw cadeiryddion / cyd-gadeiryddion pedwar pwyllgor yn cael tâl ariannol am gadeirio'r pwyllgorau hynny gan eu bod yn cael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol eraill, a chaiff Aelodau hawlio un cyflog deiliad swydd ychwanegol yn unig. Maent yn cynnwys y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd, y Pwyllgor Biliau Diwygio a Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru

[16] https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan Adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd: sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar arall o Aelodau o'r Senedd a benodir gan y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2023–24 ar dudalennau 14-15.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd [17]yn dâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn[18][19] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023–24 £'000 | 2022-23 £'000 | 2023–24 £'000 | 2022-23 £'000 | 2023–24 £'000 | 2022-23 £'000 |
| Elin Jones AS – y Llywydd | 110-115 | 110-115 | 15 | (20) | 125-130 | 90-95 |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 90-95 | 90-95 | 17 | (3) | 105-110 | 85-90 |

[17] https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/y-dirprwy-lywydd/
[18] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1000 agosaf).
[19] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn | Cyfanswm aelod cronedig | CETV ar 31 Mawrth 2024 | CETV ar 31 Mawrth 2023 | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elin Jones AS – y Llywydd | 0-2.5 | 55-60 | 1,078 | 974 | 14 |
| David Rees AS - Dirprwy Lywydd – o 12 Mai 2021 | 0-2.5 | 25-30 | 498 | 457 | 2 |

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodwyd o dan Adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'i gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Cynghorwyr Annibynnol ac Aelodau Pwyllgorau

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2023–24 ar dudalennau 16-17.

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull hwn yn unol â

threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae’r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae’r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir eu cyflogaeth yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio camymddygiad neu ymddiswyddiad, bydd yr unigolyn yn cael iawndal, fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Cafodd y rôl Prif Swyddog Cyfreithiol ei chreu a phenodwyd Huw Williams i’r rôl ar 1 Ebrill 2022. Nodwyd ei rôl newydd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, ond er tryloywder llawn, mae ei fanylion wedi’u darparu yn yr un modd ag ar gyfer yr uwch-aelodau o staff eraill yn yr adroddiad hwn.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Antoniazzi | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:<br>Roedd Manon Antoniazzi yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a thri allan o dri o gyfarfodydd y Pwyllgor Taliadau. |
| Siwan Davies | Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd:<br>Roedd Siwan Davies yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim un o dri chyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn wyth allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim un o dri chyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Ed Williams | Cyfarwyddwr Adnoddau’r Senedd:<br>Roedd Ed Williams yn bresennol mewn naw allan o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a dim un o dri chyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Huw Williams | Prif Gynghorydd Cyfreithiol:<br>Nid oedd Huw Williams yn bresennol yn unrhyw un o naw o gyfarfodydd y Comisiwn, ac nid oedd yn bresennol yn unrhyw un o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg nac ychwaith yn unrhyw un o dri chyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r cyfarwyddwyr yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Mae'r cyfarwyddwyr yn bresennol mewn cyfarfodydd sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol nhw.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£’000) | | Buddion pensiwn (i'r £1000 agosaf)[20] | | Cyfanswm (£’000) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| **Manon Antoniazzi** | 170-175 | 165-170 | 66 | 64 | 235-240 | 230-235 |
| **Siwan Davies** | 125-130 | 115-120 | 49 | 46 | 175-180 | 160-165 |
| **Arwyn Jones** | 110-115 | 105-110 | 44 | 41 | 155-160 | 145-150 |
| **Ed Williams** | 100-105 | 95-100 | 41 | 38 | 145-150 | 135-140 |
| **Huw Williams**[21]<br>Ymunodd â’r cynllun pensiwn ar 01/12/2023 | 65-70 | 0 | 9 | 0 | 75-80 | 0 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae “cyflog” yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

[20] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.
[21] Mae Huw Williams yn 0.6 cyfatebol amser llawn (CALl); ni chaiff ei gostau eu grosio hyd at CALl.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

Penodwyd Huw Williams i swydd y Prif Gynghorydd Cyfreithiol ar 1 Ebrill 2022. Cyn hynny roedd yn rhoi cyngor cyfreithiol drwy secondiad o Geldards ar sail gwasanaeth ymgynghori (ers 1 Awst 2019).

## Cyflogau staff y Comisiwn

Cyflogau (neu dâl) yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro) fel ar 31 Mawrth 2024. Nid yw tâl yn cynnwys Yswiriant Gwladol y Cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau, tâl perfformiad na bonysau yn daladwy yn 2023-24 nac yn 2022-23.

| Pecyn gwybodaeth | 2023–24<br>£ | 2022–23<br>£ |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | 172,500 | 167,500 |
| Newid canrannol ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy’n cael y cyflog uchaf o’r flwyddyn ariannol flaenorol | 2.99% | 3.08% |
| Newid canrannol yng nghyflog cyfartalog gweithwyr cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio’r cyfarwyddwr sy’n cael y cyflog uchaf) o’r flwyddyn ariannol flaenorol | 2.65% | 3.76% |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 25ain canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 31,884 | 31,137 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 50fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 41,393 | 40,422 |
| Tâl gweithiwr sydd â chyflog ar y 75fed canradd cyflog yr holl weithwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol | 52,364 | 51,137 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a thâl gweithiwr ar y 25$^{ain}$, 50$^{fed}$ a 75$^{fed}$ canradd o holl staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn.

| **Gwybodaeth Cymhareb Tâl** | **Cymhareb cyflog y 25ain** canradd | **Cymhareb cyflog canolrifol** | **Cymhareb cyflog y 75ain** canradd |
|---|---|---|---|
| 2023-24 | 5.41:1 | 4.17:1 | 3.29:1 |
| 2022-23 | 5.38:1 | 4.14:1 | 3.28:1 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cymhareb y 25ain ganradd wedi lleihau 0.55% ac mae cymhareb y canolrif a chymhareb y 75ain ganradd wedi gostwng 0.72 a 0.3% yn y drefn honno, ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r cymarebau yn weddol sefydlog o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan eu bod i gyd yn gymariaethau rhwng brig y bandiau cyflog perthnasol, felly maent i gyd wedi cynyddu gan yr un gyfran. Cynyddodd y cyflog uchaf 3% yn unol â'r dyfarniad cyflog.

Yn 2023-24 a 2022-23, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd ar y cyflog uchaf. Roedd y taliadau yn amrywio o £23,000, a oedd yn sicrhau bod gweithwyr yn cael Cyflog Byw, i £170,000 (£21,000 i £167,000 yn 2022-23).

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| **Gwir gynnydd mewn pensiwn[22] £'000** | **Cyfanswm y pensiwn cronedig[23] £'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2024[24] £'000** | **CETV ar 31 Mawrth 2023 £'000** | **Gwir gynnydd mewn CETV £'000** |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Antoniazzi* | | | | |
| 2.5-5 | 35-40 | 622 | 498 | 49 |
| ***Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Siwan Davies* | | | | |

[22] Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.
[23] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn, a chyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i ddal swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.
[24] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi â 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiadau yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

| Gwir gynnydd mewn pensiwn[22] | Cyfanswm y pensiwn cronedig[23] | CETV ar 31 Mawrth 2024[24] | CETV ar 31 Mawrth 2023 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|
| 2.5-5 | 10-15 | 206 | 146 | 33 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones* | | | | |
| 2.5-5 | 10-15 | 137 | 95 | 23 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd:*** *Ed Williams* | | | | |
| 0-2.5 | 5-10 | 78 | 38 | 27 |
| ***Prif Gynghorydd Cyfreithiol:*** Huw Williams (Ymunodd â'r cynllun pensiwn ar 01/12/2023) | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 8 | 0 | 7 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Caiff buddion pensiwn unrhyw aelodau yr effeithir arnynt gan rwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, yr adroddwyd arnynt yn 2022-23 ar sail aelodaeth alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, eu hadrodd yn 2023-24 ar sail aelodaeth y PCSPS ar gyfer yr un cyfnod.

Mae newid ffactor wedi bod yn ystod y cyfnod adrodd. Er cysondeb, mae'r Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024 ar gyfer bob aelod a gwmpesir gan adroddiadau (nid dim ond y rheini o fewn cwmpas y rhwymedi) wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffactorau newydd.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n ychydig o adrannau gwahanol – mae classic, premium, a classic plus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod nuvos yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - sef y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth, â'r cynllun newydd.

Mae'r PCSPS ac alpha yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae gweithwyr a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau gweithwyr yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Telir balans cost buddion a delir gan

arian a bleidleisir gan Senedd y DU bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall gweithwyr ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004. Cafodd buddion y PCSPS pob aelod a newidiodd i alpha o'r PCSPS eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r oedran uchaf, sef 65 oed, neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Pan fo gan aelod fuddion yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol y buddion yn y ddau gynllun ond yn nodi y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny yn 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i'r holl aelodau. Mae'r rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus[1] yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda phob aelod gweithredol yn dod yn aelod o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer y cyfnod rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn "dirwyn y broses yn ôl".

Ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas y rhwymedi pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifiad y buddion at ddiben cyfrifo'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a'r ffigur cyfanswm tâl sengl, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau'n cael opsiwn maes o law i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddion y PCSPS neu alpha, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa ar ôl dirwyn yn ôl h.y. buddion y PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Mae rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar gael ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Y Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun ei datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hunan.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y staff

Niferoedd y staff yn ôl categori.

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn cael eu cyflogi gan y Comisiwn. Roedd nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2023-24 | 2022-23* |
|---|---:|---:|
| Staff a gyflogwyd | 485.69 | 480.43 |
| Staff asiantaeth | 1.50 | |
| Staff ar secondiad | 0.65 | 1.54 |
| Staff dros dro/achlysurol | 15.08 | 13.95 |

| Categori | 2023-24 | 2022-23* |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **502.92** | **495.92** |

*Mae'r niferoedd wedi'u hailddatgan

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 486 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2023: 473).

***Tabl 6: Penodiadau oddi ar y gyflogres***

| **Ymrwymiadau oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y dydd a mwy fel ar 31 Mawrth 2024** | **31 Mawrth 2024 Nifer** |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol | 1 |
| **Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024** | **2023-24 Nifer** |
| Nifer | 2 |
| O'r rhain:<br>Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac a ystyrir o fewn cwmpas IR35 | 2 |

Cafwyd un ymrwymiad oddi ar y gyflogres ag aelodau bwrdd neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 (Prif Swyddog Cyllid Dros Dro, Tachwedd 2022 – Mehefin 2023) (2022-23 – un).

***Tabl 7: Cyfansoddiad staff yn ôl rhyw a band cyflog****

| Categori | 31 Mawrth 2024 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | - | - | **5** |
| Staff | 264 | 242 | - | - | **506** |
| **Cyfanswm** | **266** | **245** | - | **-** | **511** |

| **Categori** | **31 Mawrth 2023** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benyw | Gwryw | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | Cyfanswm |
| Cyfarwyddwyr | 2 | 3 | - | - | **5** |
| Staff | 248 | 243 | - | - | **489** |
| **Cyfanswm** | **250** | **246** | **-** | **-** | **496** |

*Yn y tablau uchod, adroddir bod y staff a gyflogir yn niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, adroddir bod y dadansoddiad o rywedd ar sail niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi a rheoli gweithwyr sy'n absennol o'r gwaith oherwydd afiechyd neu salwch. Mae hyn yn golygu ymdrechu i greu amgylchedd sy'n caniatáu cyfathrebu agored ac adeiladol a chefnogaeth ar gyfer lles gweithwyr i'w galluogi i ddod â phob agwedd ar eu hunain i'r gwaith. Rydym yn parhau i roi ein Strategaeth Llesiant 2022-25 ar waith, sy'n darparu ar gyfer dull strategol o gynllunio a rheoli ymyriadau llesiant, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer asesu effaith y gweithgareddau hyn.

Rydym yn rhoi gwerth uchel ar iechyd a lles ein gweithwyr ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cefnogi a'u rheoli gan roi ystyriaeth ddyledus i anghenion gweithredol y Comisiwn. Mae absenoldeb yn arwain at gostau uchel i'r Comisiwn a'n staff ac yn cael effaith fawr arnynt, ac mae'r nod o sicrhau'r lefelau presenoldeb gorau o les i bawb. Mae gennym weithdrefnau ar waith i reoli absenoldeb er mwyn sicrhau bod dull teg, cyson a chadarn, lle y bo'n briodol, yn cael ei ddefnyddio i reoli absenoldeb yn y Senedd, ac eleni rydym wedi cynnal adolygiad a diweddariad o'n polisi a'n gweithdrefn salwch hirdymor.

Cynyddodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn i gyfartaledd o 8.6 diwrnod a gollwyd fesul person (yn 2022-2023 collwyd 8 diwrnod fesul person). Mae hyn yn debyg i feincnod y Gwasanaeth Sifil (8.1 diwrnod) a ddefnyddiwn i fonitro absenoldeb salwch yn ei gyfanrwydd. Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl bellach yn cyfrif am 1512 o ddiwrnodau a gollwyd (40.6% o gyfanswm yr absenoldeb), sy'n cynrychioli

dychweliad i lefelau pandemig yn 2020-21 lle'r oedd absenoldeb iechyd meddwl yn cyfrif am 40% o gyfanswm yr absenoldebau.  Mae rhwydwaith MINDFUL y Senedd wedi parhau i gynnal sesiynau rhithwir galw heibio, gan greu lle i bawb gael sgwrs gyffredinol a chyngor yn ôl yr angen, ynghyd â sesiynau ar y safle.

Mae'r Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh wedi parhau i gydweithio i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos (DSE) priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig. Mae'r Senedd wedi caffael system DSE ar-lein ac wrthi'n cyflwyno'r system, a fydd yn parhau i gefnogi'r rhai sy'n gweithio o bell neu ar yr ystâd.

Mae Arolygon Pwls Llesiant yn parhau i gael eu cynnal bob tymor (cafodd dau eu cynnal yn ystod 2023-24), sy'n ein galluogi i fonitro llesiant ein staff, rhoi ymyriadau ymatebol ar waith, a monitro effeithiolrwydd cyffredinol ein Strategaeth Llesiant.

## Data trosiant staff

Mae trosiant wedi gostwng dros y 12 mis diwethaf i 6& (2022-23 8.3%). Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddo gwirfoddol (11.7% yn 2023 yn ôl **Xpert HR**). Y gyfradd trosiant eleni yw 6%, sy'n dal i fod ychydig yn is o'r cyfartaledd o 6.9% yn y Comisiwn yn seiliedig ar gyfraddau trosiant y pedair blynedd ariannol diwethaf. Cyn y pandemig roedd y gyfradd trosiant yn 9.7% yn 2018-19.

## Dangosyddion ymgysylltu â staff

Yn dilyn y 10fed arolwg pobl blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023, cytunwyd y byddai ein harolygon staff blynyddol yn symud i gylch 18 mis, wedi'i ategu gan arolygon pwls bob hanner blwyddyn. Mae'r addasiad hwn yn cynnig nifer o fanteision i'n sefydliad. Mae'n meithrin agwedd fwy hyblyg ac ymatebol at adborth gan weithwyr, gan ganiatáu inni gadw'n gyfarwydd ag anghenion a phryderon esblygol ein cydweithwyr. Mae'r cylch 18 mis yn rhoi digon o amser i gynlluniau gweithredu a newidiadau diriaethol gael eu rhoi ar waith a'u hasesu, tra bod yr arolygon pwls chwe mis yn gweithredu fel pwyntiau gwirio hanfodol i fesur effaith ein mentrau a mynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r dull hwn nid yn unig yn hyrwyddo gwelliant parhaus, ond hefyd yn lleihau llesgedd o ran arolygon ymhlith ein staff, gan ei fod yn taro cydbwysedd rhwng casglu data cynhwysfawr a pharchu eu hamser. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd gwaith deinamig a deniadol, lle mae lleisiau gweithwyr yn cael eu clywed a'u gweithredu'n rheolaidd.

Mae’r arolwg yn rhoi cipolwg ar brofiad gweithwyr o weithio yn y Senedd ac yn helpu i nodi meysydd i’w gwella fel y gallwn roi newid ar waith yn seiliedig ar adborth gweithwyr.  Rydym wedi gweithio ar y cyd â WorkL eto i gynnal yr arolwg, ac wedi cyfuno eu harbenigedd hwy â'n hanghenion penodol ni. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi i barhau i feincnodi ein canlyniadau yn erbyn amrywiaeth ehangach o sefydliadau tebyg, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.

Mae’r arolwg yn seiliedig ar fframwaith sy’n mesur chwe thema graidd: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth; Rhannu Gwybodaeth; Galluogi; Llesiant; Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith. Unwaith eto, mae’r canlyniadau’n dangos bod timau’n gweithio’n hyblyg, ac yn cefnogi ei gilydd drwy heriau a newidiadau, ac mae’r mwyafrif helaeth o gydweithwyr yn falch o weithio yn y Senedd. Mae'r Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol (75%), ac yn cymharu'n ffafriol â sgôr cyffelyb y sector cyhoeddus (63%).

Er mwyn rhoi’r trawsnewidiad hwn ar waith yn effeithiol, rydym wedi trosoli ein Rhwydwaith Ymgysylltu Staff (Engage) sydd newydd ei adfywio fel system gymorth ganolog. Mae'r rhwydwaith hwn yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer lledaenu gwybodaeth am y dull arolygu newydd, gan sicrhau bod gweithwyr yn deall ei ddiben a'i fanteision. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith Engage yn chwarae rhan hanfodol wrth annog cyfranogiad gweithredol yn yr arolygon blynyddol a'r arolygon pwls. Mae eiriolwyr ac arweinwyr o fewn y rhwydwaith yn helpu i feithrin diwylliant o adborth parhaus, ateb cwestiynau, mynd i’r afael â phryderon, ac amlygu pwysigrwydd mewnbwn staff wrth lunio ein sefydliad. Mae cyrhaeddiad a dylanwad y Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff yn ei wneud yn fodd amhrisiadwy o hyrwyddo system adborth fwy deinamig a chynhwysol, sy'n cyd-fynd yn berffaith â'r cylch arolwg arfaethedig ac yn gwella ein hymdrechion ymgysylltu â gweithwyr ymhellach.

## Anabledd

Mae EMBRACE, rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle’r Senedd ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn creu polisïau ac yn cyfrannu at y broses o’u datblygu drwy gynnig syniadau a herio. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau.

Mae gennym gamau ar waith i gefnogi gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein safbwynt o warantu cyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion

sylfaenol y rôl, ac mae hyn hefyd yn berthnasol yn fewnol i weithwyr sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw anghenion unigol i gefnogi hygyrchedd ym mhob agwedd ar y broses recriwtio a chânt eu bodloni lle bo angen.

Gwneir addasiadau i'r gweithle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng gweithwyr a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, gweithwyr mewn swydd neu'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi'i addasu a thechnoleg gynorthwyol sy'n ystyriol o drefniadau gweithio o bell neu weithio ar y safle. Bydd gweithwyr anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer wedi'u lleoli ar ein hystâd. Mae gan ein hystâd systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau hygyrchedd rheolaidd ar ein hystâd.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth y Senedd yn gorff sy'n cynnwys Rheolwyr a chynrychiolwyr o Ochr yr Undebau Llafur ac yn seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol y caiff nodau ac amcanion sefydliad eu cyflawni orau gan reolwyr a gweithwyr, wedi'u cynrychioli gan eu hundebau llafur cydnabyddedig, yn cydweithio â'i gilydd i gyflawni nodau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd Partneriaeth ffurfiol unwaith bob hanner tymor, gyda chyfarfodydd llai ffurfiol yn rheolaidd bob tymor, i roi cyfle i drafod y gwahanol faterion ar draws y Comisiwn a sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu priodol ag Ochr yr Undebau Llafur. Eleni mae'r ffocws penodol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng Ochr yr Undebau Llafur ac Adnoddau Dynol wedi bod ar drafodaethau ar gyfer cytundeb cyflog staff y Comisiwn yn y dyfodol, wrth i'r cytundeb cyflog saith mlynedd presennol ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant 2022-2026 y Comisiwn yn amlinellu pedwar amcan blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd hwn: Mae Amrywiaeth a Chynhwysiant yn sail i'n gweithgareddau pob dydd a'n cynllunio strategol; Lle cynrychiolиadol, cynhwysol i weithio ynddo; Arweinyddiaeth a diwylliant a arweinir gan werthoedd; a Senedd gynhwysol, hygyrch i bobl Cymru.

Un o'n blaenoriaethau hirsefydlog yw sicrhau bod ein gweithlu yn cynrychioli'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu ac rydym yn gweithio i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth pobl o leiafrifoedd ethnig yn ein gweithlu, yn enwedig ar y lefel lle

gwneir penderfyniadau uwch. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys ehangu ein pibellau talent, gwella ein brand fel cyflogwr a gweithio gyda phartneriaid dibynadwy i ymgysylltu'n agosach fel sefydliad a allai fod yn gyflogwr o ddewis gyda chymunedau lleol. Eleni, rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid chwilio gweithredol i amrywio'r ffynhonnell dalent ar gyfer uwch swyddi a swyddi penodiadau cyhoeddus/penodiadau'r Goron. Rydym wedi croesawu ein hail garfan o interniaid YMLAEN, sef ein rhaglen i raddedigion, ar gyfer graddedigion o leiafrifoedd ethnig.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae Comisiwn y Senedd wedi'i gydnabod fel bod ymhlith y deg cyflogwr gorau ar gyfer teuluoedd gweithio, wedi'i ailachredu fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd, a chaffi'r Senedd yw'r lleoliad cyntaf yng Nghymru i gael achrediad gan safon caffi teuluol Kids in Museums, a meincnod sy'n cydnabod caffis mewn amgueddfeydd ac atyniadau diwylliannol sy'n wych i deuluoedd, gan roi croeso cynnes i bawb.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant i ddarparu trosolwg strategol o'n blaenoriaethau o ran amrywiaeth a chynhwysiant, a helpu i gadw ein blaenoriaethau yn y maes hwnnw ar y trywydd cywir. Mae'r Grŵp yn cynnwys Cadeirydd sy'n aelod o'r Tîm Arwain; cynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Senedd; yn ogystal â chynrychiolwyr o adnoddau dynol, undebau llafur a'n Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i ymgorffori amrywiaeth a chynhwysiant yn ein gwaith i fod yn gyflogwr enghreifftiol, sy'n cefnogi senedd gynhwysol, yn ein hadroddiad blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2023-24

| | | Cyllideb | Alldro | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) £'000 | Alldro £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 47,574 | 46,360 | 1,214 | 43,862 |
| Costau sy'n gysylltiedig ag etholiad | Nodyn SOS 01 | - | - | - | - |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 17,834 | 17,364 | 470 | 16,529 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 1,800 | 136 | 1,664 | 1,822 |
| | | **67,208** | **63,860** | **3,348** | **62,213** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb a gymeradwywyd a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

## b) Gofyniad arian parod net 2023-24

| | | Cyllideb | Alldro | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 61,536 | 60,797 | 739 | 58,297 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 205.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net 2023-24***

| | Alldro | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro 2022-23 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Refeniw** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 28,585 | 28,357 | (228) | 28,357 | (228) | 27,171 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 11,028 | 12,402 | 1,374 | 11,967 | 939 | 10,810 |
| Costau cyfalaf – heblaw arian parod | 5,297 | 6,272 | 975 | 6,272 | 975 | 5,224 |
| **Gwariant Refeniw** | 44,910 | 47,031 | 2,121 | 46,596 | 1,686 | 43,205 |
| Incwm refeniw gros wedi'i gymhwyso | (102) | (170) | (68) | (170) | (68) | (73) |
| **Gwariant Refeniw net** | 44,808 | 46,861 | 2,053 | 46,426 | 1,618 | 43,132 |
| Gwariant cyfalaf* | 933 | 500 | (433) | 500 | (433) | 380 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | 45,741 | 47,361 | 1,620 | 46,926 | 1,185 | 43,512 |
| Cyflogau a lwfansau'r Aelodau, a chostau cysylltiedig | 17,364 | 17,834 | 470 | 17,834 | 470 | 16,529 |
| Cymorth y Bwrdd Taliadau | 539 | 547 | 8 | 547 | 8 | 274 |

| | **Alldro** | **Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd** | **Alldro o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd** | **Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig** | **Alldro o'i gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig** | **Alldro 2022-23** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | 80 | 101 | 21 | 101 | 21 | 76 |
| **Alldro adnoddau** | 63,724 | 65,843 | 2,119 | 65,408 | 1,684 | 60,391 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 136 | 1,800 | 1,664 | 1,800 | 1,664 | 1,822 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **63,860** | **67,643** | **3,783** | **67,208** | **3,348** | 62,213 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad. * Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £933,000 (2022-23 £380,000)

## Alldro adnoddau net - Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, costau cymorth i'r Bwrdd Taliadau, costau cymorth Swyddfa'r Comisiynydd Safonau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2023-24 oedd £45.7 miliwn yn erbyn cyllideb o £46.9 miliwn, gan arwain at danwariant cyffredinol o £1.1 miliwn (2.5%). Er bod hyn y tu allan i ystod darged y Comisiwn o 0.0% i 1.5% o'r gyllideb, roedd hyn yn bennaf oherwydd bod y tanwariant yn fwy na'r disgwyl yn erbyn cyllidebau nad ydynt yn arian parod, sef dibrisiant ar gyfer asedau Hawl i Ddefnydd a thaliadau llog tybiannol o ganlyniad i gyflwyno safon gyfrifo newydd yn ymwneud ag ymdrin â lesoedd (IFRS 16).

Ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod, yr alldro oedd £40.4 miliwn yn erbyn cyllideb o £40.7 miliwn, gan arwain at danwariant o 0.51%, sydd ymhell o fewn ystod darged y Comisiwn ac yn adlewyrchu'r dull rhagweithiol o reoli adnoddau'r Comisiwn.

Mae gweithio hybrid bellach wedi’i wreiddio fel y ffordd o weithio i’r Comisiwn. Mae rheoli ystadau mewn modd rhagweithiol wedi hwyluso gostyngiadau mewn costau cyfleustodau. Mae ymdrechion yn parhau i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd yn hyn o beth.

Defnyddiwyd yr ystâd ar gyfer gweithio hybrid yn ystod y flwyddyn ariannol gyfan. Mae lefelau deiliadaeth yn dal i fod yn sylweddol is na’r capasiti ac mae gwaith wedi'i wneud i gael y gwerth a’r defnydd mwyaf posibl o’r ystâd drwy ddarparu mannau gweithio hyblyg ac uwchraddio offer TGCh i roi profiad gwell i'r Aelodau mewn cyfarfodydd hybrid. Mae gwell rheolaeth ar yr ystâd a gwell defnydd o ofod hefyd wedi arwain at arbedion mewn costau cyfleustodau.

Effeithiwyd ar wariant prosiectau a recriwtio staff yn ystod 2023-24 gan y cais i wneud taliad costau byw pellach o £1,500 (pro rata) i staff y Comisiwn islaw gradd Cyfarwyddwr. Fe'i talwyd mewn dau randaliad (mis Hydref a mis Ionawr) i sicrhau bod cyllid digonol ar gael. Cafodd hyn effaith sylweddol ar gyflawni prosiectau yn ystod chwarteri dau a thri o'r flwyddyn, yn enwedig ym meysydd Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh. Yn chwarter pedwar, cafodd prosiectau allweddol Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau, a TGCh eu blaenoriaethu gan y Bwrdd Gweithredol, a'u cyflawni.

Roedd gorwariant o 0.80% ar gyflogau staff a chostau cysylltiedig yn erbyn y gyllideb (oherwydd y taliad costau byw), ac roedd tanwariant o 7.84% mewn

cyllidebau nad ydynt yn ymwneud â staff (gan gynnwys cyllidebau nad ydynt yn arian parod).

Y gyllideb a osodwyd ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau oedd £17.8 miliwn. Yr alldro oedd £17.3 miliwn, gan roi tanwariant o ychydig dros 2.61%. Mae arbedion o'r gyllideb hon wedi'u neilltuo ac nid ydynt ar gael i'r Comisiwn.

At hynny, cymeradwyodd y Bwrdd Taliadau ddau daliad o £1,200 (pro rata) i'r holl Staff Cymorth a ariannwyd gan y Penderfyniad ac a dalwyd mewn dau randaliad (Ebrill 23 a Ionawr 24).

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb o £1.8 miliwn ar gyfer 2023-24 ym mis Tachwedd 2022, ar sail data a oedd ar gael ar y pryd. Y costau gwirioneddol oedd £0.135 miliwn.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net.***

| | Sylwer | 2023-24 £000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 63,857 | 62,211 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (933) | (380) |
| Taliadau uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru | | 800 | 764 |
| **Gwariant gweithredu net** | | **63,724** | **62,595** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | 3 | 2 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £800,257 (2022-23, £764,479) yn deillio o gostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; ac o gostau cyflogau a threuliau y Comisiynydd Safonau, y Comisiynydd Safonau Dros Dro a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Telir y cyflogau a'r treuliau hyn gan y Comisiwn, a'u hadennill o'r Gronfa. Fel tâl uniongyrchol ar y Gronfa maent wedi'u heithrio o'r alldro adnoddau net. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd, dyledwr o £2,840.26 ar gyfer arian sy'n ddyledus i'r Comisiwn o Gronfa Gyfunol Cymru. Penderfynwyd ar hyn yn gynnar Ebrill 24.

Cafodd y Comisiwn £3,314.41 (2022-23 £1,811 ) mewn llog ar ei gyfrif banc masnachol yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. y Comisiwn £3,314.41 (2022-23

£1,811 ) mewn llog ar ei gyfrif banc masnachol yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24. Bydd hwn yn cael ei ildio’n ôl i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2023-24 yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, nad yw'n caniatáu i'r Comisiwn gadw'r llog banc a enillwyd.

# Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn 2023-24 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr;
- y nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2024 a'i ofyniad arian parod net, ei alldro adnoddau net, a'i gostau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u llunio'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol âchyfarwyddiadau Trysorlys EF o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol:

- Mae'r Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny;
- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r Dystysgrif hon.

Mabwysiedir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Comisiwn y Senedd i ystyried y gofynion a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes

gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol pan ragwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol a'r rhannau hynny o'r Adroddiad Taliadau a Staff a gaiff eu harchwilio ac fy adroddiad archwilio arnynt. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi casgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys fod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu llunio ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EF am daliadau a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu; neu
- nad yw datgeliadau penodol o daliadau a bennwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF;

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- llunio'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi datganiad ariannol i gael ei lunio heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Comisiwn y Senedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw *archwilio, ardystio ac adrodd ar y* datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:

  - nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau a chydymffurfio â hwy ac a oeddent yn ymwybodol o achosion o anghydymffurfedd;
  - dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau.

- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, a dangosyddion posibl o dwyll.
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd.
- Cael dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- ymholi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes trafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i arwyddion o dwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd resymol bod y Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Dyddiad: 17 Gorffennaf 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall,
Caerdydd
CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.



▼ **Arddangosfa Carnifal Butetown**, 2023



# Datganiadau ariannol



# Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024***

| **Incwm o weithrediadau** | **Sylwer** | **2023-24 £'000** | **2022-23 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 99 | 73 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **99** | **73** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 36,435 | 34,521 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 10,839 | 10,260 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 9 | 136 | 1,822 |
| Taliadau dibrisiant ac amhariad | 3 | 4,673 | 4,591 |
| Cost cyllid | 3 | 624 | 633 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 11,119 | 10,843 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **63,826** | **62,670** |
| Incwm cyllid | | 3 | 2 |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | SOS 02 | **63,724** | **62,599** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 9 | (1,424) | (18,506) |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 192 | (7,305) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **62,492** | **36,788** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 176 i 207 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2024***

| **Asedau anghyfredol:** | **Sylwer** | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 71,296 | 73,230 |
| Asedau hawl i ddefnydd | 10 | 65,153 | 66,920 |
| Asedau anniriaethol | 5 | - | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **136,449** | **140,150** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 14 | 18 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 2,249 | 2,152 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 276 | 226 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,539** | **2,396** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **138,988** | **142,546** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (4,485) | (4,351) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (1,733) | (1,708) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(6,218)** | **(6,059)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **132,770** | **136,487** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (1,217) | (2,532) |
| Rhwymedigaethau prydles | 10 | (64,039) | (65,547) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(65,256)** | **(68,079)** |
| **Cyfanswm asedau namyn y cyfanswm rhwymedigaethau** | | **67,514** | **68,408** |
| **Ecwiti Trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | |
| Y gronfa gyffredinol | | 33,467 | 35,457 |
| Y gronfa bensiwn wrth gefn | 9 | (1,073) | (2,361) |
| Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | 35,120 | 35,312 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **67,514** | **68,408** |

Mae'r Comisiwn yn cadw'r cronfeydd wrth gefn a ganlyn:

- Cronfa Gyffredinol sy'n cynrychioli cyfanswm yr asedau heb gynnwys rhwymedigaethau'r Comisiwn, i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn eraill ac eitemau ariannu.
- Mae'r Gronfa Bensiwn wrth Gefn yn dangos y newid mewn enillion actiwaraidd neu golledion ar rwymedigaethau cynllun pensiwn (a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr).
- Mae'r Gronfa Ailbrisio wrth Gefn yn gronfa nad yw'n arian parod a grëwyd i adlewyrchu gwir werth asedau'r Comisiwn pan fo gwerth marchnad categori penodol o ased yn fwy neu'n llai na gwerth ased o'r fath ar yr adeg y caiff ei gofnodi yn y llyfrau cyfrifon.

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2024**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 176 i 207 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024***

| | Sylwer | 2023-24 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Llif arian o weithgareddau gweithredu | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (63,724) | (62,595) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Dibrisiad, amorteiddiad ac amhariad | 3, 4 a 5 | 2,676 | 2,603 |
| Colled wrth waredu asedau | 3, 4 a 5 | - | - |
| Cynnydd mewn rhestri eiddo | | 4 | (3) |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | (94) | (54) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | | | - |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 131 | (1,730) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr | SOS 03 | (50) | 945 |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau prydles | 10 | 230 | 68,908 |
| Llog ar rwymedigaethau prydles | | 624 | 633 |
| Defnydd o ddarpariaethau | | (27) | - |
| Costau cyllid Pensiwn | 9 | 136 | 1,822 |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(60,094)** | **10,529** |
| Llif arian o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (933) | (380) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(933)** | **(380)** |
| Llif arian o weithgareddau cyllido | | | |
| Asedau hawl i ddefnydd – ychwanegiadau | | 1,767 | (66,920) |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 61,076 | 58,521 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | SOS 02 | 800 | 764 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 03 | (226) | (1,171) |
| Llog banc (yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru) | | (3) | (2) |
| Talu rhwymedigaethau prydles | 10 | (2,337) | (2,286) |

| | Sylwer | 2023-24 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Mewnlif (all-lif) arian net o weithgareddau cyllido** | | **61,077** | **(11,094)** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | 50 | (945) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 226 | 1,171 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **276** | **226** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 176 i 207 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024***

| | Sylwer | Y gronfa gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | 37,173 | 28,007 | (19,045) | 46,135 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (62,595) | 7,305 | 18,506 | (36,784) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 1,822 | - | (1,822) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 58,592 | - | - | 58,592 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (71) | - | - | (71) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 764 | - | - | 784 |
| Llog banc (taladwy) | | (2) | - | - | (2) |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (226) | - | - | (226) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | 35,457 | 35,312 | (2,361) | 68,408 |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (63,724) | (192) | 1,424 | (62,492) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 9 | 136 | | (136) | 0 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 61,536 | | | 61,536 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (460) | | | (460) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 800 | | | 800 |
| Llog banc (taladwy) | SOS 02 | (2) | | | (2) |
| Swm yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (276) | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **33,467** | **35,120** | **(1,073)** | **67,514** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 176 i 207 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail croniadol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2023-24 a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad y Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i'r graddau eu bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r sector cyhoeddus.

Pan fo'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu'r Comisiwn eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon. Yn ogystal â'r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn paratoi dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a gyhoeddwyd ac a ddaeth i rym yn 2023-24 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau / diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, dan sylw ond nid ydynt wedi dod i rym eto:

- Dosbarthiad Rhwymedigaethau fel rhai Cyfredol neu Anghyfredol – gyda Chyfamodau (newidiadau i IAS 1, Cyflwyno Datganiadau Ariannol)
- Atebolrwydd Prydles mewn Gwerthiant-ac-Adlesu (Diwygiadau i IFRS 16, Prydlesi)
- Trefniadau Cyllid Cyflenwyr (Diwygiadau i IAS 7, Datganiad Llif Arian, ac IFRS 7, Offerynnau Ariannol).

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol.

**IFRS 16 – Prydlesau**

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £20,000 ac wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anniriaethol gan fod y rhain wedi'u dileu'n llawn.

## Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

## Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cyfalafu pan ystyrir bod gwariant ar offer a/neu brosiectau yn bodloni'r profion cydnabyddiaeth a nodir yn Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 16 ar Eiddo, Peiriannau ac Offer. Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio de-minimis i gyfalafu ond mae'n cynnal asesiad sylweddol o drafodion i gyfalafu gwariant pan fo'n briodol gwneud hynny.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau diriaethol eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai'r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

## Amhariad asedau

Caiff eiddo, offer a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na'r symiau y gellid eu hadennill. Os yw'r symiau hyn yn llai na gwerth llyfr net yr asedau, nodir colled amhariad yn gyntaf i'r Gronfa Ailbrisio, gydag unrhyw falans sy'n weddill yn cael ei godi i'r Datganiad Gwariant Net.

## Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol gan yr ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol â gwerth teg. Pan ddechreuir defnyddio'r ased, fe'i trosglwyddir i'r categori priodol a chaiff ei chynnwys mewn adolygiadau ailbrisio ac amhariad dilynol.

## Asedau anniriaethol

Caiff trwyddedau meddalwedd eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddisgwyliedig yr ased.

## Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd gwreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa wrth Gefn Gyffredinol yn unol â phenderfyniad Trysorlys Ei Fawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

## Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn lleihau gwerth adeiladau ac asedau diriaethol eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes economaidd amrywiol.  Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Mae oes asedau fel arfer fel a ganlyn, ond cânt eu hadolygu fesul achos fel bod bywydau defnyddiol yn adlewyrchu'r amgylchiadau cyffredinol orau:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gaiff ei brynu neu ei brisio. |
| Gosodion a ffitiadau: | Pum i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu | Pedair i ddeng mlynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 blynedd |
| Asedau anniriaethol (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o’r gronfa ailbrisio wrth gefn

Bydd gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio yn destun dibrisiant.   Gall elfen o’r dibrisiant ddod i law felly oherwydd cynnydd yn y prisiad, a byddai’n fwy na’r dibrisiant a fyddai’n cael ei gyfrifo o ddefnyddio cost hanesyddol yr asedau. Byddai’r swm sy’n ymwneud â gormodedd o’r fath yn elw a wireddir ar y prisiad, ac mae i’w drosglwyddo o’r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i’r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei werthu.

## Cydrannau Asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes unrhyw ran o'r asedau sydd ag oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Lle bo hyn yn wir, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol briodol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u “grwpio” yn TGCh; offer clyweled a darlledu; Seilwaith TGCh, ac asedau anghyffyrddadwy. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol briodol.

## Datganiad gwariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei adennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau a godir ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stocrestrau

Nodir y stoc, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y gost neu’r pris gwerthadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio y Llywodraeth a chyda'r banciau masnachol y gellir ei drosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Prydlesau

Asedau ar brydles: Mae prydles yn gontract neu'n rhan o gontract sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth. Caiff yr asedau ar brydles eu mesur i ddechrau ar swm sy'n gyfartal â'r gwerth isaf eu gwerth teg a gwerth presennol y taliadau prydles isaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Ar ddyddiad cychwyn y brydles, mae'r Comisiwn yn cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar bris cost, sy'n cynnwys mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth prydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol a wynebir gan y Comisiwn, ac unrhyw daliadau prydles a wneir cyn dyddiad cychwyn y brydles (heb gynnwys unrhyw cymhellion a dderbyniwyd).

Mae'r Comisiwn yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae'r Comisiwn hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer amhariad pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli. Ar y dyddiad cychwyn, mae'r Comisiwn yn mesur y rhwymedigaeth prydles ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi'u disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynyddrannol y Comisiwn. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddefnyddiwyd (a bennwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi) yw 3.51%.

Mae taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth prydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog mewn sylwedd), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn

daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy’n codi o opsiynau y ceir sicrwydd rhesymol y cânt eu harfer.

Yn dilyn y mesuriad cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'i gynyddu ar gyfer llog. Bydd yn cael ei ail-fesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog mewn sylwedd. Pan fydd y rhwymedigaeth prydles yn cael ei hailfesur, mae'r addasiad cyfatebol yn cael ei adlewyrchu yn yr ased hawl i ddefnydd, neu elw a cholled os yw'r ased hawl i ddefnydd eisoes wedi'i ostwng i sero. Mae'r Comisiwn wedi dewis cyfrifo ar gyfer prydlesau tymor byr (llai nag un flwyddyn) a phrydlesau asedau â gwerth isel (llai na £20,000) gan ddefnyddio'r dulliau ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl i ddefnydd a rhwymedigaeth prydles, mae’r taliadau mewn perthynas â’r rhain yn cael eu cydnabod fel traul mewn elw neu golled ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Ar y datganiad o’r sefyllfa ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi’u cynnwys mewn eiddo, offer a chyfarpar ac mae rhwymedigaethau prydles wedi’u cynnwys mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill.

Caiff asedau a ddelir o dan brydlesau eraill eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o’r sefyllfa ariannol.

Taliadau prydles: Caiff rhenti sy’n daladwy o dan les weithredol eu cynnwys yn y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## **Cyflwyno adroddiadau** fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad, o dan ofynion IFRS 8, unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud.

## Buddion i weithwyr

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy’n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys rhwymedigaethau sy’n gysylltiedig â gwyliau blynyddol nad ydynt yn cael eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth staff. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb ei gymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun. Cynllun buddion diffiniedig nas

ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr yw hwn ac felly ni all y Comisiwn nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad y Cynllun ar 31 Mawrth 2020 gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Dangosodd canlyniadau'r prisiad yr angen am gyflwyno cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr unffurf o 28.7%, gan symud i ffwrdd o gyfraddau haenog: bydd y gyfradd hon yn daladwy o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2027. At hynny, cadarnhaodd canlyniadau'r prisiad na thorrwyd y mecanwaith rheoli costau. Codir symiau sy'n daladwy i'r Cynllun ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan fyddant yn ddyledus.

Ceir y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Cyfrifon Blwydd-dal Sifil (**https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**).

### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw hwn, ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflog unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei rhoi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw ddyledion yn y gronfa sy'n codi oherwydd diffyg o ran asedau yn cael eu talu drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Ryngwladol Cyfrifo 19. Yn unol ag IAS 19, mae gofyn i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob rhagdybiaeth actiwariaid sylweddol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut yr effeithir ar rwymedigaeth ddiffiniedig o ran buddiant gan newidiadau yn y rhagdybiaeth actiwariaid berthnasol ar y dyddiad hwnnw.

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i Gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd[25].

### Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion Adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a

[25] https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/aelodau-o-r-senedd-adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon/

gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adferadwy.
Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y modd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau a nodir. Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn y bu'r digwyddiad. Mae pob amcangyfrif a dyfarniad o'r fath yn cael eu hadolygu yn barhaus a chaiff unrhyw ddiwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod y caiff yr amcangyfrif ei ddiwygio ynddo ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arnynt yn y dyfodol. Y meysydd mwyaf arwyddocaol o amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol yw:

Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd  Mae manylion am y rhagdybiaethau actiwaraidd yn Nodyn 02.A ac yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn.

Dadfeilio.  Mae'r Comisiwn o'r farn, yn gyffredinol, nad oes angen gwneud darpariaeth ar gyfer dadfeilio gan ystyried yr ychydig o waith cynnal a chadw wrth gefn, a'r adolygiad blynyddol, a chytuno ar y flaenraglen waith 10 mlynedd. Gofynnir am gyngor ynghylch materion penodol a gwneir darpariaeth lle bernir ei bod yn briodol.

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr Adran Atebolrwydd - Adroddiad ar Daliadau a Staff.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 8: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff<br>£'000 | Aelodau a deiliaid swyddi<br>£'000 | Cyfanswm 2023-24<br>£'000 | Cyfanswm 2022-23<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 20,931 | 5,475 | 26,406 | 24,754 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 536 | | 536 | 569 |
| Staff ar secondiad | 30 | | 30 | 156 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 2,344 | 687 | 3,031 | 2,960 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 62 | | 62 | 54 |
| Staff ar secondiad | 3 | | 3 | 15 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff Parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 5,466 | 1,163 | 6,609 | 6,266 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 133 | | 133 | 107 |
| Staff ar secondiad | 6 | | 6 | 30 |
| Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 29,491 | 7,325 | 36,816 | 34,911 |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (381) | | (381) | (390) |
| Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 29,110 | 7,325 | 36,435 | 34,521 |

Ni wnaed unrhyw daliadau diswyddo i staff y Comisiwn yn 2023-24 (2023-24, dim.)

Y Comisiwn sy'n talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2024, roedd 60 Aelod o'r Senedd mewn swydd. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 34 o ddeiliaid swyddi ac roedd 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Ysgrifennydd Cabinet, tri Gweinidog, un Cwnsler Cyffredinol ac un Prif Chwip a'r Trefnydd.

## Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2023-24, roedd cyfraniadau cyflogwr o £5,536 miliwn (2022-23, £5.299 miliwn) yn daladwy ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% o'r tâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn proses brisio lawn. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu'r buddion wrth iddynt gronni, yn hytrach na phryd y telir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiadau'r cynllun yn y gorffennol.

Caiff gweithwyr newydd ers 1 Ebrill 2015 ymuno naill ai â chynllun alpha neu'r â'r cynllun partneriaeth. Cynllun pensiwn buddion diffiniedig cyfartaledd gyrfa yw alpha; cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig yw'r cynllun partneriaeth.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, roedd cyfraniadau o £41,660 (2022-23, £34,444) yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu bryd hynny.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**.

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae Adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 i'r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Bwrdd Taliadau'r Senedd yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Cyflwynodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd gynllun pensiwn cyfartalog gyrfa newydd (CARE) ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys EF yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* a'i gyflwyno i ddod i rym o 6 Mai 2016.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelodau o'r Cynllun o'r dyddiad y maent yn ymuno â'r Senedd, oni bai eu bod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Ers dechrau'r Chweched Senedd, mae pob Aelod yn y Cynllun CARE. Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50fed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr aelodau yw 10.5%. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'Ddiogelwch Pontio' ac maent wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021. Cyfrannodd yr aelodau hyn naill ai 10% neu 6% ar gyfer 40fed neu 50fed croniad yn y drefn honno tan 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd wedi ymgynghori â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Bydd yr Aelodau yr effeithir arnynt yn cael cynnig dewis ar unwaith yn 2024/25 i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol am y cyfnod Unioni (6 Mai 2016 – 6 Mai 2021).

O 7 Mai 2021, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE.

Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.

Caiff asedau’r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, ac mae pedwar Rheolwr Buddsoddi yn eu trin. Mae buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, BNY Mellon, Partners Group ac LGIM. Mae’r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn cronfa Enillion Real Cynaliadwy, cronfa Aml-Ased Gynaliadwy, cronfa Marchnadoedd Preifat, cronfa Mynegai Ecwiti Byd-eang Moesegol (wedi’i warchod a heb ei warchod), cronfa Eiddo a chronfa Giltiau Mynegrifol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant – a ffactorau buddsoddi – i leihau amlygiad uniongyrchol y Cynllun i'r sector olew a nwy.

Ar ôl cwblhau'r prisiad, gostyngodd cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5% o’u cyflog.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau gyfres o amcanion cyllido ac yn cynnal prisiad cyllid tair blynedd sy'n anelu at fonitro lefelau cyllido a rheoli costau'r Cynllun. Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf ar 1 Ebrill 2026.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer cronni buddion yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfrannu a fynegir fel canran lefel o'r cyflog pensiynadwy o'r enw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae’r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai’n ddigonol i gyllido’r buddion o dan y Cynllun, cyhyd â bod y profiad hwnnw yn unol â’r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd. Gan ddibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd yn rhaid talu cyfraniadau mwy neu daliadau llai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio’r symiau dros ben neu’r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Mae hyd cyfnod cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi’i bwysoli, oddeutu 17 mlynedd.

***Tabl 9: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Sylwer | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000* |
|---|---|---|---|
| Gwerth cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun | | (48,158) | (45,135) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 47,085 | 42,801 |
| **Rhwymedigaeth net** | | **(1,073)** | **(2,334)** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | (1,073) | (2,334) |
| Asedau | | | - |
| **Rhwymedigaeth net** | **9** | **(1,073)** | **(2,334)** |

**Mae ffigurau 2022-23 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r gwerth a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar gyfer 2022-23*

***Tabl 10: Dadansoddiad o'r swm a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2023-24 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 909 | 2,251 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,097 | 1,749 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (1,987) | (1,227) |
| Treuliau gweinyddol | 188 | - |
| | **1,207** | **2,773** |
| **Dyrannwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:** | | |
| Costau pensiwn eraill | 1,071 | 951 |
| Costau cyllid Pensiwn | 136 | 1,822 |
| | **1,207** | **2,773** |

***Tabl 11: Dadansoddiad o'r swm a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr* (SCITE)**

| | 2023-24 £'000 | 2022-23 £'000 |
|---|---|---|
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,412 | (4,894)* |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (990) | (3,536) |
| Newidiadau mewn tybiaethau | (25) | 26,963 |
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **1,397** | **18,533** |

**Mae ffigurau 2022-23 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r gwerth a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar gyfer 2022-23*

***Tabl 12: Newidiadau yng ngwerth y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 45,135 | 65,211 |
| Cost presennol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r Aelodau) | 909 | 2,251 |
| Cyfraniadau'r Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 518 | 502 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,516) | (1,151) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,097 | 1,749 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | 1,015 | (23,427) |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **48,158** | **45,135** |

***Tabl 13: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 42,801 | 46,166 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 1,987 | 1,225 |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,412 | (4,761) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 1,071 | 951 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 518 | 502 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,516) | (1,151) |
| Treuliau gweinyddol | (188) | (131) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **47,085** | **42,801** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £938,176 at Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn 2024-25.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 14: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2023-24 | 2022-23 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 52% | 51% |
| Buddsoddiadau amgen | 14% | 16% |
| Eiddo | 7% | 8% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 27% | 25% |
| | **100%** | **100%** |

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn amrywiaeth o gronfeydd fel a ganlyn:

- BNY Mellon Sustainable Real Return
- Baillie Gifford Sustainable Multi Asset Growth
- Legal & General Investment Management ("LGIM") Managed Property
- Partners Group Generations
- LGIM Ethical Global Equity Index (wedi'i warchod a heb ei warchod)
- LGIM Over 5 Year Index-Linked Gilt Index
- LGIM Cash (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac fe'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian)

Cyfanswm gwerth yr Arian a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2024 y farchnad oedd £47.0 miliwn (31 Mawrth 2021, £2.8 miliwn).

Dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024 cynhyrchodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 10.4%. Sbardunwyd hyn gan enillion yng ngwerth pob dosbarth o asedau mawr yn ystod y cyfnod, yn enwedig ecwiti. Yr elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau cynllun yn ystod 2023-24 oedd cynnydd o £4.3 miliwn (2022-23, colled o £3.6 miliwn). Tanberfformiodd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a gynyddodd mewn gwerth gan tua 22.4% (mewn termau lleol), ond perfformiodd yn well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a ddychwelodd tua -4.6%). Perfformiodd y Cynllun yn well na'i gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr plws 3.0%), a ddychwelodd tua 5.7% yn ystod cyfnod o chwyddiant uwch.

## Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 15: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaethau | 31 Mawrth 2024 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---:|---:|
| Cyfradd y gostyngiad | 4.75% | 4.65% |
| Cynnydd mewn enillion yn y dyfodol – yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 0.75% | 0.55% |
| Cynnydd pensiwn yn y dyfodol – yn fwy na'r gyfradd ddisgownt | 1.95% | 2.05% |
| Hyd oes ddisgwyliedig yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Gwryw | 23.7 | 23.6 |
| Benyw | 25.3 | 25.2 |
| Gweddwon | 24.1 | 24.0 |

## Sensitifrwydd i'r prif ragdybiaethau

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r enillion yn newid 1% y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 1%.

Pe bai cyfradd dybiedig yr elw sy'n uwch na'r pensiwn yn newid 1% y flwyddyn, byddai cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd yn newid tua 17%.

Os rhagdybir bod yr hirhoedledd ar ôl ymddeol yn fwy o ddwy flynedd, byddai hyn yn cynyddu cyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd tua 6%.

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 16: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2021 £'000 | 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 48,158 | 45,135 | 65,211 | 63,885 | 54,679 |
| Asedau'r cynllun | 47,085 | 42,801* | 46,166 | 43,644 | 35,248 |
| Rhwymedigaeth net | (1,073) | (2,334)* | (19,045) | (20,241) | (19,431) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 990 | 3,536 | 229 | 355 | (635) |
| Gwir enillion heb gynnwys llog ar asedau'r cynllun | 2,412 | (4,894)* | 2,233 | 7,144 | (3,220) |

**Mae ffigurau 2022-23 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r gwerth a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar gyfer 2022-23*

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd[26] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

[26] https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/

## 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr aelodau, sef £10.839 miliwn (2022-23, £10.260 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys y canlynol:

| **Categori** | **2023-24 £'000** | **2022-23 £'000** |
|---|---|---|
| Costau swyddfa | 1,314 | 1,408 |
| Costau ychwanegol | 263 | 260 |
| Costau staff yr Aelodau | 9,056 | 8,410 |
| Costau teithio | 206 | 182 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **10,839** | **10,260** |

Nid yw costau staff aelodau yn cynnwys unrhyw daliadau diswyddo ar gyfer 2023-24 (2022-23, tri ar gyfanswm cost o £25,361).

O 1 Ebrill 2023 ymlaen, newidiodd y cynllun pensiwn ar gyfer y Staff Cymorth i Aelodau o drefniant Rhanddeiliaid i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp. Mae'r cynllun yn gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig gydag AVIVA y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10% iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ddechrau'r Chweched Senedd, pan fydd aelod o staff yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri % o'r cyflog gwirioneddol a delir. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad diwethaf ail-gyflwyno'r Cynllun oedd 1 Ionawr 2023. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2023-24 oedd £805,636 (2022-23 £746,691).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau *Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd, ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae'r Comisiynydd Safonau ('y Comisiynydd') yn eu hysgwyddo. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflogau a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol a ysgwyddir wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau, yn cael eu codi ar gyfrif Cronfa Gyfunol Cymru.

Y Comisiynydd Safonau yw Douglas Bain CBE TD, a benodwyd o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r penodiad am gyfnod o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel y Comisiynydd ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan ddau aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos a gaiff ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid a sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r Comisiynydd a chostau cyflogau ei staff cymorth. Yn ogystal, yn ystod 2023-24, ceisiodd y Comisiynydd Dros Dro gyngor cyfreithiol gan staff y Comisiwn lle'r oedd hynny'n berthnasol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2023-24 | | 2022-23 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 626 | | 429 | |
| Costau cyflogaeth y Comisiynydd | | £54,624 | | £38,955 |
| **Costau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru** [(1)] | | **£54,624** | | **£38,740** |
| Costau cyflogaeth staff cymorth | | £74,448 | | £71,115 |
| Costau cymorth cyfreithiol a chymorth proffesiynol arall | | £5,498 | | £9,524 |
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol ag adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn** | | **£134,570** | | **£119,595** |

[(1)] Roedd tandaliad gros o £216 ym mis Hydref 2022, wedi'i gywiro ym mis Ebrill 2023.

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill gwerth £16.4 miliwn (2022-23, £16.1 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2023-24<br>£'000 | 2022-23<br>£'000 |
|---|---|---|
| Prydlesau – adeiladau | 495 | 535 |
| Prydlesau – eraill | 42 | 37 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 5,901 | 5,345 |
| Costau TGCh | 2,855 | 2,972 |
| Treuliau gweinyddol | 1,364 | 1,311 |
| Costau cysylltiedig â staff | 462 | 643 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **11,119** | **10,843** |
| Costau llog ar asedau hawl i ddefnydd | 624 | 633 |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 4,673 | 4,591 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **16,416** | **16,067** |

Y gost amcangyfrifedig o archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol oedd £71,627 (2022-23, £67,294). Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2023-24 (2022-23, dim).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau £'000 | TGCh £'000 | Gosodion a ffitiadau [27] £'000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **70,924** | **8,678** | **2,013** | **149** | **81,764** |
| Ychwanegiadau | - | 677 | 6 | 250 | 933 |
| Ailddosbarthwyd | - | 147 | - | (147) | - |
| Ailbrisiwyd | 2,264 | - | - | | 2,264 |
| Gwerthwyd | - | (847) | - | | (847) |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **8,655** | **2,019** | **252** | **79,586** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2023** | **-** | **(7,364)** | **(1,170)** | **-** | **(8,534)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (2,073) | (468) | (135) | - | (2,676) |
| Ailbrisiwyd | 2,073 | - | - | - | 2,073 |
| Gwerthwyd | - | 847 | - | - | 847 |
| **Ar 31 Mawrth 2024** | **0** | **(6,985)** | **(1,305)** | **-** | **(8,290)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **1,670** | **714** | **252** | **71,296** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | 70,924 | 1,314 | 843 | 149 | 73,230 |

Gwerth llyfr y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau prydles ar 31 Mawrth 2024 yw £5.3 miliwn (31 Mawrth 2023, £5.284 miliwn).

Cynhaliwyd ailbrisiad o dir ac adeiladau gan T Merrifield MRICS o Avison Young (UK) Limited ar 31 Mawrth 2024, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r Comisiwn yn cynnal ailbrisiad llawn bob tair blynedd, a chynhaliwyd yr un olaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. Roedd y prisiad ar gyfer y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2024 yn adlewyrchu codiadau chwyddiant a diwygiadau BCIS.

[27] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

Mae ailbrisio wedi arwain at gynnydd yng ngwerth Tir ac Adeiladau yn y Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol o £1.852 miliwn o'i gymharu â'r swm cario a fyddai wedi cael ei gydnabod pe bai'r asedau wedi cael eu cario o dan y model cost.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o nam ar 31 Mawrth 2024 ac felly ni nodwyd unrhyw namau.

| | Tir ac adeiladau £’000 | TGCh £’000 | Gosodion a ffitiadau [28] £’000 | Asedau sy’n cael eu hadeiladu £’000 | Cyfanswm £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **65,510** | **8,502** | **1,863** | **118** | **75,993** |
| Ychwanegiadau | 24 | 97 | 150 | 109 | 213 |
| Ailddosbarthwyd | - | 79 | - | (79) | - |
| Ailbrisiwyd | 5,390 | - | - | - | 5,414 |
| Gwerthwyd | - | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **70,924** | **8,678** | **1,924** | **148** | **81,620** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2022** | **-** | **(6,803)** | **(1,042)** | **-** | **(7,845)** |
| Costau yn ystod y flwyddyn | (1,914) | (561) | (128) | - | (2,603) |
| Ailbrisiwyd | - | - | - | - | |
| Gwerthwyd | 1,914 | - | - | - | 1,914 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **-** | **(7,364)** | **(1,170)** | **-** | **(8,534)** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **70,924** | **1,314** | **843** | **149** | **73,230** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022** | **65,510** | **1,699** | **821** | **118** | **68,148** |

[28] Mae gosodion a ffitiadau yn cynnwys ‘asedau a gafwyd yn rhodd’, gan gynnwys y Byrllysg a gafwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Asedau anniriaethol

Mae'r Comisiwn wedi dileu ei asedau anniriaethol yn llawn mewn blynyddoedd blaenorol, ac roedd ganddo asedau anniriaethol gwerth £0 ar 31 Mawrth 2024, (£0 ar 31 Mawrth 2023).

## 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 149 | 176 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 34 | 24 |
| Rhagdaliadau | 1,786 | 1,771 |
| TAW y gellir ei hadennill | 280 | 181 |
| | **2,249** | **2,152** |

Nid oedd unrhyw symiau i'w derbyn yn ddyledus ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---:|---:|
| Balans ar 1 Ebrill | 226 | 1,171 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 50 | (945) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **276** | **226** |
| Balansau ar 31 Mawrth a oedd yn cael eu cadw gan: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 272 | 71 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 4 | 155 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **276** | **226** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---:|---:|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 7 | 21 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 917 | 881 |
| Symiau masnachol taladwy | 853 | 721 |
| Croniadau | 2,432 | 2,500 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 276 | 226 |
| | **4,485** | **4,349** |

Nid oedd unrhyw symiau'n ddyledus gan ddyledwyr ar ôl rhagor na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Cynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd £'000 | Darpariaeth Dadfeilio £'000 | 2023-24 Cyfanswm £'000 | 2022-23 Cyfanswm £'000 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **2,361** | **171** | **2,532** | **19,216** |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | (1,424) | (27) | (1451) | (18,506) |
| Costau cyllid Pensiwn | 136 | - | 136 | 1,822 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,073** | **144** | **1,217** | **2,532** |

O dan IAS 19, cydnabyddir atebolrwydd o £1.073 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn yn Nodyn 02.A. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y darpariaethau dadfeilio yn adran ddarpariaethau Nodyn 01 - Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

O'r cyfanswm o £1.073 miliwn o ddarpariaeth (2022-23, £0 miliwn), ni ddisgwylir i unrhyw swm grisialu o fewn blwyddyn (2022-23, £0 miliwn).

## 10. Ymrwymiadau o dan brydlesau

### (a) Prydlesau gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr achosir y taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **-** | **-** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopiwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 7 | 18 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 23 | 41 |
| | **30** | **59** |

### (b) Prydlesau ariannol

Mae dadansoddiad yn y tablau isod o'r ymrwymiadau a ddosberthir fel prydlesau yn unol â chymhwyso IFRS 16. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw brydlesi cyllid eraill. Mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r dull dal i fyny cronnus (cumulative catch-up) wrth drosglwyddo ac wedi cymhwyso cyfradd ddisgownt o 3.51% wrth gyfrifo gwerth yr asedau hawl i ddefnydd a ychwanegwyd yn ystod 2023-24 (2022-23 – 0.95%). Dyma gyfradd ddisgownt Trysorlys EF a gyhoeddwyd mewn papurau Arolwg o Wariant Cyhoeddus fel y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r risg hylifedd yn y dadansoddiad aeddfedrwydd o'r ased hawl i ddefnydd yn fach iawn o ystyried bod y Comisiwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb sy'n darparu ar gyfer costau gwasanaethu'r brydles.

| **Asedau Hawl i Ddefnydd** | **Adeiladau** | **Technoleg Gwybodaeth** | **Offer a Pheiriannau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2023 | 66,855 | 65 | 0 | 66,920 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 217 | | 13 | 230 |
| Cost dibrisiant | (1,972) | (22) | (3) | (1,997) |
| Ar 31 Mawrth 2024 | **65,100** | **43** | **10** | **65,153** |

| **Dadansoddiad aeddfedrwydd** | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|
| **Adeiladau** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,311 | 2,261 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 11,553 | 11,500 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 62,397 | 66,700 |
| *Heb gynnwys* yr elfen llog | (10,536) | (11,640) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **65,725** | **68,821** |
| **Arall** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 30 | 25 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 18 | 63 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| *Heb gynnwys* yr elfen llog | - | (1) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **47** | **87** |
| Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau | **65,772** | **68,908** |
| Rhan gyfredol | 1,733 | 1,653 |
| Rhan nad yw'n gyfredol | 64,039 | 67,255 |

| | **31 Mawrth 2024 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr all-lif arian parod ar gyfer prydlesau | 2,338 | 2,286 |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac eraill

Nid oedd dim ymrwymiadau cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2024 nac ar 31 Mawrth 2023.

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae gan y Comisiwn gontractau eraill sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Byddai'r Comisiwn yn mynd yn groes i gontract pe bai'n ei derfynu'n gynnar, a gallai'r contractwr hawlio iawndal am yr elw y byddai wedi'i ennill pe bai'r contract wedi parhau am y cyfnod llawn. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Offerynnau Ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn cyhoeddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol fel rhoi benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Taliadau a staff, tudalen 135).

Gall y Senedd roi cyfarwyddyd arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu yng nghyswllt hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau annibynnol gan **Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010**. Y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau a lwfansau holl Aelodau a deiliaid swyddi'r Senedd. Ni chaiff yr Aelodau bellach gyflogi aelodau o'r teulu fel

eu staff cymorth a rhaid i unrhyw rai a gyflogir ar hyn o bryd gael eu diswyddo ar ddiwedd tymor y Senedd bresennol.

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau ar gyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr i weithio i'r Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi dweud nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

# Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar Reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y ceir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2023-2024 y Llywodraeth (FReM) a addaswyd mewn modd priodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y nodir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd mewn arian parod**

| | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---:|---:|
| Gofyniad arian parod net | (60,797) | (58,297) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 61,536 | 58,592 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu defnyddio | (460) | (71) |
| Llog banc a dderbyniwyd | (3) | 2 |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (226) | (1,171) |
| **Cynnydd mewn arian parod** | **50** | **(945)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Derbyniwyd swm o £3,314 (2022-23 £1,811) o ran llog banc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ni chaniateir i'r Comisiwn gadw'r swm hwn a bydd yn ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

## SOS 04 Cysoni Canlyniad Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2023-24

| | Sylwer | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) £'000 | Alldro 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 67,208 | 63,857 | 3,351 | 62,213 |
| Arian parod sydd ei angen ar gyfer rhent | | 2,300 | 2,337 | (37) | 2,286 |
| Addasiadau croniadol | | - | - | | - |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (8,072) | (5,433) | (2,639) | (7,046) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | 100 | 36 | 64 | 843 |
| **Gofyniad arian parod net** | | **61,536** | **60,797** | **739** | **58,297** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Sylwer | Cyllideb £'000 | Alldro £'000 | Alldro o'i gymharu â'r gyllideb 2023-24 £'000 | Alldro 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 5 | (5,406) | (4,673) | (733) | (4,591) |
| Costau llog a dibrisiant mewn perthynas ag IFRS16 | | (866) | (624) | (242) | (633) |
| Cost cyllid pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 9 | (1,800) | (136) | (1,664) | (1,822) |
| | | **(8,072)** | **(5,433)** | **(2,639)** | **(7,046)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2023-24 £'000 | Alldro 2023-24 £'000 | Alldro 2022-23 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | 170 | 102 | 73 |
| Is-gyfanswm | 170 | 102 | 73 |
| Swm a gadwyd | 170 | 99 | 73 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | **-** | **3** | **-** |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2023-24 (dim yn 2022-23).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.